# Adolygiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol 2018: Cam Un

Mehefin 2018

Natasha Davies, Cerys Furlong a Hannah Wharf

**Cydnabyddiaethau**

Drwy gydol yr adolygiad hwn buom yn gweithio’n agos gyda Dr Alison Parken, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Caerdydd ac Adele Baumgardt, a hoffem ddiolch iddynt am eu cyfraniadau.

Rydym hefyd yn ddiolchgar am gymorth cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru sydd wedi rhoi o’u hamser i gyfarfod â ni a rhannu gwybodaeth mewn ffordd adeiladol a thryloyw.

Hoffem hefyd ddiolch i’r rhanddeiliaid hynny a oedd yn gallu cymryd rhan mewn digwyddiadau ymgynghori neu gyflwyno ymatebion ysgrifenedig o fewn amserlen heriol.

Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad a Chefndir** | **4** |
| **Themâu a Chanfyddiadau Allweddol** | **9** |
| **Gweledigaeth ac Arweinyddiaeth** | **19** |
| **Polisi ar Waith** | **35** |
| **Craffu Allanol ac Atebolrwydd** | **63** |
| **Casgliadau ac Argymhellion** | **67** |
| **Atodiad Un**<br>**Adroddiad ymgynghori â rhanddeiliaid: Heriau** | **74** |
| **Atodiad Dau**<br>**Adroddiad ymgynghori â rhanddeiliaid: Camau gweithredu** | **83** |

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

Ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched 2018 cyhoeddodd y Prif Weinidog ei ddymuniad i Gymru fod yn un o'r gwledydd sy'n arwain y byd ym maes cydraddoldeb rhywiol a'i fwriad i gynnal adolygiad cyflym o bolisïau rhywedd a chydraddoldeb Llywodraeth Cymru a rhoi hwb newydd i waith Llywodraeth Cymru.

Er bod llawer wedi'i gyflawni yng Nghymru, derbyniwyd, heb ymrwymiad ac ymdrech gyson a pharhaus, na chaiff y nod o sicrhau bod Cymru yn arwain y byd ym maes cydraddoldeb rhywiol ei gyflawni.

Dechreuodd gwaith ar Gam Un o'r adolygiad ym mis Ebrill 2018 ac fe'i harweiniwyd gan Chwarae Teg, ar ran Llywodraeth Cymru. Cynhaliodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru adolygiad o ddulliau polisi rhyngwladol o hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol hefyd – *Putting equality at the heart of decision making in Wales*.[1]

Canolbwyntiodd Cam Un ar ystyried yr hyn sy'n gweithio'n dda, yr hyn y gellir ei wella, er mwyn mapio'r fframwaith polisi a deddfwriaethol presennol sy'n mynd i'r afael â chydraddoldeb rhywiol yng Nghymru yn ogystal ag ystyried sut mae llywodraethau sydd wedi gwneud cynnydd wedi ymgorffori safbwynt rhywedd wrth lunio polisïau.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau Cam Un o'r adolygiad.

Mae'r adolygiad hwn yn un amserol ac mae'n ymateb i weledigaeth uchelgeisiol, sydd i'w chroesawu, ar gyfer Cymru sy'n fwy cyfartal, lle gall menywod gyrraedd eu llawn botensial a byw eu bywydau yn ddiogel. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi cael ei wneud, erys anghydraddoldeb rhywiol yn nodwedd ystyfnig mewn bywyd yng Nghymru, y DU a ledled y byd o hyd.

Yng Nghymru, mae menywod yn dal i ennill llai na dynion ar gyfartaledd, gyda bwlch cyflog rhwng y rhywiau o tua 15%.[2] Mewn rhai rhannau o Gymru, megis Blaenau Gwent a Phen-y-bont ar Ogwr mae hyn yn cynyddu i gymaint â 25%.[3] Y bwlch cyflog rhwng menywod anabl a menywod nad ydynt yn anabl yw 22%.[4] Mae menywod yn dal i fod yn fwyafrif mawr mewn swyddi rhan amser â chyflog isel, sef 80% o'r holl swyddi rhan amser yng Nghymru.[5]

Mae cyfran anghymesur o fenywod yn byw mewn tlodi. Rhwng 2010-2015 gwnaed toriadau i'r wladwriaeth les gwerth £26bn, yr ysgwyddwyd £22bn ohonynt gan fenywod.[6]

---

[1] Parken, A. (2018) 'Putting equality at the heart of decision-making in Wales', Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru: Caerdydd
[2] Canlyniadau Dros Dro Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion SYG 2017
[3] Ibid
[4] Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru *Maniffesto ar gyfer Menywod a Merched* 2018
[5] Parken et al *Working Patterns in Wales: Gender, Occupations and Pay* 2014
[6] Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru *Maniffesto ar gyfer Menywod a Merched* 2018

Bydd un o bob tair menyw yng Nghymru yn profi trais corfforol neu rywiol ar ryw adeg yn eu bywydau.[7] Erys aflonyddu rhywiol yn beth cyffredin mewn gweithleoedd a mannau cyhoeddus gydag 85% o fenywod 18-24 oed yn dweud eu bod wedi profi sylw rhywiol digroeso mewn mannau cyhoeddus.[8]

Er gwaethaf y cynnydd mae lleisiau menywod yn dal i fod heb gynrychiolaeth ddigonol ym maes gwleidyddiaeth ac mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Dim ond 28% o Gynghorwyr ac ASau yng Nghymru sy’n fenywod. Er bod perfformiad y Cynulliad Cenedlaethol ychydig yn well, gyda menywod yn cyfrif am 43% o ACau, mae hyn wedi gostwng o’r cydbwysedd rhwng y rhywiau pan grëwyd y Cynulliad, ac mae’n dibynnu ar gamau gweithredu cadarnhaol gan rai pleidiau gwleidyddol. Yn y sector preifat, mae’r darlun yn waeth, gyda menywod yn cyfrif am ddim ond 6% o brif weithredwyr 100 busnes mwyaf Cymru.[9]

Mae’r adolygiad hwn yn cael ei gynnal yng nghyd-destun diddordeb a gweithredu cynyddol ledled y byd i fynd i’r afael ag anghydraddoldeb rhywiol a grymuso menywod. Fel rhan o fudiad #FiHefyd mae menywod, a llawer o ddynion, wedi gwneud safiad ac wedi galw am ddod â diwylliannau yn y gweithle lle y disgwylir i fenywod ddioddef aflonyddu a thrais i ben. Mae cwmnïau mwyaf Prydain wedi cyhoeddi eu ffigurau ar gyfer y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, gan daflu goleuni ar yr anghydraddoldeb economaidd y mae menywod yn y DU yn parhau i’w wynebu.[10]

Mae hefyd yn cyd-daro â bron 20 mlynedd ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ers datganoli bu llawer o sôn am y gwahaniaethau o ran polisi rhwng gwledydd y DU, a phan sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999 roedd yn falch o gynrychioli ymgais nid yn unig i ddod â gwleidyddiaeth yn agosach at bobl Cymru ond hefyd sefydlu egwyddorion llywodraethu newydd. Yn sicr, cafodd themâu cydweithredu yn hytrach na chystadlu, tryloywder, ymgysylltu a chyfranogi, a ‘chanlyniad cyfartal’ eu croesawu’n gyffredinol. Yn ystod Cam Un o’r adolygiad hwn, rydym yn dechrau ystyried p’un a yw’r egwyddorion cydraddoldeb hynny, y dadleuodd llawer eu bod wedi’u hymgorffori yn ein strwythurau llywodraethu newydd yn llwyddo i leihau anghydraddoldebau ai peidio.

Sut bynnag, mae’r amser wedi dod am weithredu radical yng Nghymru sydd, nid yn unig yn newid yr hyn rydym yn ei wneud, ond y ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau. Mae’r adroddiad hwn yn gosod y sylfeini ar gyfer ymchwilio ymhellach i’r ffordd y gellir cyflawni newid systematig fel y caiff pob menyw yng Nghymru ei thrin yn gyfartal, byw heb ofn trais a chymryd rhan lawn yn yr economi.

---

[7] http://fra.europa.eu/en/publication/2014/violence-againstwomen-eu-wide-survey-main-results-report
[8] Adroddiad Cyflwr y Sector 2017 Cymorth i Ferched Cymru, http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2018/02/WWA-State-of-the-Sector-2017-Welsh.pdf
[9] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol *Pwy sy’n rhedeg Cymru? 2017*
[10] O dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017 mae’n rhaid i bob cwmni yn y DU sy’n cyflogi 250 o bobl neu fwy gyhoeddi data ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau https://www.gov.uk/guidance/gender-pay-gap-reporting-guidance

## 1.1. Methodoleg

Yn unol â'r Cylch Gorchwyl, mae Cam Un wedi canolbwyntio'n bennaf ar y ffordd y mae polisi a phenderfyniadau yn cael eu gwneud yn Llywodraeth Cymru. Casglwyd tystiolaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd er mwyn canfod beth sy'n gweithio'n dda, beth y gellid ei wella, ystyried meysydd gan gynnwys pennu'r gyllideb, Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a mapio'r fframwaith polisi a deddfwriaethol sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

Cynhaliwyd cryn dipyn o waith ymchwil pen desg, gan gynnwys dadansoddiad o ddeddfwriaeth a pholisïau strategol Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd nifer o drafodaethau o amgylch bwrdd a chyfweliadau strategol â swyddogion Llywodraeth Cymru ar wahanol lefelau ac o amrywiol adrannau o bob rhan o'r llywodraeth, gan gynnwys trafodaeth o amgylch y bwrdd gydag Arweinyddion Cydraddoldeb. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad i randdeiliaid hefyd – un yn y gogledd ac un yn y de – er mwyn dysgu o brofiadau rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda menywod ac ym maes cydraddoldeb yng Nghymru.

Mae mewnbwn gan randdeiliaid wedi bod yn amhrisiadwy ac mae'n sicrhau y daw'r dystiolaeth o Gam Un o amrywiaeth ehangach o brofiadau. Yn ogystal â nodi heriau, amlinellodd rhanddeiliaid amrywiaeth o gamau gweithredu ymarferol a fyddai'n helpu i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol. Fodd bynnag, yn ystod Cam Dau bydd angen llawer mwy o ymgysylltu ystyrlon â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau y bydd canlyniadau'r adolygiad yn cael effaith barhaol, wirioneddol ar fywydau menywod yng Nghymru.

Mae Cam Un yn canolbwyntio'n bennaf ar brosesau polisi yng Nghymru. Mae hwn yn fan cychwyn angenrheidiol er mwyn ei gwneud yn bosibl i gael dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n gweithio ar hyn o bryd. Mae'r adroddiad hwn wedi'i ategu gan adolygiad o bolisïau rhyngwladol sy'n amlinellu llwybrau posibl tuag at syniadau newydd a ffyrdd o weithio sy'n seiliedig ar y ffordd y mae gwledydd eraill wedi ymgorffori cydraddoldeb rhywiol yn y broses o lunio polisïau.

Er mwyn sicrhau bod Cymru yn un o'r gwledydd sy'n arwain y byd ym maes cydraddoldeb rhywiol, bydd angen inni wneud mwy nag ailddyrannu cyllid neu wneud mân newidiadau i'n polisi gofal plant. Mae angen newid systematig a fydd yn goroesi mudiad #FiHefyd, ac mae'n rhaid i'r newidiadau hyn, nid yn unig gwmpasu'r hyn a wnawn, ond hefyd y ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau.

Mae'r dadansoddiad hwn o broses polisi wedi'i ategu gan adolygiad o'r ffordd y mae'r llywodraethau hynny sy'n gwneud orau o ran hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol wedi prif ffrydio rhywedd yn eu strwythurau, eu systemau a'u prosesau. Bydd Cam Dau yn ystyried y broses o roi polisi cyhoeddus ar waith a'r camau gweithredu ymarferol sy'n adeiladu ar yr hyn a glywsom gan randdeiliaid hyd yma.

## 1.2. Cydgyfeiriadedd

Mae'n rhaid i Gymru fod yn un o'r gwledydd sy'n arwain y byd ym maes cydraddoldeb i **bob** menyw a merch. Er mwyn gwneud hynny, mae'n rhaid cymhwyso safbwynt cydgyfeirio, sy'n ystyried y ffurfiau lluosog ar wahaniaethu y gall menywod eu hwynebu.

Drwy gydol Cam Un rydym wedi bod yn ymwybodol o'r ffaith hon. Gall menywod wynebu sawl rhwystr sy'n eu hatal rhag chwarae rhan lawn mewn cymdeithas yng Nghymru a gall y farchnad lafur a'r profiadau a'r heriau a wynebir gan rai menywod gael eu hanwybyddu gan y rhai sy'n llunio polisïau. Mae hyn yn cynnwys menywod o gefndir BAME neu LGBT, menywod anabl a menywod sy'n ffoaduriaid neu'n fudwyr a menywod sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae'r gydnabyddiaeth hon o gydgyfeiriadedd yn llywio'r adroddiad hwn a bydd yn llywio ffurf Cam Dau er mwyn sicrhau y caiff profiadau'r amrywiaeth o fenywod yng Nghymru eu hadlewyrchu ac na chaiff cydraddoldeb rhywiol ei ystyried ar wahân i ddimensiynau cymdeithasol eraill anghydraddoldeb y mae'n ynghlwm â hwy. Felly, rydym wedi ystyried sut mae polisïau yn ymgorffori pob maes cydraddoldeb, nid dim ond cydraddoldeb rhywiol. Er bod hyn yn gymhleth, mae'n angenrheidiol yn y pen draw.

## 1.3. Diffiniadau

Yn y dadansoddiad canlynol, mae rhywedd yn cyfeirio at un echel o haenau cymdeithasol ac economaidd yn hytrach nag at fioleg. Cynhelir prosesau cymdeithasol rhyweddu drwy system ddeuaidd wrthwynebol, lle mae rolau, priodoleddau, sgiliau ac ymddygiadau y rhoddir gwerth gwahanol arnynt yn cael eu priodoli i ddynion a menywod.

Mae cydraddoldeb rhywiol yn cyfeirio at gydraddoldeb i fenywod a dynion, gan gydnabod bod prosesau cymdeithasol rhyweddu yn cael effeithiau negyddol ar fenywod a dynion. Gall cydraddoldeb olygu cyfle cyfartal neu ganlyniad cyfartal yn ôl gwahanol gyd-destunau.

Mae trafodaethau am rywedd yma ac mewn mannau eraill yn aml yn canolbwyntio ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau y mae menywod yn parhau i'w hwynebu, gan gydnabod bod menywod yn parhau i fod o dan anfantais mewn llawer o feysydd, gan gynnwys mynediad at y farchnad lafur, cynrychiolaeth a phrofiad o drais. Fodd bynnag, wrth i Gam Dau o'r adolygiad ystyried materion a chamau gweithredu mwy ymarferol i hyrwyddo cydraddoldeb, rydym yn rhagweld rhagor o drafodaeth am yr anghydraddoldeb y mae dynion yn ei wynebu ac y mae'n rhaid ei ystyried wrth i bolisïau a gwasanaethau gael eu datblygu.

### 1.4. Trosolwg o'r Adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd ein canfyddiadau, gan ymgorffori adolygiad o bolisïau ac arferion Llywodraeth Cymru ac adolygiad o bolisïau rhyngwladol gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y ganolfan yn ategu'r adroddiad hwn, ac mae wedi rhoi tystiolaeth amhrisiadwy o ymarfer rhyngwladol a all lywio Cam Dau o'r adolygiad a chamau gweithredu yn y dyfodol er mwyn sicrhau newid cynaliadwy. Cyfeirir at yr adolygiad rhyngwladol drwy'r adroddiad cyfan hwn, a dylid ei ddarllen ar y cyd ag ef.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau allweddol ac yn gwneud argymhellion ar gyfer Cam Dau o'r adolygiad o gydraddoldeb rhywiol yn seiliedig ar yr adolygiad o ymarfer Lywodraeth Cymru ac ymarfer rhyngwladol.

Ym Mhennod Dau, rydym yn rhoi crynodeb o'r themâu a'r canfyddiadau allweddol, yn seiliedig ar y dadansoddiad o ddeddfwriaeth, polisïau ac ymarfer, astudiaethau achos ac enghreifftiau a gyflwynwyd yn y penodau dilynol ac adolygiad rhyngwladol o ymarfer addawol.

Mae Pennod Tri yn ystyried gweledigaeth ac arweinyddiaeth, gan nodi'r fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol presennol sydd ar waith yng Nghymru i ymgorffori cydraddoldeb rhywiol mewn prosesau gwneud penderfyniadau ac yn trafod pwysigrwydd arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru.

Ym Mhennod Pedwar, rydym yn ystyried sut mae'r fframwaith hwn yn gweithio'n ymarferol, gan dynnu sylw at heriau o ran integreiddio a gweithredu sy'n cyfyngu ar ei effaith.

Mae Pennod Pump yn cynnwys trafodaeth fer am bwysigrwydd mesurau craffu ac atebolrwydd y mae angen iddynt fod yn sail i'r fframwaith deddfwriaethol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a gweithredu effeithiol.

Ym Mhennod Chwech, rydym yn rhoi crynodeb o'r casgliadau a'r argymhellion, gan ddefnyddio'r adolygiad o bolisïau ac ymarfer Llywodraeth Cymru a'r adolygiad rhyngwladol o ymarfer addawol a gynhaliwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

## 2. Crynodeb o'r themâu a'r canfyddiadau allweddol

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r themâu a'r canfyddiadau allweddol sy'n deillio o Gam Un, gan grynhoi'r dadansoddiad o ddeddfwriaeth, polisïau ac ymarfer, astudiaethau achos ac enghreifftiau a gyflwynwyd yn y penodau dilynol. Mae'r canfyddiadau hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod Cam Un a oedd yn cynnwys gwaith ymchwil pen desg a dadansoddiad o bolisïau Llywodraeth Cymru, trafodaethau o amgylch bwrdd a chyfweliadau strategol â swyddogion Llywodraeth Cymru ac ymgynghori â rhanddeiliaid sy'n gweithio ym maes rhywedd a chydraddoldeb.

Mae llawer o'r canfyddiadau hyn yn ymwneud â'r prosesau a ddefnyddir i lunio polisïau. Er mwyn sicrhau bod Cymru yn un o'r gwledydd sy'n arwain ym maes cydraddoldeb rhywiol, mae adolygiad o'r prosesau hyn yn hollbwysig, oherwydd mae angen inni nid yn unig newid yr hyn a wnawn, ond, yn sylfaenol, y ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau.

Ym Mhennod Chwech, rydym yn gwneud nifer o argymhellion i fynd i'r afael â'r heriau a amlinellwyd isod.

### 2.1. Thema Un: Gweledigaeth ac Arweinyddiaeth

#### 2.1.1. Nid oes gan Gymru weledigaeth a rennir ar gyfer cydraddoldeb rhywiol

Mewn rhai ffyrdd mae Llywodraethau olynol Cymru wedi dangos gweledigaeth ar gyfer Cymru lle mae rhywedd wrth wraidd prosesau llunio polisïau. Fodd bynnag, mae ein trafodaethau'n awgrymu bod y fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol presennol yn methu â chyfleu gweledigaeth a rennir ar gyfer cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru sy'n cael ei deall yn dda gan Weinidogion Cymru, swyddogion Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid a'r cyhoedd. O ganlyniad, gall camau gweithredu fod yn ddarniog ac yn anghydlynol.

Mae risg o achosi dryswch hefyd. Gall terminoleg ym maes cydraddoldeb rhywiol fod yn gymhleth, neu'n academaidd ei naws, a gall ofn "ei chael yn anghywir" arwain at duedd i anelu at lunio polisïau a gwaith dadansoddi sy'n niwtral o ran y rhywiau ond a all, yn aml, fod yn ddall o ran rhywedd mewn gwirionedd.[11] Mae angen mwy o eglurder ynglŷn ag iaith cydraddoldeb a chydraddoldeb rhywiol, fel y gall y rhai sy'n ymwneud â llunio polisïau fod yn fwy hyderus i brif ffrydio cydraddoldeb rhywiol a

[11] Mae dull niwtral o ran y rhywiau yn trin dynion a menywod yr un fath, nad yw'n arwain at ganlyniad cyfartal i ddynion a menywod. Disgrifir y dull gweithredu hwn fel 'yn ddall o ran rhywedd' yn aml, sef, yn ôl diffiniad y CU, yr anallu i ganfod bod gan ddynion, menywod, bechgyn a merched rolau rhywedd, anghenion, cyfrifoldebau gwahanol ac o ganlyniad gall methiant i sylweddoli y gall polisïau, rhaglenni a phrosiectau gael effaith wahanol ar ddynion, menywod, bechgyn a merched" http://www.un.org/esa/sustdev/csd/csd15/lc/gender_terms.pdfCyrchwyd 13.06.18

chymryd camau gweithredol penodol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau strwythurol sylfaenol.

Er mwyn sicrhau'r newid sydd ei angen i fod yn un o'r gwledydd sy'n arwain y byd ym maes cydraddoldeb rhywiol bydd angen newid radical yn yr hyn a wnawn a sut y byddwn yn ei wneud. Wrth fynegi gweledigaeth ar gyfer cydraddoldeb rhywiol a Chymru sy'n fwy cyfartal, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn ddewr. Un cam pwysig y gellid ei gymryd ar unwaith, yn unol â'r hyn sy'n digwydd yn Sweden, fyddai canolbwyntio ar 'ganlyniad cyfartal' yn hytrach na 'chyfle cyfartal'.[12]

### 2.1.2. Mae fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol yn bodoli eisoes, sy'n cynnig potensial mawr i ymgorffori cydraddoldeb rhywiol yng nghanol y gwaith o lunio polisïau

Mae nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth a rheoliadau sy'n rhoi fframwaith ar gyfer cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru. Mae hyn cynnwys:

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru
- Y ddyletswydd i roi sylw dyledus i gyfle cyfartal i bawb (Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Llywodraeth 2006) a elwir yn "y ddyletswydd i brif ffrydio".
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

Mae nifer o elfennau'r fframwaith hwn, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yn cael eu hystyried yn rhai sy'n arwain y byd.

Dylai'r fframwaith hwn sicrhau y caiff y broses o ystyried rhywedd a chydraddoldeb, yn fwy cyffredinol, ei hymgorffori yng nghanol prosesau llunio polisïau a gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, cyfyngedig yw effaith y fframwaith hwn hyd yma, oherwydd heriau o ran integreiddio a gweithredu.

Mae'r gwaith yng Nghymru hefyd yn cael ei ategu gan fframwaith rhyngwladol o gonfensiynau a chyfarwyddebau ar lefel y CU a'r UE. Mae elfennau o'r fframwaith hwn o dan fygythiad oherwydd Brexit. Er y bydd cydraddoldeb yn faes cyfraith a gedwir yn ôl o hyd, bydd angen ystyried sut y gellir diogelu hawliau cydraddoldeb presennol menywod a'u hawliau yn y dyfodol, yn enwedig os bydd blaenoriaethau ac ymagwedd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn mynd yn fwyfwy gwahanol.

[12] Parken, A. (2018) 'Putting equality at the heart of decision-making in Wales', Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru: Caerdydd

### 2.1.3. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru arwain drwy esiampl

Mae gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig i'w chwarae o ran arwain drwy esiampl, fel cyflogwr a lluniwr polisïau, er mwyn gwneud ymdrech barhaus sy'n arwain at newid parhaol. Fel corff cyhoeddus, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gydymffurfio â llawer o'r dyletswyddau a osodwyd gan y fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Yn seiliedig ar ein sgyrsiau a'n dadansoddiad o bolisïau, ymddengys nad yw Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r dyletswyddau hyn yn gyson. Mae'n bwysig mynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn esiampl i gyrff cyhoeddus eraill.

Gall Llywodraeth Cymru hefyd arwain y ffordd fel cyflogwr. Dros y blynyddoedd mae llawer o gamau wedi cael eu cymryd er mwyn sicrhau gweithlu cyfartal a chynhwysol yn Llywodraeth Cymru, gyda systemau cadarn ar waith i ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chynlluniau i wella cyfran y menywod mewn swyddi lefel uwch.

Fodd bynnag, gellid gwneud rhagor o waith, a dylai Llywodraeth Cymru fel cyflogwr fabwysiadu ymagwedd fwy strategol tuag at hyrwyddo cydraddoldeb yn ei gweithlu yn hytrach nag un ad hoc. Mae nifer y bobl sy'n cymryd Absenoldeb Rhiant a Rennir yn parhau'n isel yn Llywodraeth Cymru, fel y mae ledled y DU. Gellid cymryd camau rhagweithiol i fynd i'r afael â hyn, megis cyflwyno Absenoldeb Rhiant a Rennir ar y gyfradd mamolaeth uwch i dadau sy'n cymryd amser i ffwrdd.[13] Gellid gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn ymgorffori diwylliant gweithle diogel lle y caiff ymddygiad amhriodol a bwlio eu dileu a lle mae systemau ar gyfer rhoi gwybod yn ddienw ac yn gadarn.

Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yw'r brif ystyriaeth i lawer wrth edrych ar anghydraddoldeb rhywiol. Er bod Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ers nifer o flynyddoedd, mae prinder menywod mewn swyddi lefel uwch a pholisi cyflog presennol yr uwch wasanaeth sifil yn creu rhwystrau heriol y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer gweithredu. Dylid gwneud rhagor i nodi modelau rôl hygyrch, gan sicrhau bod dyrchafiad i'r rolau lefel uchaf yn Llywodraeth Cymru yn gyfle i bawb sydd â'r doniau priodol.

Mae menywod yn cyfrif am gyfran fawr o weithlu Llywodraeth Cymru, ond mae menywod o gefndir amrywiol yn parhau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae angen cymryd camau rhagweithiol er mwyn sicrhau y gall Llywodraeth Cymru recriwtio, cadw a dyrchafu menywod o gefndir amrywiol.

[13] Argymhellir hyn yn yr adolygiad rhyngwladol - Parken, A. (2018) 'Putting equality at the heart of decision-making in Wales', Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru: Caerdydd

## 2.2. Thema Dau: Polisi ar Waith

### 2.2.1. Mae diffyg integreiddio o fewn y fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol

Mae Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn gosod nifer o ddyletswyddau ac egwyddorion sy'n ategu ei gilydd ar gyfer llunio polisïau a gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae ein gwaith ymchwil a'n trafodaethau gyda rhanddeiliaid yn awgrymu nad yw'r elfennau hyn yn integreiddio â'i gilydd yn ddigon da, gan gyfrannu at ymateb gwannach i hyrwyddo cydraddoldeb.

Mae pryderon gan lawer o'r rhai y gwnaethom siarad â nhw y bydd y dyletswyddau presennol yn cael eu disodli gan rai newydd o bosibl fel sydd wedi digwydd yn rhannol gyda'r Ddyletswydd i Brif Ffrydio yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

### 2.2.2. Mae diffyg cyswllt rhwng polisïau a phrosesau cyllidebol Llywodraeth Cymru

Ers dechrau tymor Cynulliad 2016 bu ymdrechion o'r newydd i ddileu'r seilos o fewn Llywodraeth Cymru a chefnogi prosesau gweithio trawslywodraethol gwirioneddol. Cyflëir hyn yn strwythur mwy thematig *Ffyniant i Bawb: Strategaeth Genedlaethol.*

Mae ein trafodaethau'n awgrymu bod cynnydd yn cael ei wneud yn hyn o beth ym maes datblygu polisïau, ond mae'r broses a'r strwythur cyllidebol presennol yn parhau i fod yn rhwystr i weithio trawslywodraethol effeithiol ar bob mater, gan gynnwys cydraddoldeb rhywiol. Nid yw'r broses gyllidebol wedi'i chysoni â'r broses llunio polisi ac mae cyllidebau'n canolbwyntio ar bwysau ariannol yn hytrach nag effaith.

### 2.2.3. Gall y ffordd y gweithredir amrywiol ddyletswyddau o dan y fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol presennol fod yn anghyson

Yn seiliedig ar ein cyfweliadau a'n trafodaethau, mae'n amlwg bod arfer da yma a thraw yn Llywodraeth Cymru lle mae egwyddorion a dyletswyddau gwahanol reoliadau yn cael eu cymhwyso'n effeithiol a lle mae'r ystyriaeth o gydraddoldeb rhywiol wedi cael ei phrif ffrydio drwy'r polisi cyfan ac sydd wedi'i hategu gan gamau gweithredu diriaethol. Mae *Cynllun Cyflawni STEM* yn enghraifft o'r fath.[14]

Awgrymodd ein rhanddeiliaid fod arfer da i'w gael y tu allan i Lywodraeth Cymru, lle mae amcanion cydraddoldebau mewn gwahanol gyrff cyhoeddus yn cael eu cysoni er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl ar anghydraddoldebau strwythurol.

[14] Gweler 4.2. i weld dadansoddiad manwl

Fodd bynnag, cafwyd consensws ymhlith y rhai yr ymgysylltwyd â nhw nad yw'r dyletswyddau hyn yn cael eu gweithredu'n gyson. Mewn rhai achosion, gwelwn ymateb blwch ticio yn seiliedig ar gydymffurfiaeth i'r dyletswyddau yn hytrach nag un sy'n canolbwyntio ar newid diwylliant a phrif ffrydio rhywedd a chydraddoldebau mewn prosesau llunio polisïau a gwneud penderfyniadau yn wirioneddol. Mae ein dadansoddiad o bolisïau presennol yn rhoi rhagor o dystiolaeth o hyn, y trafodir agweddau arno ym Mhennod 4.

### 2.2.4. Nid yw Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cynnal mewn ffordd ystyrlon wrth ddechrau datblygu polisi

Mae'r asesiadau yn un o ofynion Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru ac yn adnodd allweddol i hyrwyddo cydraddoldeb. Dylent gael eu cymhwyso ar bob cam o gylch oes polisi, gan annog ac arwain llunwyr polisi i gasglu tystiolaeth a llywio cyngor polisi. O gael eu defnyddio'n briodol mae'r asesiadau'n rhoi cyfle i archwilio anghydraddoldebau, gan ystyried ymchwil, tystiolaeth, data, ymgysylltu a lleisiau, er mwyn canfod effaith a thynnu sylw at ganlyniadau anfwriadol unrhyw benderfyniad neu bolisi.[15]

Fodd bynnag, roedd y rhai y gwnaethom siarad â nhw yn cytuno ar y cyfan bod yr asesiadau wedi mynd yn ymarfer ticio blychau ac yn symbolaidd a chânt eu hystyried yn ymarfer beichus. O ganlyniad, cyfyngedig yw ymwneud ystyrlon â'r broses ac yn aml caiff asesiad ei gwblhau ar ddiwedd y broses er mwyn dangos cydymffurfiaeth.

Yn seiliedig ar ein dadansoddiad o ddetholiad o asesiadau, maent yn aml yn methu â chynnwys dadansoddiad beirniadol o rywedd, gan ddewis barn niwtral o ran y rhywiau na fydd gwasanaeth, os yw'n "hygyrch i bawb" yn cael unrhyw effaith gadarnhaol na negyddol ar neb o ganlyniad i rywedd. Mae'r dull gweithredu hwn yn amlwg yn methu ag ystyried yr anghydraddoldeb parhaus sy'n llywio'r ffordd y mae menywod a dynion yn ymgysylltu â rhannau gwahanol o'r economi a gwasanaethau cyhoeddus ac nid yw'n bodloni gofynion y ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo cydraddoldeb.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu a chyflwyno adnodd asesu effaith integredig yn Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn dwyn ynghyd 21 o wahanol asesiadau o'r effaith a'r gobaith yw y bydd yn annog swyddogion i ymgysylltu â'r broses asesu effaith ar gam cynharach o ddatblygu polisi. Bydd angen gwneud gwaith yn ystod Cam Dau i adolygu'r adnodd hwn o safbwynt rhywedd a sicrhau nad yw gwell integreiddio yn arwain at ddiffyg manylu, fel sydd wedi digwydd yn achosi'r asesiadau effaith integredig strategol a gyhoeddir ochr yn ochr â chyllidebau drafft Llywodraeth Cymru ers 2015.

---

[15] Parken, A. (2018) 'Putting equality at the heart of decision-making in Wales', Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru: Caerdydd

### 2.2.5. Araf fu'r broses o roi'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith

Bu oedi wrth gyflwyno'r Ddeddf, gyda phroses weithredu araf ond mae ymrwymiad clir gan Arweinydd y Tŷ i gyflymu'r broses a sicrhau bod amserlen ar waith.

Pwysleisiodd ein rhanddeiliaid bwysigrwydd rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith yn effeithiol. Wrth drafod mater trais yn erbyn menywod, soniodd rhanddeiliaid am "ddiwylliant o anghrediniaeth" lle nad yw'r awdurdodau yn credu rhywun sy'n rhoi gwybod am aflonyddu neu ymosodiad rhywiol fel mater o drefn; agwedd nad yw'n cael ei gweld pan roddir gwybod am droseddau eraill, megis dwyn. Mae'r Ddeddf yn ceisio cyflwyno'r newid diwylliannol sydd ei angen er mwyn sicrhau nad felly y mae, ond dim ond os caiff ei rhoi ar waith mewn ffordd effeithiol ac effeithlon y gall wneud hynny.

Mae'r Ddeddf yn ddeddfwriaeth bwysig yng Nghymru i fynd i'r afael yn benodol â'r her sy'n gysylltiedig â sicrhau cydraddoldeb rhywiol. Mae rhoi'r Ddeddf ar waith yn allweddol i hyrwyddo nodau'r adolygiad a gwneud Cymru yn lle cyfartal a diogel i fenywod a merched. Yn ystod Cam Dau, dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ei hymdrechion ar gyflymu'r broses o roi'r Ddeddf ar waith a chyhoeddi dangosyddion cenedlaethol i fonitro cynnydd.

### 2.2.6. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dechrau ysgogi newid ond mae pryderon y gall fwrw'r dyletswyddau cydraddoldebau sy'n bodoli eisoes i'r cysgod

Mae egwyddorion y Ddeddf, yn enwedig y Pum Ffordd o Weithio, yn dechrau ysgogi newid yn y broses o ddatblygu polisïau. Mae'r Ddeddf yn cynnig fframwaith diriaethol a chlir ar gyfer datblygu polisïau a chaiff polisïau a chyngor polisi eu hasesu'n gynyddol yn erbyn egwyddorion a nodau'r Ddeddf.

Mae'r Ddeddf hefyd yn cefnogi ymdrechion i weithio mewn ffordd fwy trawslywodraethol a chyfannol, gan adeiladu ar strwythur thematig y rhaglen lywodraethu.

Fodd bynnag, mae pryderon gan amrywiaeth o randdeiliaid na roddir ddigon o ffocws ar hyn o bryd ar gydraddoldebau o fewn agenda llesiant ac mae'n bosibl y bydd ffocws ar elfennau amgylcheddol yn eu bwrw i'r cysgod. Mae adnoddau'n cael eu neilltuo'n fwyfwy tuag at gydymffurfiaeth â'r Ddeddf a'i dyletswyddau cysylltiedig, ond mae adnoddau ar gyfer cyflawni'r cydraddoldebau sy'n bodoli eisoes yn cael eu cwtogi mewn rhai cyrff cyhoeddus, yn aml mewn ymateb i'r gostyngiadau cyllidebol. Mae'n bwysig nad yw'r dyletswyddau presennol yn cael eu disodli pan ddaw dyletswyddau newydd yn weithredol, ond yn hytrach, y caiff camau eu cymryd i'w hintegreiddio a'u cysoni. Mae hyn yn symptomatig o ddiwylliant llunio polisïau pan gaiff hen ddeddfwriaeth ei disodli (yn ymddygiadol) gan ddeddfwriaeth newydd yn rhy aml, yn hytrach nag integreiddio o fewn fframwaith sy'n bodoli eisoes lle y bo hynny'n bosibl ac yn fanteisiol at ddiben y cyfreithiau newydd.

### 2.2.7. Mae angen camau gweithredu dewr, uchelgeisiol a diriaethol i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru

Mae llawer o'r rhai y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo bod diffyg uchelgais yn y camau gweithredu a'r amcanion mewn cynlluniau cydraddoldeb, cynlluniau llesiant a pholisïau cenedlaethol yn fwy cyffredinol ac, yn seiliedig ar ddadansoddiad o bolisïau presennol Llywodraeth Cymru, mae tuedd gynyddol i wneud datganiadau uchelgeisiol, eang gyda chamau gweithredu, terfynau amser a mesurau o lwyddiant cyfyngedig er mwyn amlinellu sut y caiff yr uchelgeisiau hyn eu gwireddu.

Mae'n rhaid i gamau gweithredu gael eu hategu gan ddata a gwaith dadansoddi data cadarn. Yn rhyngwladol, o blith y gwledydd hynny sy'n perfformio'n dda o ran cydraddoldeb rhywiol, mae bron bob un ohonynt yn cyhoeddi data a thystiolaeth reolaidd, hygyrch a diddorol sy'n mapio cydraddoldeb rhywiol.

Heb gamau gweithredu na dangosyddion CAMPUS i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol mewn polisïau yng Nghymru, bydd yn amhosibl olrhain cynnydd yn effeithiol, a chyfyngedig fydd y gweithgarwch craffu.

### 2.2.8. Mae nifer o adnoddau ar waith a all gefnogi ystyriaeth effeithiol o gydraddoldeb rhywiol wrth lunio polisïau

Mae gwledydd sy'n perfformio'n dda yn erbyn mynegeion rhyngwladol ar gyfer cydraddoldeb rhywiol yn aml wedi rhoi amrywiaeth o strwythurau, adnoddau a phecynnau cymorth ar waith. Mae rhai o'r rhain eisoes yn bodoli yng Nghymru.

Mae cyfres o hyfforddiant ar gael i swyddogion yn Llywodraeth Cymru er mwyn deall sut y dylid defnyddio asesiadau o'r effaith ac ymgynghoriadau fel rhan o'r broses o ddatblygu polisïau a rhoddir hyfforddiant gorfodol ar duedd anymwybodol i bob aelod o staff. Fodd bynnag, ymddengys nad yw pob cwrs yn orfodol ac o ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â'r dulliau presennol o gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb awgrymwyd nad yw'r hyfforddiant hwn mor effeithiol ag y dylai fod.

### 2.2.9. Mae'r gallu ym maes cydraddoldebau yn Llywodraeth Cymru yn ddarniog

Y tu allan i'r Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant mae'n anodd amcangyfrif arbenigedd a gallu staff yn Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar gydraddoldeb rhywiol. Mae hyn ynddo'i hun yn achosi problemau. Yn seiliedig ar ein trafodaethau, ymddengys nad yw rhywedd, na chydraddoldeb, yn cael eu hystyried yn rhan greiddiol o rôl rhywun neu ar y gorau maent yn cael eu hystyried yn elfen fach o rôl lawer ehangach. Mae rhai camau wedi cael eu cymryd i ddefnyddio adnoddau rheoli perfformiad er mwyn ymgorffori cydraddoldeb, gydag amcan ar gydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'i bennu ar gyfer pob uwch was sifil.

Mae anghysondeb rhwng gwahanol adrannau o ran sut yr ymdrinnir â chydraddoldebau a pha arbenigedd a gallu sydd gan adrannau i gefnogi'r broses o ddatblygu polisïau. Mae Arweinwyr a Hyrwyddwyr Cydraddoldeb yn rhan bwysig o seilwaith mewnol cydraddoldeb yn Llywodraeth Cymru, ond ymddengys bod amryfusedd ynglŷn ag union ddiben y rolau hyn, yn enwedig p'un a ddylent ganolbwyntio ar faterion mewnol sy'n ymwneud â'r gweithlu, cyngor polisi neu'r ddau.

Nododd rhanddeiliaid broblemau hefyd o ran gallu o fewn cyrff cyhoeddus, lle mae rolau cydraddoldebau wedi cael eu cwtogi, yn aml mewn ymateb i gyllidebau is.

### 2.2.10. Mae gweithgarwch ymgysylltu yn anghyson ac yn aml nid yw'n digwydd ar yr adeg gywir yn y broses o lunio polisi

Mae ymgysylltu yn elfen bwysig o'r broses o lunio polisi ac mae'n ofyniad cyfreithiol o dan Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylai gweithgarwch ymgysylltu da lywio'r broses o lunio polisïau a dylai ddigwydd ar ddechrau'r broses. Ceir rhai enghreifftiau o arfer da yn hyn o beth, yn fwyaf diweddar y gwaith ymgysylltu gan y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De, sydd wedi llywio *Cynllun Cyflawni Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* i raddau helaeth.

Fodd bynnag, mae trafodaethau'n awgrymu bod adrannau yn mynd ati i ymgysylltu mewn ffyrdd gwahanol a cheir tystiolaeth sy'n awgrymu nad yw dulliau ffurfiol o ymgysylltu ag arbenigwyr a rhanddeiliaid, megis Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb, yn cael eu defnyddio'n effeithiol.[16]

Mae ymgysylltu effeithiol yn arbennig o bwysig o safbwynt cydgyfeirio er mwyn sicrhau bod polisïau yn ymateb i anghenion menywod a all wynebu sawl rhwystr sy'n eu hatal rhag chwarae rhan lawn mewn cymdeithas yng Nghymru ac yn y farchnad lafur ac y mae eu profiad a'u heriau wedi cael eu hanwybyddu gan lunwyr polisïau yn draddodiadol. Mae hyn yn cynnwys menywod Duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) LGBT, menywod anabl a menywod sy'n ffoaduriaid neu'n fudwyr a menywod sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Teimlir bod meysydd cydraddoldeb fel nodweddion gwarchodedig yn methu â mynd i'r afael â chydgyfeiriadedd, ac y gallai ymgysylltu mwy effeithiol â menywod o gefndir amrywiol helpu i oresgyn hyn. Yn aml, mae diffyg data ar gyfer grwpiau gwarchodedig felly mae'n hanfodol clywed yn uniongyrchol oddi wrth ddinasyddion.

Mae'r adolygiad o ymarfer addawol rhyngwladol a baratowyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu ag arbenigwyr ac "arbenigwyr drwy brofiad" ar yr adeg gywir yn ystod y broses o lunio polisi ac ar lefel ddigon uchel er mwyn sicrhau bod eu mewnbwn yn cael effaith. Mae'r adolygiad

[16] Gweler 4.2.6 am ddadansoddiad manwl o ymgysylltu â Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb

rhyngwladol yn gwneud nifer o argymhellion ar gyfer sesiynau adolygu dysgu, a allai ddangos sut y gellir ymgysylltu ag arbenigwyr o'r fath mewn ffordd fwy effeithiol.

## 2.3. Thema Tri: Craffu Allanol ac Atebolrwydd

### 2.3.1. Mae craffu allanol i'w groesawu ac mae craffu effeithiol yn ysgogi newid ymddygiadol

Mae Cam Un yn awgrymu bod craffu allanol i'w groesawu a bod craffu effeithiol yn ysgogi newid ymddygiadol. Fodd bynnag, mae pryderon nad yw'r mesurau craffu ac atebolrwydd presennol yn gweithio'n effeithiol o bosibl, yn enwedig o ran Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru.

Ceir rhywfaint o dystiolaeth, o'n trafodaethau a digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid, sy'n awgrymu bod gweithgarwch craffu ar gydraddoldebau gan y Cynulliad wedi cynyddu. Priodolir hyn i nifer o ffactorau. Mae cynnwys cydraddoldebau ym mhortffolio Arweinydd y Tŷ yn ei gwneud yn bosibl i lunio safbwynt trawslywodraethol clir ac mae deiliad presennol swydd Arweinydd y Tŷ yn eiriolwr effeithiol ac angerddol dros gydraddoldeb. Teimlai'r rhai y gwnaethom siarad â nhw fod cydraddoldebau yn cael mwy o flaenoriaeth yn y portffolio nag yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hefyd wedi parhau i fod yn rhan o un o swyddi'r Cabinet.

Fodd bynnag, caiff gwaith craffu gan y Cynulliad ei lesteirio gan heriau o ran gallu ar hyn o bryd. Câi gwaith craffu ar gydraddoldebau ei gryfhau drwy Bwyllgor penodol ar gyfer Menywod a Chydraddoldebau yn y Cynulliad, felly mae lle i ymchwiliadau rhagweithiol ochr yn ochr â mwy o ymgysylltu â deddfwriaeth, polisïau a gwaith craffu ar berfformiad Gweinidogion. Rydym yn cydnabod y byddai hyn yn anodd oherwydd y cyfyngiadau presennol ar allu ac felly rydym yn argymell y dylai'r cynigion a wnaed gan y Panel Arbenigol ar Ddiwygio'r Cynulliad gael eu gweithredu i gynyddu gallu drwy ACau ychwanegol ac y dylid defnyddio hyn i gryfhau gwaith craffu ar gydraddoldebau drwy bwyllgor penodol.

Mae'r trydydd sector hefyd yn chwarae rôl graffu bwysig. Mae sector cadarn ar gyfer menywod a chydraddoldebau yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod hyn yn cynnwys ffocws ar gydraddoldebau.

### 2.3.2. Mae lle i gryfhau'r dulliau atebolrwydd presennol a'u hintegreiddio'n well ym mhob rhan o'r fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol

Mae'r fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol yn rhoi amrywiol ddyletswyddau ar waith ac ochr yn ochr â hyn mae'n rhoi nifer o ddulliau atebolrwydd a chynghori ar waith. Mae hyn ar ffurf y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Cynghorwr Cenedlaethol ar gyfer Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ochr yn ochr â chyrff eraill megis Swyddfa Archwilio Cymru.

Nododd rhanddeiliaid bryderon bod gwendidau penodol o ran monitro cydymffurfiaeth â Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru, heb fawr ddim risg o gosb pe na chydymffurfid â'r dyletswyddau, pe bai amcanion cydraddoldeb yn wan, neu pe bai asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cynnal yn aneffeithiol. Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid at y ffordd roedd Safonau'r Gymraeg wedi cael eu gweithredu'n llwyddiannus mewn cymhariaeth, y gellid dysgu ohoni.

Er nad oes modd ystyried y trefniadau cydymffurfio a monitro yn llawn yn ystod Cam Un, mae wedi dod i'r amlwg fel maes gweithredu allweddol ac felly dylai gael ei ystyried yn fanwl yn ystod Cam Dau.

Yn y penodau dilynol trafodir y themâu hyn yn fanylach, gyda chrynodeb o'r argymhellion ym Mhennod Chwech.

.

## 3. Gweledigaeth ac Arweinyddiaeth: Adeiladu Fframwaith Deddfwriaethol a Rheoliadol

Mae'r Bennod hon yn amlinellu'r fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol yng Nghymru, sydd â'r potensial i ymgorffori ystyriaeth o gydraddoldeb rhywiol mewn prosesau llunio polisïau a gwneud penderfyniadau yng Nghymru. Mae hwn yn cynnwys elfennau o gyfraith y DU a chyfraith ryngwladol, ond wrth ei wraidd y mae cyfres o gyfreithiau a dyletswyddau a roddwyd ar waith gan Lywodraethau olynol Cymru - y 'ddyletswydd i brif ffrydio' yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Mae llawer o'r cyfreithiau a'r dyletswyddau Cymreig hyn yn cael eu hystyried yn rhai sy'n arwain y byd ac mae Gweinidogion Cymru wedi dangos bod gweledigaeth i Gymru lle mae cydraddoldeb yn ystyriaeth ganolog o'r broses o lunio polisïau.

Fodd bynnag, lleihawyd effaith bosibl y fframwaith hwn gan heriau o ran gweithredu ac integreiddio, a ystyriwn yn fanwl ym Mhennod 4. Yn y bennod hon, rydym yn amlinellu'r fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol hwn a sut, mewn theori, y dylai ddod ynghyd i hyrwyddo nodau cyffredin.

Caiff effaith y fframwaith deddfwriaethol hwn ei lesteirio ymhellach gan ddiffyg gweledigaeth a rennir o sut beth fyddai Cymru sy'n fwy cyfartal. Mae'r dyletswyddau a roddwyd ar waith gan y fframwaith yn ffyrdd o wireddu gweledigaeth, nid y weledigaeth ei hun. Mae angen o hyd am nodau clir, uchelgeisiol a mwy penodol sy'n cysylltu â safonau rhyngwladol er mwyn inni wir ddechrau arwain y byd ar yr agenda hon. Un thema gyffredin sy'n codi yn yr adolygiad o ymarfer addawol rhyngwladol yw gweledigaeth ar gyfer cydraddoldeb rhywiol sydd wedi'i chyfleu'n glir.[17] Gellir defnyddio'r enghreifftiau rhyngwladol hyn yn ystod Cam Dau er mwyn helpu i ddatblygu gweledigaeth i Gymru.

### Negeseuon allweddol

1. Nid oes gweledigaeth a rennir ar gyfer cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru ar hyn o bryd, a all arwain at gamau gweithredu darniog ac anghydlynol,
2. Sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar sail egwyddorion clir a'r bwriad i 'brif ffrydio' cydraddoldeb, gan integreiddio cydraddoldeb rhywiol â pholisïau, arferion a rhaglenni. Fodd bynnag, mae'r rhai y gwnaethom ymgysylltu â nhw yn teimlo, yn yr 20 mlynedd ers ei sefydlu, bod y ffocws ar gydraddoldeb wedi lleihau a bod angen gweledigaeth, iaith ac egwyddorion arweiniol newydd ynghyd â nodau clir, uchelgeisiol a phenodol (sy'n cysylltu â safonau

[17] Parken, A. (2018) 'Putting equality at the heart of decision-making in Wales', Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru: Caerdydd

rhyngwladol) er mwyn i Gymru wir ddechrau arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywiol.

3. Ar hyn o bryd, mae Cymru a'r DU yn ddarostyngedig i fframwaith rhyngwladol o gonfensiynau a chyfarwyddebau sydd â'r nod o atal gwahaniaethu a sicrhau y caiff cydraddoldeb ei hyrwyddo. Mae rhai o'r rhain wedi cael eu trosi'n gyfraith ddomestig neu eu cefnogi gan gyfraith ddomestig ar lefel y DU a Chymru.
4. Mae rhai elfennau o'r fframwaith hwn, yn enwedig cymhwyso safonau rhyngwladol, o dan fygythiad oherwydd Brexit ac efallai y bydd angen ystyried ymgorffori rhai elfennau yn gyfraith Cymru lle y bo modd.
5. Mae Llywodraethau olynol Cymru wedi pasio deddfwriaeth ac wedi gosod dyletswyddau sydd â'r nod o ymgorffori'r ystyriaeth o gydraddoldeb mewn prosesau llunio polisïau. Ystyrir bod rhai o'r rhain, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yn arwain y byd.
6. Mae fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol yn bodoli eisoes yng Nghymru a ddylai fod yn ymgorffori'r ystyriaeth o rywedd, a chydraddoldeb yn fwy cyffredinol, yn y broses o lunio polisïau a gwneud penderfyniadau. Mae hwn yn cynnwys y ddyletswydd i brif ffrydio, Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).
7. Mae'r fframwaith hwn i Gymru yn rhoi nodau, egwyddorion a dyletswyddau sy'n ategu ei gilydd ar waith, a ddylai ddod ynghyd i ysgogi newid diwylliannol ym mhob rhan o'r llywodraeth a'r sector cyhoeddus.
8. Mae Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn ymrwymedig i greu gweithle cynhwysol. Dylai gwaith yn y maes hwn ganolbwyntio ar wella amrywiaeth menywod sy'n gweithio yn y llywodraeth, gan sicrhau y gall menywod gamu'n ymlaen i fod yn arweinwyr, mynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, gwella cyfraddau hawlio absenoldeb rhiant a rennir a chreu diwylliant lle y tynnir sylw at fwlio ac ymddygiad amhriodol ac ymdrinnir â hwy.

### 3.1. Gweledigaeth ar gyfer cydraddoldeb rhywiol

Mewn rhai ffyrdd mae Llywodraethau olynol Cymru wedi dangos gweledigaeth ar gyfer Cymru lle mae rhywedd, a chydraddoldeb yn fwy cyffredinol, wrth wraidd prosesau llunio polisïau. Mae nifer o gyfreithiau a rheoliadau wedi cael eu rhoi ar waith i newid y ffordd y caiff polisi ei lunio. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r ymgysylltu yn ystod Cam Un o'r adolygiad mai'r hyn sydd ar gael yw gweledigaeth a rennir mewn gwirionedd ar gyfer Cymru sy'n fwy cyfartal, ac yn benodol sut beth fyddai Cymru lle ceir cydraddoldeb rhywiol. Heb y weledigaeth hon a rennir, gall camau gweithredu fod yn ddarniog ac yn anghydlynol.

Gall hyn hefyd arwain at ganlyniadau anfwriadol. Er enghraifft, os nad oes diffiniad cyffredin o anghydraddoldeb rhywiol, gall hyn arwain at ofn o "gael pethau'n anghywir" a thuedd i anelu at bolisïau a gwaith dadansoddiad sy'n niwtral o ran y

rhywiau. Mewn gwirionedd, o ystyried y ffyrdd gwahanol iawn, yn aml, y mae menywod a dynion yn rhyngweithio â’r economi, gwasanaethau cyhoeddus a chymdeithas, gall fod yn niwtral o ran y rhywiau droi’n agwedd sy’n ddall o ran rhywedd. Er enghraifft, yr asesiad diweddar o’r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru), a nododd na fyddai effaith gadarnhaol na negyddol ar ddynion na menywod gan y byddai’r gofal plant a gynigir ar gael i’r naill a’r llall. O ystyried bod menywod yn dal i ymgymryd â phrif rolau gofalu di-dâl mewn aelwydydd yn fwy cyffredin bydd y polisi hwn bron yn sicr o gael effaith fwy cadarnhaol ar fenywod.[18]

Mae’n rhaid mai un o elfennau allweddol Cam Dau fydd datblygu a chyfleu gweledigaeth ar gyfer cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru a dealltwriaeth gyffredin o gydraddoldeb rhywiol.

Ni fydd gwneud Cymru yn wlad sy’n arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywiol yn dasg hawdd ond mae’n uchelgais i’w groesawu. Er mwyn gwireddu’r weledigaeth hon, bydd angen ysgogi newid diwylliannol o fewn y llywodraeth ac mewn cymdeithas yn fwy cyffredinol. Dywedodd ein rhanddeiliaid fod newid diwylliannol yn her allweddol, gan nodi bod angen inni weld newid enfawr mewn diwylliant ac agweddau er mwyn i Gymru ddod yn wlad sy’n arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywiol. Rydym yn parhau i fyw mewn cymdeithas lle y caiff agweddau a safbwyntiau eu ffurfio gan syniadau a normau ystrydebol a goleddir yn ddwfn. Ni fydd modd goresgyn yr heriau hyn heb newid radical o ran y ffordd rydym yn gwneud pethau a beth rydym yn ei wneud. O edrych ar yr adolygiad o ymarfer addawol rhyngwladol, mae’n amlwg bod y gwledydd hynny sy’n perfformio’n dda o ran cydraddoldeb rhywiol wedi ymdrin â materion megis nawdd cymdeithasol, gofal a mesur llwyddiant mewn ffordd wahanol iawn.

Gall Cymru ddangos arweinyddiaeth yn hyn o beth ac ni ddylai betruso rhag gwneud newidiadau dewr. Mae’r adolygiad o ymarfer rhyngwladol yn gwneud nifer o argymhellion, gan ddefnyddio enghreifftiau o gamau gweithredu arloesol mewn gwledydd eraill, y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried yn ystod Cam Dau. Mae hyn yn cynnwys a oes modd ymgorffori gwerth gofal di-dâl yn nangosyddion economaidd Cymru (megis GYG) ac addasrwydd ysgogiadau nawdd cymdeithasol gweinyddol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth yr Alban er mwyn gwneud taliadau’n amlach a’u symud “o’r waled i’r pwrs”.[19]

Un cam pwysig y gellid ei gymryd ar unwaith, yn unol â’r hyn a fabwysiadwyd mewn gwledydd Sgandinafaidd, sydd wedi amlinellu gweledigaeth ar gyfer cymdeithas gydraddol lle mae dynion a menywod yn rhannu gwaith â thâl a gwaith di-dâl yn gyfartal, ac ymdrinnir â chydberthnasau pŵer rhywedd yn gyhoeddus ac yn breifat,

[18]Gweler 4.6.1 am ddadansoddiad manylach o’r asesiad hwn o’r effaith ar gydraddoldeb

[19] Parken, A. (2018) ‘Putting equality at the heart of decision-making in Wales’, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru: Caerdydd

yw ategu gweledigaeth o'r fath drwy ganolbwyntio ar ganlyniad cyfartal ac nid dim ond cyfle cyfartal. [20]

### 3.2. Arwain drwy esiampl: Llywodraeth Cymru fel cyflogwr

Mae gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig i'w chwarae o ran arwain drwy esiampl a gwneud ymdrech barhaus sy'n arwain at newid parhaol. Mae hon yn rôl a gydnabyddir o fewn Llywodraeth Cymru a chan randdeiliaid allanol. Er y trafodir y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r amrywiol ddyletswyddau a osodwyd o dan y fframwaith uchod yn fanylach yn y bennod ddilynol, mae'n bwysig hefyd fod Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd fel cyflogwr.

Dros y blynyddoedd, mae llawer o gamau wedi cael eu cymryd er mwyn sicrhau ffocws cadarn ar hyrwyddo gweithlu cyfartal a chynhwysol yn Llywodraeth Cymru. Caiff hyn ei gyfleu drwy amcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth mewnol, nifer o rwydweithiau staff sy'n cynrychioli grwpiau gwahanol, gan gynnwys menywod, ac amcanion ar gyfer pob uwch aelod o staff sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Cyfeiriodd llawer y gwnaethom siarad â nhw at yr ymgyrch ddiweddar i recriwtio prentisiaid fel enghraifft o arfer da lle y rhoddwyd adnoddau ar waith i gynnal gwaith allgymorth gyda ffocws ar amrywiaeth. O ganlyniad, gwelwyd gwelliant sylweddol yn amrywiaeth y cohort mwyaf diweddar o brentisiaid. Mae camau hefyd wedi cael eu cymryd i gefnogi menywod yn well yn ystod absenoldeb mamolaeth. Maent yn parhau i symud i fyny'r raddfa gyflog gynyddrannol ac nid oes angen iddynt ddychwelyd cyfarpar TGCh yn ystod absenoldeb mamolaeth mwyach. Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud o hyd i gynyddu nifer y dynion sy'n cymryd absenoldeb tadolaeth ac absenoldeb rhiant a rennir, sy'n parhau'n isel.

Cyflwynwyd absenoldeb rhiant a rennir yn 2015 gan Lywodraeth y DU, gyda'r nod o'i gwneud yn haws i rieni rannu cyfrifoldebau gofalu yn ystod blwyddyn gyntaf bywyd plentyn. Nid yw'r DU wedi cyflwyno absenoldeb wedi'i gadw'n ôl i dadau fel sy'n ofynnol o dan *Gyfarwyddeb Absenoldeb Rhiant 2010 yr UE*.[21]

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Absenoldeb Rhiant a Rennir ar gam cynnar. Fodd bynnag, ledled y DU mae'r niferoedd sydd wedi dewis ei gymryd yn dal i fod yn siomedig o isel. Yn gynyddol, mae cyfyngiadau ariannol Absenoldeb Rhiant a Rennir yn cael eu nodi fel ffactor allweddol am y niferoedd cyson isel sy'n dewis ei gymryd.[22] Mae gan Lywodraeth Cymru gyfle i arwain y ffordd o ran yr agenda hon fel cyflogwr a rhoi mwy o gymorth i ddynion ei gymryd. Gallai hyn gynnwys cyflwyno Absenoldeb Rhiant a Rennir ar y gyfradd mamolaeth uwch i dadau sy'n cymryd

---

[20] Parken, A. (2018) 'Putting equality at the heart of decision-making in Wales', Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru: Caerdydd
[21] Parken, A. (2018) 'Putting equality at the heart of decision-making in Wales', Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru: Caerdydd
[22] Gweler ymchwil arfaethedig Chwarae Teg *Men's Perceptions of Gender Equality in the Workplace* 2018 neu'r Pwyllgor Dethol ar Fenywod a Chydraddoldebau *Fathers and the Workplace* 2018

absenoldeb ac annog yr un arfer da mewn gwasanaethau cyhoeddus a thrwy ysgogiadau caffael.

Mae problemau yn y gweithlu o hyd y mae angen mynd i'r afael â nhw. Cydnabyddir bod angen gwneud gwaith o hyd i ysgogi newid diwylliannol. Er bod llawer o'r polisïau sydd ar waith, megis y rhai ar fwlio ac aflonyddu, yn bodloni mesurau cydymffurfiaeth, mae awydd i fynd y tu hwnt i gydymffurfiaeth yn unig a sicrhau arfer gorau a gweithlu sy'n wirioneddol ddiogel a chynhwysol. Mae camau wedi cael eu cymryd, gan gynnwys cyflwyno proses rhoi gwybod yn ddienw er mwyn rhoi gwell cymorth i unigolion sy'n rhoi gwybod am ymddygiad amhriodol yn y gweithle ac achosion o fwlio. Efallai y bydd angen cynnwys adolygiad o effeithiolrwydd y camau hyn yn ystod Cam Dau.

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn Llywodraeth Cymru. Mae cynlluniau ar waith i roi gwell cymorth i fenywod ymgyrraedd at swyddi arwain ac er bod cynnydd yn cael ei wneud cydnabyddir mai'r uwch wasanaeth sifil sy'n achosi'r her fwyaf sylweddol i ddileu'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a bod rhy ychydig o fenywod o hyd mewn rolau lefel uwch yn Llywodraeth Cymru, Yn ystod Cam Dau, edrychwn yn fanylach ar y camau ymarferol y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd, gan gynnwys dadansoddiad o bolisi cyflog y gwasanaeth sifil, yr ymddengys ei fod yn cyfrannu at barhau â'r anghydraddoldeb hwn neu ei waethygu. Er nad yw cyflog uwch weision sifil wedi'i ddatganoli, mae bron yn sicr y gall Llywodraeth Cymru wneud rhagor i alluogi menywod i gamu ymlaen a llwyddo yn y rolau lefel uchaf yng Nghymru.

Yn ogystal â chyflog, gellid hefyd wneud gwaith i annog mwy o rannu swydd ar lefelau uwch, sy'n beth prin ar hyn o bryd, a gellid cymryd camau i fynd ati i annog cyfran fwy o fenywod i wneud cais am rolau technegol neu arbenigol sydd yn aml yn talu cyflog uwch.

Er bod menywod yn cyfrif am gyfran fawr o weithlu Llywodraeth Cymru, gellid gwneud rhagor er mwyn sicrhau mwy o amrywiaeth ymhlith y rhan hon o'r gweithlu. Bydd hyn yn gofyn am gymryd camau rhagweithiol.

### 3.4. Fframwaith Rhyngwladol

Mae cyfraith ryngwladol ac Ewropeaidd yn rhoi fframwaith ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol. Mae'r fframwaith hwn yn bodoli ar nifer o wahanol lefelau o'r CU, i'r UE, y DU, Cymru a Llywodraeth Leol.

Er mwyn sicrhau bod Cymru yn dod yn un o'r gwledydd sy'n arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywiol, mae'n rhaid ystyried y fframwaith rhyngwladol hwn. Mae'n bwysig dangos y cyd-destun lle y gellir cymryd camau a pha ysgogiadau y gellid eu defnyddio'n well.

Mae’r diagram isod yn tynnu sylw at ddeddfwriaeth a pholisïau allweddol sy’n canolbwyntio ar hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol, ar lefel ryngwladol ac Ewropeaidd, ar lefel y DU a Chymru ac ar lefel llywodraeth leol. Er nad yw’n rhestr hollgynhwysfawr, ystyrir y prif gonfensiynau, cyfreithiau a rheoliadau y dylid eu defnyddio i hyrwyddo cydraddoldeb yng Nghymru.[23]

| Y Cenhedloedd Unedig | | | |
|---|---|---|---|
| Datganiad y CU ar Hawliau Dynol | Nodau Datblygu Cynaliadwy’r CU | Nod Datblygu Cynaliadwy 5 y CU | CEDAW |

↓

| Yr Undeb Ewropeaidd UE | |
|---|---|
| Siarter Hawliau Dynol yr UE | Confensiwn Istanbul |

↓

| Y Deyrnas Unedig | |
|---|---|
| Deddf Hawliau Dynol y DU | Deddf Cydraddoldeb (2010) |

↓

| Cymru | | | |
|---|---|---|---|
| Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru | Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol | Dyletswydd Cymru i brif ffrydio | Deddf VAWDASV |

↓

| Llywodraeth Leol | | |
|---|---|---|
| Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru | Dyletswydd ac Amcanion Llesiant | Strategaeth VAWDASV |

**Nodau Datblygu Cynaliadwy**
Mae 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy sydd â 169 o dargedau, sy’n ffurfio agenda fyd-eang ar gyfer newid trawsffurfiannol ledled y byd. Cytunodd aelod-wladwriaethau’r CU mai’r nodau hyn a’u targedau fydd yn ffurfio eu hagenda bolisi o 2016-2030. Mae’r nodau yn cynnwys rhoi terfyn ar dlodi, rhoi terfyn ar newyn a gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd a’i effeithiau.

Yn unol â’r ymarfer addawol a nodwyd yn yr adolygiad rhyngwladol, mae’r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn mabwysiadu “strategaeth ddeuol”, gan brif ffrydio rhywedd

[23] CEDAW – Y Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod
VAWDASV – Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

fel pwnc trawsbynciol ym mhob un o'r nodau ond hefyd bennu nod sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywiol - Nod Datblygu Cynaliadwy 5.

Mae'r nodau yn datgan fel a ganlyn:

> *Bydd gwireddu cydraddoldeb rhywiol a grymuso menywod a merched yn gwneud cyfraniad allweddol at gynnydd ym mhob un o'r Nodau a'r targedau. Ni fydd modd cyflawni potensial dynol llawn na datblygu cynaliadwy os bydd hawliau a chyfleoedd yn parhau i gael eu gwrthod i hanner y ddynolryw. Mae'n rhaid i fenywod a merched gael mynediad cyfartal at addysg o safon, adnoddau economaidd a chyfranogiad gwleidyddol yn ogystal â chyfle cyfartal â dynion a bechgyn ym maes cyflogaeth, arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau ar bob lefel. Byddwn yn gweithio tuag at gynnydd sylweddol mewn buddsoddiadau i gau'r bwlch rhwng y rhywiau a chryfhau cymorth i sefydliadau mewn perthynas â chydraddoldeb rhywiol a grymuso menywod ar lefel fyd-eang, ranbarthol a chenedlaethol. Caiff pob math o wahaniaethu a thrais yn erbyn menywod a merched ei ddileu, gan gynnwys drwy ymgysylltu â dynion a bechgyn. Mae prif ffrydio safbwynt rhywedd yn systematig yn y broses o roi'r Agenda hon ar waith yn hollbwysig.*[24]

Mae'r DU wedi ymrwymo i gyflawni Nodau'r CU ac mae Cymru wedi cyfeirio atynt yn uniongyrchol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

---

[24] UN Resolution A/RES/70/1 - Transforming our world: the 2030 Agenda for Sustainable Development https://sustainabledevelopment.un.org/post2015/transformingourworld

**Nod Datblygu Cynaliadwy 5: Sicrhau cydraddoldeb rhywiol a grymuso pob menyw a merch**

Mae Nod 5 yn anelu at sicrhau cydraddoldeb rhywiol a grymuso pob menyw a merch drwy nifer o dargedau:

- Rhoi terfyn ar bob math o wahaniaethu yn erbyn menywod a merched ym mhob man
- Dileu pob math o drais yn erbyn pob menyw a merch yn gyhoeddus ac yn breifat, gan gynnwys marchnata a chamfanteisio'n rhywiol a mathau eraill o gamfanteisio
- Dileu pob arfer niweidiol, megis priodas yn blentyn, priodas gynnar a phriodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod
- Cydnabod a gwerthfawrogi gofal a gwaith domestig di-dâl drwy ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, seilwaith a pholisïau diogelwch cymdeithasol a hyrwyddo cyfrifoldeb ar y cyd yn yr aelwyd a'r teulu fel rhywbeth cenedlaethol briodol
- Sicrhau cyfranogiad llawn ac effeithiol menywod a chyfle cyfartal i arwain ar bob lefel o brosesau gwneud penderfyniadau mewn bywyd gwleidyddol, economaidd a chyhoeddus
- Sicrhau mynediad cyffredinol at iechyd rhywiol ac atgenhedlu a hawliau atgenhedlu fel y cytunwyd arnynt yn unol â Rhaglen Weithredu'r Gynhadledd Ryngwladol ar Boblogaeth a Datblygu a Llwyfan Gweithredu Beijing a dogfennau canlyniadau eu cynadleddau adolygu
- Cyflwyno diwygiadau i roi hawliau cyfartal i fenywod i adnoddau economaidd, yn ogystal â mynediad at berchenogaeth a rheolaeth dros dir a mathau eraill o eiddo, gwasanaethau ariannol, etifeddiant ac adnoddau naturiol, yn unol â chyfreithiau cenedlaethol
- Gwella'r defnydd o dechnoleg sy'n galluogi, yn enwedig technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, er mwyn hyrwyddo grymuso menywod
- Mabwysiadu a chryfhau polisïau cadarn a deddfwriaeth orfodadwy er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol a grymuso pob menyw a merch ar bob lefel

Mae'r targedau hyn yn cynnig cynllun clir ar gyfer gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r holl ffactorau sy'n cyfrannu at anghydraddoldeb rhywiol ledled y byd.

**Cyfraith Ewropeaidd**

Mae llawer o gyfarwyddebau'r UE y gellid eu hystyried wrth drafod cydraddoldeb rhywiol sydd, gyda'i gilydd, yn creu fframwaith hawliau a mesurau diogelwch i'r UE. Fel aelod o'r UE, mae'r DU yn ddarostyngedig i'r fframwaith hwn.

Un o elfennau canolog y fframwaith hwn yw Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd, sy'n nodi ein holl hawliau dinesig, gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir a fydd y Siarter yn rhan o gyfraith y DU ar ôl Brexit gan fod Bil Gadael yr UE wrthi'n mynd drwy Senedd y DU, gyda diwygiadau posibl i gynnwys y Siarter yng nghyfraith y DU. Gallai colli'r fframwaith hwn, a cholli

Deddf Hawliau Dynol y DU o bosibl, newid y cyd-destun yn ddirfawr lle mae Cymru yn anelu at fod yn un o'r gwledydd sy'n arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei hymrwymiad i gadw mesurau diogelwch a hawliau ar ôl Brexit a gwrthwynebu unrhyw gamau i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol. Fodd bynnag, bydd cydraddoldeb yn parhau i fod yn faes cyfraith sydd wedi'i gadw yn ôl ac fel y cyfryw bydd angen ystyried ymhellach sut y gellir cynnal hawliau cydraddoldeb presennol menywod a'u hawliau yn y dyfodol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os bydd blaenoriaethau ac ymagwedd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn mynd yn fwyfwy gwahanol.

**Confensiwn Istanbul**

Confensiwn Istanbul yw'r Confensiwn ar atal a gwrthsefyll trais yn erbyn menywod a thrais domestig. Dyma'r fframwaith cyfreithiol mwyaf cynhwysfawr sy'n bodoli i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, gan gwmpasu trais domestig, trais, ymosodiad rhywiol, anffurfio organau cenhedlu benywod, trais er anrhydedd fel y'i gelwir, a phriodi dan orfod.

Mae'n nodi camau i lywodraethau eu cymryd wrth fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod gyda safonau gofynnol i atal trais, diogelu menywod sy'n profi trais, erlyn y rhai sy'n cyflawni troseddau a sicrhau y caiff trais yn erbyn menywod ei fonitro.[25]

Nid yw'r DU wedi cadarnhau'r confensiwn ar hyn o bryd er iddi lofnodi'r confensiwn a chytuno i symud tuag at ei gadarnhau. Hyd nes y bydd y DU yn cadarnhau'r confensiwn nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol arni i'w ddilyn. Pan fydd Llywodraeth y DU yn cadarnhau Confensiwn Istanbul, bydd yn rhaid iddi gymryd yr holl gamau angenrheidiol a nodir ynddo.

Gall Cymru ystyried ymgorffori Confensiwn Istanbul mewn deddfwriaeth Gymreig, yn yr un odd ag y mae wedi ymgorffori'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn.

Nodir isod rai enghreifftiau o'r camau gweithredu a nodir o dan atal a diogelu:[26]

Mae'n rhaid i wledydd sy'n cadarnhau Confensiwn Istanbul atal trais yn erbyn menywod a merched drwy'r canlynol:

- Cynnal ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth yn rheolaidd;
- Hyfforddi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio'n agos gyda goroeswyr;
- Rhoi addysg ar gydraddoldeb rhwng dynion a menywod, stereoteipiau rhywiol, trais yn erbyn menywod a merched, a datrys anghydfodau mewn ffordd nad yw'n dreisgar mewn cydberthnasoedd personol;

[25] Confensiwn Cyngor Ewrop ar atal a gwrthsefyll trais yn erbyn menywod a thrais domestig, Cyngor Ewrop 2011 https://rm.coe.int/CoERMPublicCommonSearchServices/DisplayDCTMContent?documentId=090000168046031c

[26] https://icchange.co.uk/istanbul-convention

- Annog y cyfryngau a'r sector preifat i gyflwyno polisïau, canllawiau a safonau cryfach i atal trais yn erbyn menywod a sicrhau mwy o barch tuag at eu hurddas;
- Sefydlu rhaglenni trin i'r rhai sy'n cyflawni trais domestig ac i droseddwyr rhyw.

Mae'n rhaid i wledydd sy'n cadarnhau Confensiwn Istanbul ddiogelu a chynorthwyo menywod a merched sy'n profi trais drwy'r canlynol:

- Sefydlu digon o lochesi i roi llety diogel i fenywod a merched sy'n profi trais;
- Sefydlu digon o ganolfannau atgyfeirio argyfwng trais neu drais rhywiol sy'n rhoi archwiliad meddygol a fforensig, cymorth trawma a chwnsela i oroeswyr;
- Sicrhau bod llinellau cymorth dros y ffôn ar gael drwy'r wlad gyfan ddydd a nos am ddim, yn ogystal â llinellau cymorth arbenigol;
- Sicrhau bod goroeswyr trais yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, megis cwnsela cyfreithiol a seicolegol, cymorth ariannol, tai, addysg, hyfforddiant a chymorth i ddod o hyd i gyflogaeth.

## 3.5. Cyfraith y DU

### Deddf Cydraddoldeb 2010

Yn 2010, cafodd yr holl gyfraith cydraddoldeb a oedd yn bodoli eisoes ei dwyn ynghyd yn un Ddeddf drwy'r Ddeddf Cydraddoldeb. Mae'n ceisio sicrhau chwarae teg drwy ddiogelu naw nodwedd warchodedig rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth. Y nodweddion gwarchodedig yw:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas a phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol

Yn ogystal â diogelwch rhag gwahaniaethu, cyflwynodd y Ddeddf Cydraddoldeb Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (neu "ddyletswydd gyffredinol") ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r angen i:

(a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu erledigaeth ac unrhyw fath arall o ymddygiad sy'n cael ei wahardd gan neu o dan y Ddeddf hon;
(b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;
(c) meithrin cydberthasau da rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.[27]

[27] Adran 149 o'r Ddeddf https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/pdfs/ukpga_20100015_en.pdf

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn adnodd y gellir ei ddefnyddio i ddangos bod "sylw dyledus" wedi cael ei roi i gydraddoldebau. Nid ydynt yn ofyniad cyfreithiol yn Lloegr, ond mae cyfraith achos yn awgrymu bod rhyw fath o dystiolaeth ddogfennol o gydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn werthfawr i awdurdodau cyhoeddus wrth amddiffyn penderfyniadau mewn llys.[28] Yn 2012, penderfynodd Llywodraeth y DU beidio â'i gwneud yn ofynnol i adrannau'r llywodraeth gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb mwyach.[29] Mae Cymru wedi gweithredu'n wahanol, gyda dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru, a ystyrir yn fanylach isod.

### 3.6. Cyfraith Cymru

Er bod cyfraith cydraddoldeb wedi'i chadw yn ôl, mae deddfwriaeth Cymru wedi'i datblygu i gael effaith benodol ar y materion sy'n ymwneud â hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol a grymuso menywod. Mae Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill a restrir yn rhoi deddfwriaeth Cymru ar waith.

Mae fframwaith strategol cyffredin posibl yn bodoli er mwyn sicrhau cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru drwy integreiddio a gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae'r rhain yn cynnig ysgogiadau deddfwriaethol y gellir eu defnyddio i gryfhau'r gwaith er mwyn sicrhau cydraddoldeb rhywiol.

Ers i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei ffurfio, mae cydraddoldeb wedi cael ei roi wrth wraidd prosesau llunio polisïau drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n cynnwys y ddyletswydd gyfreithiol i roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb.

Ers hynny, mae dyletswyddau eraill wedi cael eu rhoi ar waith gyda'r nod o sicrhau bod cyrff cyhoeddus Cymru yn cynnwys ystyriaeth o gydraddoldeb wrth lunio polisïau a gwneud penderfyniadau gwariant.[30] Deddfwyd ynglŷn â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus drwy'r DU gyfan yn 2010 a daeth dyletswyddau penodol Cymru i rym yn 2011 – Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Yn 2015, cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gydsyniad brenhinol sy'n cynnwys "Cymru sy'n fwy cyfartal" fel un o saith nod llesiant ac yn 2015 daeth deddfwriaeth benodol i rym i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mewn egwyddor, mae'r rhain yn cynnig fframwaith strategol cadarn i gyflwyno prosesau llunio polisïau a gwneud penderfyniadau sy'n ymatebol o ran rhywedd ym mhob rhan o'r sector

[28] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin *Briefing Paper The Public Sector Equality Duty and Equality Impact Assessments* Rhagfyr 2017, Rhif 06591
[29] Ibid
[30] Mae Dyletswyddau Penodol Cymru yn gymwys i "awdurdodau a restrir" sydd hefyd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd gyffredinol.

cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn amlinellu gofynion y fframwaith hwn yma cyn trafod ei effeithiolrwydd ym Mhennod Pedwar.

### 3.6.1. Dyletswydd Cymru i Brif ffrydio

Gweledigaeth ar gyfer cydraddoldeb fu'n sail i'r setliad datganoli yng Nghymru. Ymgorfforwyd themâu trawsbynciol cydraddoldeb a chynaliadwyedd yn y Ddeddf Llywodraeth Cymru gyntaf a phob un arall wedi hynny.

Dywed Adran 77:

> *Equality of opportunity*
>
> *(1) The Welsh Ministers must make appropriate arrangements with a view to securing that their functions are exercised with due regard to the principle that there should be equality of opportunity for all people.*
>
> *(2) After each financial year the Welsh Ministers must publish a report containing— (a) a statement of the arrangements made in pursuance of subsection (1) which had effect during that financial year, and (b) an assessment of how effective those arrangements were in promoting equality of opportunity, and must lay a copy of the report before the Assembly.*

### 3.6.2. Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru, fel yn achos cyrff cyhoeddus penodedig eraill a gwmpesir gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, gydymffurfio â dyletswyddau cyffredinol a phenodol Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Mae nifer o ddyletswyddau penodol ac yn eu plith mae'r gofyniad i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Maent oll yn rhyngweithio â'i gilydd a dylid eu hystyried gyda'i gilydd, fel y mae canllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r nodiadau esboniadol i'r rheoliadau yn ei nodi'n glir.[31]

Mae'r dyletswyddau penodol hyn yn gydgysylltiedig ac maent yn ategu ei gilydd yn barhaus er mwyn llywio'r awdurdodau a restrir ynglŷn â sut i sicrhau canlyniadau cydraddoldeb gwell. Mae'r dyletswyddau cydraddoldeb yn cynnwys:
Mae'r dyletswyddau penodol yn cwmpasu:

- Amcanion cydraddoldeb
- Ymgysylltu â phersonau priodol

[31] https://www.equalityhumanrights.com/cy/publication-download/essential-guide-public-sector-equality-duty-overview-listed-public-authorities

- Gwybodaeth berthnasol
- Asesu a monitro effaith polisïau ac arferion
- Casglu gwybodaeth am gyflogaeth a mynd i'r afael ag achosion gwahaniaethau mewn cyflog
- Hyfforddiant
- Gwahaniaethau mewn cyflog a chynlluniau gweithredu
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Adroddiadau blynyddol
- Dim ond i Weinidogion Cymru y mae'r dyletswyddau penodol ychwanegol yn gymwys
- Caffael
- Cydymffurfiaeth gan Weinidogion Cymru
- Datgelu gwybodaeth
- Hygyrchedd gwybodaeth

Mae'r rheoliadau hyn ynglŷn â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn gosod gofynion ar awdurdodau cyhoeddus a restrir yng Nghymru a chânt eu crynhoi yng nghanllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol[32] fel:

a) o leiaf bob pedair blynedd paratoi a chyhoeddi amcanion a fydd yn eu cynorthwyo i gyflawno nodau'r ddyletswydd;
b) rhoi sylw dyledus i'r angen i lunio amcanion sy'n cwmpasu pob un o'r nodweddion gwarchodedig a mynd i'r afael ag achosion unrhyw wahaniaethau mewn cyflog sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig;
c) cynnwys pobl y maent o'r farn eu bod yn gynrychioliadol o'r grwpiau gwarchodedig ac eraill sydd â diddordeb yn y ffordd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau;
d) asesu'r effaith debygol ar eu gallu i gydymffurfio â dyletswydd gyffredinol polisïau arfaethedig neu ddiwygiadau i bolisïau ac arferion a chyhoeddi adroddiadau ar eu hasesiadau (lle maent yn dangos effaith sylweddol);
e) sicrhau eu bod yn nodi ac yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n dangos cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau (gan gynnwys ar gyflog) bob blwyddyn, ac yn nodi ac yn casglu gwybodaeth nad oes ganddynt;
f) casglu a chyhoeddi gwybodaeth am berfformiad bob blwyddyn;
g) hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol ymhlith eu cyflogeion;
h) llunio a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol;
i) rhoi sylw dyledus ynghylch a yw'n briodol bod meini prawf dyfarnu contractau yn cynnwys ystyriaethau i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol

---

[32] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol *A guide to regulation of the Public Sector Equality Duty in England, Scotland and Wales* https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/policy_on_regulating_the_public_sector_equality_duty_scot.pdf Cyrchwyd 14.06.18

neu bennu amodau sy’n ymwneud â’r ffordd y cyflawnir y contract er mwyn cyflawni’r ddyletswydd gyffredinol;

j) paratoi adroddiad blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn;

k) i Weinidogion Cymru, cyhoeddi adroddiad ar y ffordd y mae awdurdodau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn cyflawni’r ddyletswydd gyffredinol. Mae angen iddynt gyhoeddi adroddiad bob pedair blynedd ac adroddiad interim bob dwy flynedd;

l) cymryd camau i sicrhau bod dogfennau cyhoeddedig neu wybodaeth yn ymddangos ar ffurf sy’n hygyrch i bobl o grwpiau gwarchodedig.

Mae’r dyletswyddau hyn yn ceisio sicrhau bod cyrff cyhoeddus a restrir yng Nghymru yn ystyried yr effaith ar hyrwyddo cydraddoldeb wrth greu polisïau a deddfwriaeth a gwneud penderfyniadau gwariant.

### 3.6.3. Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Nod y Ddeddf yw gwella ymateb y sector cyhoeddus i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod drwy gyflawni tri phrif nod:

a) codi ymwybyddiaeth o ddioddefwyr cam-drin domestig, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol, eu hatal a diogelu a chefnogi’r dioddefwyr;
b) cryfhau’r arweinyddiaeth a’r atebolrwydd strategol am gam-drin domestig, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol;
c) gwella cysondeb, ansawdd a natur gydgyslltiedig darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru.

Nod y Ddeddf yw rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod ac anghydraddoldeb rhywiol, gan gydnabod bod trais yn erbyn menywod wedi’i achosi gan anghydraddoldeb rhywiol ac yn deillio ohono. Mae’r Ddeddf yn diffinio “trais yn erbyn menywod a merched” fel “trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol pan fo’r dioddefwr yn fenywaidd”. (Deddf 2.2). Ond mae’r Ddeddf hefyd yn enwi ‘cam-drin domestig a thrais rhywiol’ ar wahân yn hytrach na’u cynnwys fel math o drais yn erbyn menywod. (Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol)

Mae’r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i baratoi, cyhoeddi ac adolygu strategaeth genedlaethol, yn ogystal â’i rhoi ar waith. Mae’n rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol a chyflwyno adroddiad ar gynnydd blynyddol. Mae’n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i baratoi strategaethau lleol a’u rhoi ar waith. Mae’n rhaid i strategaeth leol:[33]

---

[33] Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/3/pdfs/anaw_20150003_cy.pdf Cyrchwyd 14.16.18

(a) pennu amcanion y byddant, os cânt eu cyflawni, ym marn yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol, yn cyfrannu at ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon;

(b) pennu o fewn pa gyfnodau y bydd yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn bwriadu cyflawni'r amcanion a bennir;

(c) dynodi'r camau y mae'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni'r amcanion a bennir.

Mae'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol rannu gwybodaeth ynglŷn â sut mae rôl addysg yn cyflawni nodau'r Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer penodi Cynghorydd Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod.

Mae'r Ddeddf yn cysylltu â deddfwriaeth a pholisïau Llywodraeth y DU yn y Swyddfa Gartref, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer erlyn cyflawnwyr a diogelu dioddefwyr mathau o drais yn erbyn menywod yn cael ei bennu gan Lywodraeth y DU.

### 3.6.4. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau "datblygu cynaliadwy" yng Nghymru drwy wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Ddeddf yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, drwy nifer o nodau llesiant ac yn rhoi egwyddorion a ffyrdd o weithio ar waith ar gyfer pob corff cyhoeddus yn ogystal â gofyniad i fynd ati'n rhagweithiol i wella llesiant Cymru drwy bennu a chyhoeddi amcanion llesiant.

Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant, y disgwylir i bob corff cyhoeddus weithio tuag at gyflawni:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru sy'n fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Caiff cynnydd tuag at y nodau hyn ei fesur drwy ddefnyddio'r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol, sy'n cynnwys y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Er nad ydynt yn gyfreithiol gyfrwymol, mae'r canllawiau technegol ategol yn amlinellu pa ddangosyddion y gellir eu dadgyfuno yn ôl grŵp cydraddoldeb.[34]

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno egwyddor datblygu cynaliadwy y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus gadw ati, sy'n golygu bod yn rhaid i gorff cyhoeddus "weithredu mewn

[34] Llywodraeth Cymru *Sut mae mesur cynnydd cenedl? Dangosyddion Cenedlaethol: Dogfen Dechnegol* 2015

modd sy’n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau”. Er mwyn cyflawni hyn disgwylir i gyrff cyhoeddus ddilyn pum ffordd o weithio:

1. **Hirdymor:** Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a’r angen am ddiogelu’r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd
2. **Integreiddio:** Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o’r nodau llesiant, ar bob un o’u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill
3. **Cynnwys:** Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni’r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu
4. **Cydweithio:** Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu’r corff i fodloni ei amcanion llesiant
5. **Atal:** Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion

### 3.6. Casgliad

Mewn egwyddor, dylai’r fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol hwn sicrhau bod ystyried cydraddoldeb rhywiol a grymuso menywod wrth wraidd prosesau llunio polisïau a gwneud penderfyniadau ym mhob rhan o’r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae pob elfen yn rhoi egwyddorion a dyletswyddau sy’n ategu ei gilydd ar waith, gan gynnwys gwahanol amcanion a ddylai gynnwys camau gweithredu i fynd i’r afael â chydraddoldeb rhywiol. Er enghraifft, o ystyried cynnwys “Cymru sy’n fwy cyfartal” fel nod llesiant cenedlaethol, dylai’r broses o gyflawni’r dyletswyddau cydraddoldebau presennol fwydo i mewn i amcanion a chamau gweithredu cyrff cyhoeddus i gyflawni’r nod hwn.

Fodd bynnag, yr hyn sydd wedi dod yn amlwg o’r adolygiad o lenyddiaeth, ymgysylltu â rhanddeiliaid a’r adolygiad dysgu a gynhaliwyd yn ystod Cam Un yw nad yw’r fframwaith hwn yn gweithio’n effeithiol. Mae problemau amlwg o ran integreiddio rhwng y darnau hyn o ddeddfwriaeth a rheoliadau ac anghysondebau o ran gweithredu a chydymffurfio.

Amlinellir y problemau hyn yn fanwl yn y bennod nesaf.

## 4. Rhoi Polisi ar Waith

Er bod y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau a amlinellir uchod yn gosod y conglfeini ar gyfer proses o lunio polisïau sy'n ymatebol o ran rhywedd, mae integreiddio a gweithredu effeithiol yn hanfodol i'w llwyddiant. Yn ystod Cam Un tynnwyd sylw at ymarfer addawol yma a thraw, yn enwedig mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod diffyg integreiddio o hyd rhwng y gwahanol ddyletswyddau ac anghysondebau o ran gweithredu sy'n dwyn risg o bolisïau a phenderfyniadau "sy'n ddall o ran rhywedd". Mae Cam Un wedi nodi llawer o'r meysydd hyn lle ceir problemau, y bydd angen eu hystyried yn fanylach yn ystod Cam Dau.

### Negeseuon allweddol

1. Mae diffyg integreiddio rhwng Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a allai danseilio ymatebion i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol.
2. Mae pryderon bod diffyg integreiddio wedi arwain at ymateb sy'n seiliedig ar gydymffurfiaeth gyda ffocws cyfyngedig ar yr angen am newid diwylliannol.
3. Mae strwythur a phroses cyllideb Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi'u datgysylltu oddi wrth bolisïau ac mae'n her i weithio trawslywodraethol effeithiol.
4. Gall y gwahanol ddyletswyddau gael eu gweithredu'n anghyson. Ceir ymarfer da yma a thraw ond hyd yma ni chyflawnwyd y newid diwylliannol sydd ei angen i brif ffrydio rhywedd a chydraddoldebau yn y broses llunio polisïau a gwneud penderfyniadau mewn gwirionedd.
5. Mae cynlluniau cydraddoldeb strategol wedi symud oddi wrth amcanion penodol ar gyfer pob nodwedd warchodedig. Er y gall hyn helpu i ystyried cydgyfeiriadedd yn well o bosibl, mae risg y gall elfennau gael eu hanwybyddu, megis adroddiadau ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y sector cyhoeddus.
6. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn anghyson, nid ydynt yn cynnwys dadansoddiad beirniadol o rywedd, maent yn digwydd ar yr adeg anghywir yn ystod y broses o lunio polisi a gall yn aml gael eu cynnal fel ymarfer ticio blychau. Bydd angen i'r adnodd asesu effaith integredig newydd yn Llywodraeth Cymru gael ei adolygu fel rhan o Gam Dau.
7. Araf fu'r broses o roi'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith ond mae'r Gweinidog presennol wedi cydnabod bod angen cyflymu hyn.
8. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael effaith gadarnhaol a theimlir ei bod yn ysgogi newid, yn enwedig drwy'r Pum Ffordd o Weithio. Fodd bynnag, mae pryderon y gall ddisodli'r dyletswyddau cydraddoldebau sy'n bodoli eisoes neu eu bwrw i'r cysgod.

9. Mae diffyg camau gweithredu diriaethol mewn amcanion cydraddoldeb a llesiant, ac yn gynyddol o fewn polisïau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cyfyngu ar y gwaith o olrhain cynnydd a chraffu'n effeithiol.
10. Erys diffyg data cadarn wedi'u dadgyfuno yn ôl rhywedd a dangosyddion yn her o hyd. Er bod camau wedi cael eu cymryd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i roi dangosyddion ar waith mae'r broses adrodd hyd yma wedi bod yn anghyson, gyda rhywfaint o ddata ar goll ac ychydig iawn o ddadgyfuno yn ôl grŵp cydraddoldeb.
11. Mae'r gallu i ymdrin â chydraddoldebau yn ddarniog o fewn Llywodraeth Cymru, gydag amryfusedd ynglŷn â rôl Arweinwyr Cydraddoldeb a dull anghyson o osod a defnyddio arbenigedd ym maes cydraddoldebau rhwng adrannau.
12. Mae'r dull o gael sicrwydd ynglŷn â pholisïau yn anghyson rhwng adrannau Llywodraeth Cymru. Mae sesiynau her newydd sy'n cynnwys ffocws ar themâu trawslywodraethol, wedi cael eu cyflwyno ac maent yn helpu i fynd i'r afael â hyn. Mae'r rhain wedi cael eu croesawu ac ymddengys eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar y broses o ddatblygu polisïau.

## 4.1. Integreiddio

### 4.1.1. Integreiddio deddfwriaeth a dyletswyddau sy'n bodoli eisoes

Er bod nodau, amcanion a dyletswyddau yn ategu ei gilydd, mae tystiolaeth nad yw'r fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol presennol a amlinellir uchod yn integreiddio'n ddigon da, gan achosi heriau ychwanegol i weithredu a chymryd camau ystyrlon. Mae pryderon y gall y diffyg integreiddio hwn gyfrannu at ymateb gwannach i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol.

Mae adroddiadau diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi tynnu sylw at broblemau o ran integreiddio. Cymerodd Swyddfa Archwilio Cymru dystiolaeth ar roi'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith a chanfu fod "strategaethau lleol yn datblygu ond mae angen eu hintegreiddio â deddfwriaeth ddiweddar er mwyn iddynt fod yn gwbl effeithiol"[35]. Canfu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol 'Dylai BGCau ystyried sut i gysylltu cynlluniau llesiant â strategaethau a chynlluniau eraill, yn cynnwys y rhai hynny sy'n berthnasol i ddeddfwriaeth arall a'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd hyn yn galluogi meysydd allweddol o'r ddarpariaeth i fod yn rhan weithredol o'r darlun mwy o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol". [36]

---

[35] Swyddfa Archwilio Cymru *Canfyddiadau ein Galwad am Dystiolaeth ynghylch Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015* Awst 2017

[36] https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/07/FGCW_Llesiant_yng_Nghymru_cynllunio_heddiw_ar_gyfer_gwell_yfory_2017FINALWELSH.pdff) Cyrchwyd 14.06.18

Mynegwyd yr un pryderon wrth inni ymgysylltu â rhanddeiliaid, a nododd ddull 'seilo' o gyflawni'r dyletswyddau o fewn Llywodraeth Cymru ac mewn cyrff cyhoeddus yn fwy cyffredinol. Mynegwyd pryder penodol ynglŷn â diffyg integreiddio ymddangosiadol rhwng dyletswyddau cydraddoldebau a'r ddyletswydd llesiant, sydd, mewn rhai achosion, yn arwain at ganlyniad anfwriadol, sef bod llawer mwy o adnoddau yn cael eu neilltuo ar gyfer cyflawni dyletswyddau llesiant nad ydynt yn rhoi digon o ystyriaeth i gydraddoldeb rhywiol o bosibl.[37]

Mae pryderon gan lawer o'r rhai y clywyd ganddynt y bydd cyrff cyhoeddus yn ymateb ar sail cydymffurfiaeth yn hytrach nag ymateb drwy'r newid diwylliannol sydd ei angen i gyflawni'r Nodau Llesiant, yn enwedig sicrhau "Cymru sy'n fwy cyfartal". Canfu adroddiad diweddar gan yr Archwilydd Cyffredinol ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus fod diffyg integreiddio rhwng strategaethau lleol a chynlluniau gweithredu yn ogystal â thuedd i ganolbwyntio ar weithrediadau cyflawni yn hytrach na sicrhau cynnydd o ran creu'r newid sy'n sail i'r Ddeddf. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol y canlynol:

*"Disgrifiodd rhai cyrff her cymhlethdod deddfwriaethol a'r ffaith ei bod yn anodd cyfuno gofynion statudol yn ymarferol. Yn benodol, cyfeiriwyd at yr angen i ddod o hyd i ffordd ymarferol o fodloni gofynion y Ddeddf tra hefyd yn bodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 neu ddeddfwriaeth gynllunio. Awgrymodd rhai y gallai cymhlethdod deddfwriaethol a 'baich' bodloni sawl gofyniad arwain at ymateb yn seiliedig ar gydymffurfiaeth."*[38]

Nododd rhanddeiliaid bryderon tebyg, yn enwedig o ran diffyg integreiddio amcanion cydraddoldeb â phrosesau polisi a chyflawni ehangach mewn cyrff cyhoeddus. Ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd roedd diffyg ystyriaeth o rywedd a'r dyletswyddau a'r amcanion cydraddoldeb sy'n bodoli eisoes ym maes penderfyniadau cynllunio, caffael a datblygu economaidd.[39]

Rhoddodd y Cynghorydd Cenedlaethol blaenorol ar Drais yn erbyn Menywod dystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, gan nodi "*The timing of the introduction of the Act alongside the Social Services and Well-Being (Wales) Act and Well-Being of Future Generations (Wales) Act presented an opportunity to integrate many of the key messages, principles and requirements of the legislation. I feel, however, that this opportunity was missed and that there is a resultant risk that the Act will be considered in isolation rather than as part of an integrated Welsh approach to improving social, economic and cultural well-being.*"[40]

---

[37] Atodiad 1 *Adroddiad Ymgynghori â Rhanddeiliaid: Heriau*

[38] Swyddfa Archwilio Cymru *Myfyrio ar Flwyddyn Un: Sut mae Cyrff Cyhoeddus wedi Ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?* 2018

[39] Atodiad 1 *Adroddiad Ymgynghori â Rhanddeiliaid: Heriau*

[40] Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru *A yw Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gweithio?*

Mae cysylltiadau clir rhwng nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru, a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac mae'n hanfodol bod integreiddio llawn rhwng ac ar draws strategaethau a chynlluniau gweithredu cenedlaethol a lleol er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl a chydlyniad polisïau.

Nid yw'r diffyg integreiddio hwn yn broblem newydd. Bu tuedd i ddyletswyddau sy'n bodoli eisoes gael eu disodli yn hytrach na'u hintegreiddio pan gaiff dyletswyddau newydd eu cyflwyno. Er enghraifft, ni fu fawr ddim ffocws ar y ddyletswydd i brif ffrydio a amlinellir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, ers i'r Ddeddf Cydraddoldeb a Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru gael eu cyflwyno. Mae risg y bydd yr un peth yn digwydd, gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn disodli'r dyletswyddau cydraddoldebau. Yn gynyddol, caiff trafodaethau ynglŷn â chydraddoldeb eu cynnal o fewn fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda materion llawer ehangach ac aneglur yn cael eu hystyried yn hytrach na'r dadansoddiad manwl, penodol o anghydraddoldeb rhywiol. Er enghraifft, adroddiadau diweddar Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y gyllideb ddrafft, lle mae'r gwaith craffu ar asesu'r effaith bellach yn canolbwyntio'n bennaf ar gysoni â Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hytrach nag ar yr effaith ar gydraddoldebau.[41]

Nid yw'n glir sut mae integreiddio dyletswyddau cydraddoldebau â'r broses o weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae angen inni ystyried ymhellach lle mae cydraddoldeb, yn benodol cydraddoldeb rhywiol, o fewn y gwahanol amcanion, strategaethau a chynlluniau gweithredu hyn ar lefel genedlaethol a lleol.

Fel y'i hamlinellwyd yn yr adolygiad rhyngwladol o ymarfer addawol gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi nodi'r hyn a allai weithio drwy ymgorffori themâu trawsbynciol cydraddoldeb a chynaliadwyedd yn y Ddeddf Llywodraeth Cymru gyntaf a deddfau olynol. Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd i brif ffrydio wedi cael ei disodli gan y prosesau sy'n ategu'r ddyletswydd gyffredinol a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. O ystyried potensial y fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol presennol, dylai Cam Dau ganolbwyntio, a hynny'n gwbl briodol, ar y ffordd rydym yn integreiddio a phrif ffrydio'r egwyddorion a'r dyletswyddau a roddwyd ar waith. Gallai hyn gynnwys ystyried sut y gellid atgyfnerthu'r ddyletswydd i brif ffrydio er mwyn ymgorffori'r defnydd o egwyddorion ac adnoddau prif ffrydio.[42]

---

Craffu ar ôl y broses ddeddfu Rhagfyr 2016 http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10863/cr-ld10863%20-%20w.pdf

[41] Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru *Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-2018* a 2018-2019; cymharwch ag adroddiadau yn ystod tymor 2011-2016, yn enwedig adroddiadau cynharach

[42] Parken, A. (2018) 'Putting equality at the heart of decision-making in Wales', Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru: Caerdydd

### 4.1.2. Integreiddio prosesau cyllidebol a pholisi

Daeth yn amlwg yn ystod Cam Un nad yw strwythur na phroses cyllideb Llywodraeth Cymru yn ddigon cydgysylltiedig â'r broses o lunio polisïau a gall fod yn her i weithio trawslywodraethol effeithiol. Ers dechrau tymor 2016 y Cynulliad, bu ffocws o'r newydd ar ddileu seilos o fewn Llywodraeth Cymru, a gyflëir yn strwythur mwy thematig y rhaglen lywodraethu (*Ffyniant i Bawb: Strategaeth Genedlaethol*). Mae'r Pum Ffordd o Weithio hefyd yn cefnogi dull gweithredu mwy trawsadrannol.

Er bod adborth cadarnhaol ar y ffordd yr ymdrinnir â pholisi yn hyn o beth, mae proses a strwythur presennol y gyllideb yn parhau i fod yn rhwystr i weithio trawslywodraethol effeithiol ar bob mater, gan gynnwys cydraddoldeb rhywiol.

**Astudiaeth achos: Diffyg Cyswllt rhwng Polisïau a'r Gyllideb**[43]

Nod y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol oedd gwella'r dull gweithredu strategol o roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Oni fydd cyllideb wedi'i chysoni â'r ddeddfwriaeth hon mae'n her gweld sut bydd modd cyflawni dull gweithredu strategol.

Er mwyn cyflawni nodau'r Ddeddf, mae dull gweithredu trawslywodraethol yn hanfodol, sy'n cynnwys llinellau cyllideb ar gyfer adnoddau, gan gynnwys addysg, ymgyrchoedd cyfathrebu, diogelu, comisiynu gwasanaethau cymorth a rhaglenni atal.

Mae cyllid hirdymor, cynaliadwy ar gyfer pob math o wasanaethau cymorth trais yn erbyn menywod yn hanfodol er mwyn cyflawni nodau'r Ddeddf ac mae'n ymrwymiad yn strategaeth genedlaethol y Ddeddf. Wrth i waith atal ddechrau cael effaith, mae cynnydd yn nifer y bobl sy'n datgelu eu profiad o drais ac felly gynnydd yn y galw am wasanaethau cymorth. Mae grŵp gorchwyl a gorffen cyllid cynaliadwy Llywodraeth Cymru wedi bod yn datblygu model cyllido cynaliadwy a bydd yn cyflwyno adroddiad cyn hir. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi bod y trefniadau cyllido byrdymor a'r methiant i gyfuno neu flaenoriaethu cronfeydd ar gyfer cymorth arbenigol yn her i roi'r Ddeddf ar waith:

> *"Mae'r llu o ffrydiau ariannu a'u natur fyrdymor yn ei gwneud yn heriol i gyrff cyhoeddus ddatblygu dull strategol tymor hwy o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol - mae anallu sefydliadau i briodoli'r holl wariant yn glir yn atgyfnerthu pwysigrwydd cysoni strategaethau a chynlluniau cyflawni'n glir â chyllid ar gyfer y meysydd polisi hynny, yn enwedig o ystyried y diffyg cyswllt rhwng arian grant blynyddol byrdymor a blaenoriaethau tymor hwy strategaethau".*

Yn ddiweddar, bu symud oddi wrth ddarparu cyllid wedi'i neilltuo i awdurdod lleol. Mae'n bosibl y gallai'r duedd hon gael effaith andwyol ar grantiau awdurdodau cyhoeddus i wasanaethau trais yn erbyn menywod. Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi casglu tystiolaeth gan wasanaethau arbenigol ym maes trais yn erbyn

[43] Diolch i Cymorth i Ferched Cymru am eu cyfraniad at yr adran hon o'r adroddiad sy'n defnyddio tystiolaeth o *Adroddiad Cyflwr y Sector 2017*

menywod yng Nghymru sy'n dangos bod eu harian grant yn cael ei dorri gan awdurdodau lleol er mwyn talu am ddarpariaeth statudol.[44] Maent hefyd wedi dweud nad yw gwerth partneriaethau â darparwyr annibynnol arbenigol fel gwasanaethau cam-drin domestig yn cael ei gydnabod mewn llawer o awdurdodau lleol, lle maent naill ai'n barod i dorri gwasanaethau a chynnig darpariaeth fewnol debyg, neu i gwtogi ar ddarpariaeth arbenigol er mwyn contractio ag un darparwr cyffredinol mawr.

Er bod penderfyniadau gwariant ynglŷn â gwasanaethau penodol yn cael eu gwneud ar lefel awdurdodau lleol, mae newid yn y ffordd y caiff cyllidebau eu dyrannu i awdurdodau lleol yn dwyn risg canlyniadau anfwriadol, a gallai awgrymu diffyg cyswllt rhwng prosesau polisi a chyllideb.

Heb ymgorffori prosesau cynaliadwy, cyfun a thrawsadrannol o bennu cyllidebau, bydd yn anodd cyflawni'r blaenoriaethau yn y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r Strategaeth Genedlaethol. Mae'r methiant presennol i integreiddio egwyddorion gweithio trawslywodraethol sydd wedi'u hymgorffori yn y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r broses gyllidebu yn risg wirioneddol i weithredu effeithiol.

### 4.2. Gweithredu

Mae pob elfen o'r fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol a drafodir yn yr adroddiad hwn yn rhoi gwahanol ddyletswyddau a gofynion ar waith i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Gall y dyletswyddau hyn gael eu gweithredu'n anghyson.

Ceir enghreifftiau o ymarfer addawol yma a thraw, lle mae egwyddorion a dyletswyddau gwahanol reoliadau yn cael eu cymhwyso'n effeithiol, lle mae amcanion yn cael eu hintegreiddio neu'n cysoni ymhlith cyrff cyhoeddus mewn ardal ddaearyddol fel y gogledd[45] a lle mae enghreifftiau o bolisi lle mae'r ystyriaeth o rywedd wedi cael ei phrif ffrydio ac yn cael eu cefnogi gan gamau gweithredu diriaethol.

[44] http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/State-of-the-Sector-Report-2016-FINAL.pdf

[45] Mae cyrff cyhoeddus yn y gogledd wedi cytuno ar nifer o amcanion lefel uchel y bydd pob partner yn eu mabwysiadu mewn Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol – mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd; mynd i'r afael â chanlyniadau anghyfartal mewn addysg er mwyn sicrhau bod unigolion yn cyflawni eu potensial mwyaf. mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn cyflogaeth a chyflogau; mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn diogelwch personol; mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran cynrychiolaeth a llais; mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd. Awgrymodd nifer o randdeiliaid yn y de fwy o gysoni rhwng amcanion cydraddoldeb cyrff cyhoeddus fel cam gweithredu er newid.

**Ymarfer addawol - *Stem: Cynllun Cyflawni ar gyfer Cymru***

Cyhoeddwyd *STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg): Cynllun Cyflawni i Gymru*[46] yn 2016. Mae'n amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo, monitro a gwerthuso gweithgarwch cyfoethogi STEM a sut y caiff sgiliau STEM eu datblygu.

Er nad yw'n ymddangos bod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael ar-lein ar gyfer y polisi hwn, ceir ystyriaeth gyson o gydraddoldeb rhywiol drwy'r polisi cyfan. Yn ogystal ag adran sy'n canolbwyntio ar ddiffyg cynrychiolaeth ddigonol menywod ym maes STEM, trafodir y mater drwy'r polisi cyfan ym mhob maes lle y tybir bod hynny'n briodol.

Mae'r drafodaeth hon wedi'i hategu gan gamau gweithredu clir sydd â ffocws sy'n ceisio mynd i'r afael â'r rhwystrau y mae menywod yn dod ar eu traws. Mae'r camau gweithredu hyn yn aml yn cynnwys amserlenni clir, gan wella atebolrwydd ymhellach.

Er enghraifft, mae'r cynllun yn ymrwymo i ddiweddaru canllawiau STEM i athrawon yn 2017, gan gynnwys cynnwys ar duedd anymwybodol o ran rhywedd ym maes STEM. Mae hefyd yn ymrwymo i gynnal dadansoddiad pellach o'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau mewn Mathemateg a PISA yn 2016 a rhoi arian grant i Techniquest a Techniquest Glyndŵr er mwyn cyflawni amcanion strategol penodol i wella dilyniant merched a thargedu cymunedau o dan anfantais yn 2016-2017.

Mae'n arbennig o bwysig sicrhau bod rhywedd yn cael ei ystyried yn y maes hwn. Mae menywod heb gynrychiolaeth ddigonol ym mron pob maes STEM. Y prif eithriad yw meddygaeth. Dim ond 12% o fyfyrwyr prifysgol peirianneg a thechnoleg yng Nghymru sy'n ferched.[47] Wrth i ferched fynd drwy addysg, mae'r gyfran yn astudio pynciau STEM yn gostwng yn gyson, gyda dim ond 7% o ferched sy'n astudio pynciau STEM ar gyfer TGAU yn mynd yn eu blaen i gymhwyso ar Lefel 4 mewn maes STEM craidd. O ganlyniad i ddiffyg cynrychiolaeth ddigonol o'r fath, heb gamau lliniaru, mae'n debygol y byddai'r polisi hwn wedi bod yn anghymesur o fuddiol i ddynion, drwy fuddsoddi mewn sector nad yw menywod yn astudio nac yn gweithio ynddo. Byddai unrhyw gyllideb a neilltuwyd i weithredu'r cynllun cyflawni hwn wedi achosi risg o ehangu bylchau rhwng y rhywiau a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau pe na bai'r ymagwedd hon tuag at brif ffrydio rhywedd wedi cael ei mabwysiadu.

Un maes y gellid ei gryfhau o bosibl yn yr enghraifft hon fyddai mwy o ystyriaeth i gydgyfeiriadedd. Er bod trafodaeth dda am faterion sy'n ymwneud â rhywedd o fewn STEM, nid oes fawr ddim ystyriaeth o gydraddoldebau ehangach, gan gynnwys sut y gallai bod yn anabl neu'n unigolyn â chefndir BAME fod yn rhwystr i gael gwaith a hyfforddiant yn y sector hwn.

Fodd bynnag, ni welir yr ymagwedd hon yn gyson ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru ac mae tystiolaeth o'n dadansoddiad ein hunain o bolisïau ac o'r trafodaethau

46 https://gov.wales/docs/dcells/publications/160311-stem-delivery-plan-cy-v2.pdf Cyrchwyd 22.05.18
47 Llywodraeth Cymru *Menywod dawnus ar gyfer Cymru Lwyddiannus*

a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid a swyddogion mai ymateb sy'n seiliedig ar gydymffurfiaeth i'r gwahanol ddyletswyddau sydd wedi datblygu yn y pen draw, sy'n cyfyngu ar ddadansoddiad beirniadol o rywedd, a chydraddoldeb yn fwy cyffredinol, wrth ddatblygu polisïau.

**Cyfle Coll: *Ein Cymoedd Ein Dyfodol***

Cyhoeddwyd *Ein Cymoedd Ein Dyfodol* yn 2017, sy'n cynnwys adroddiad cychwynnol a chynllun cyflawni manwl. Mae'n ffrwyth gwaith y Tasglu Gweinidogol i Gymoedd y De ac mae'n ceisio sicrhau newid parhaol yn y Cymoedd drwy greu swyddi o ansawdd da yn nes at adref, gwella sgiliau pobl a dod â ffyniant i bawb. Mae'r cynllun yn canolbwyntio camau gweithredu ar dair blaenoriaeth allweddol:

1. Swyddi o ansawdd da a sgiliau i'w cyflawni
2. Gwell gwasanaethau cyhoeddus
3. Fy nghymuned leol

Mewn sawl ffordd, mae *Ein Cymoedd Ein Dyfodol*[48] yn cynnig dull addawol o ddatblygu polisïau. Cafodd y cynllun cyflawni ei ddatblygu ar ôl cryn dipyn o ymgysylltu ac ymgynghori â phobl sy'n byw yng Nghymoedd y De er mwyn nodi'r materion allweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy.

Mae'n cynnwys cyfres lawer mwy manwl o gamau gweithredu na chynlluniau gweithredu diweddar eraill, wedi'u cysylltu â chanlyniadau a ddymunir a thargedau. Mae'n nodi amserlenni clir ac yn cynnig mwy o atebolrwydd na pholisïau a chynlluniau gweithredu diweddar eraill. Mae hefyd yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, sydd wedi cael ei adolygu unwaith ac mae dyddiad wedi'i bennu i'w adolygu ymhellach.

Fodd bynnag, er gwaethaf y cryfderau cyffredinol hyn, nid oes fawr ystyriaeth o rywedd yn y cynllun. Mae llawer o'r gweithgareddau yn debygol o fod yn fuddiol i fenywod, megis:

- gwella cyfraddau cyflogaeth, gan fod menywod yn llai tebygol o weithio na dynion ac maent yn economaidd anweithgar am resymau gwahanol;
    - y gyfradd gweithgarwch economaidd ar gyfer menywod 16-64 oed yw 74.8% o gymharu â 78.5% ar gyfer dynion.[49]
    - Mae 8.9% o fenywod yng Nghymru yn economaidd anweithgar o gymharu â 21.5% o ddynion.[50]
    - O'r rhai sy'n economaidd anweithgar, mae 19.1% o fenywod yn anweithgar am eu bod yn gofalu am y teulu neu'r cartref o gymharu â 6.8% o ddynion.[51]

[48] https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/taskforce-for-the-valleys/our-valleys-our-future/?lang=cy Cyrchwyd 22.05.18
[49] Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2017 SYG *Gweithgarwch Economaidd yn ôl Rhyw ac ALl* Cyrchwyd drwy Nomis 30.09.17
[50] Ibid
[51] Ibid

- manteisio ar y potensial i greu swyddi yn yr economi sylfaenol, gan fod menywod yn fwy tebygol o weithio mewn nifer o sectorau yn yr economi sylfaenol
    - Mae 80% o weithwyr gofal cartref yng Nghymru yn fenywod[52], mae 80% o bobl a gyflogir mewn iechyd dynol a gwaith cymdeithasol yng Nghymru yn fenywod ac mae 69% o'r gweithlu addysg yng Nghymru yn fenywod.[53]
- gwella trafnidiaeth gyhoeddus i bobl sy'n gweithio oriau afreolaidd, gan fod menywod yn fwy tebygol o weithio rhan amser ac ar gontractau dim oriau
    - Mae 80% o'r holl swyddi rhan amser yng Nghymru yn cael eu dal gan fenywod, y mae 75% ohonynt ym maes gweinyddu, manwerthu a galwedigaethau elfennol.[54]

Dim ond os caiff gweithgareddau eu cynllunio a'u cyflwyno gan gadw rolau rhywiau ac anghydraddoldebau mewn cof y bydd yr ymyriadau hyn i fenywod yn sicrhau'r budd mwyaf posibl. Nid oes modd dweud a fydd hyn yn digwydd o ystyried y diffyg ffocws ar anghydraddoldeb rhywiol yn y cynllun cyflawni. Pe bai'r polisi a'r cynllun cyflawni yn cynnwys camau gweithredu a chanlyniadau penodol sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol, byddai hyn yn debygol o gael effaith ar ddulliau cyflawni'r rhai sy'n rhoi'r cynllun gweithredu ar waith.

Er enghraifft, gellid bod wedi darparu dadansoddiad yn ôl rhyw fel rhan o'r ymrwymiad i gau'r bwlch cyflogaeth rhwng Cymoedd y De a gweddill Cymru. Gellid rhoi ystyriaeth i unrhyw fwlch rhwng cyfraddau cyflogaeth ymhlith menywod yn y Cymoedd a gweddill Cymru, a ph'un a yw'r bwlch rhwng cyfraddau cyflogaeth dynion a menywod yn y Cymoedd yn wahanol i'r bwlch rhwng cyfraddau cyflogaeth dynion a menywod yng ngweddill Cymru. Gallai hyn lywio'r ymrwymiad i helpu 7,000 yn ychwanegol o bobl i gael gwaith teg, gan gynnwys targed o helpu mwy o fenywod i gael gwaith o bosibl.

Enghraifft arall yw'r ymrwymiad i ganolbwyntio ar ddefnyddio prosiectau seilwaith megis y Metro a'r A465 a symbylu'r farchnad ym maes STEM. O ystyried diffyg cynrychiolaeth ddigonol menywod yn y sectorau hyn - dim ond 11% o'r gweithlu peirianneg ac adeiladu sy'n fenywod - bydd unrhyw fuddsoddiad, swyddi neu gyfleoedd hyfforddiant ychwanegol yn fwy tebygol o fod yn fuddiol i ddynion.[55] At hynny, o ystyried pwysigrwydd cynyddu nifer y menywod sy'n gweithio yn y sectorau hyn fel modd i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac anghydraddoldeb economaidd menywod, gallai camau gweithredu yn hyn o beth gael eu harneisio i hyrwyddo cydraddoldeb. Nid oes unrhyw gamau gweithredu na thargedau cysylltiedig sy'n ymwneud yn benodol â rhywedd, sy'n awgrymu cyfle coll.

Er ei bod yn beth da gweld bod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gynnal mae'n canolbwyntio ar y gwaith ymgysylltu i lywio'r cynllun i raddau helaeth

[52] Gofal Cymdeithasol Cymru, *Datblygu cynllun strategol ar gyfer gofl a chymorth yn y cartref: adolygiad o lenyddiaeth*, Mawrth 2016.
[53] SYG *Swyddi'r gweithlu yn ôl diwydiant* 2018 drwy Nomis 25.05.18
[54] Parken et.al *Working Patterns in Wales: Gender, Occupations and Pay* 2014
[55] Cymdeithas Beirianneg y Merched *Ystadegau ar Fenywod mewn Peirianneg Ystadegau ar Fenywod mewn Peirianneg* 2018 / Llywodraeth Cymru *2016 Ystadegau Sectorau â Blaenoriaeth* 2017

ac nid yw'n cymhwyso llawer o waith dadansoddi beirniadol ar sail rhywedd ynglŷn â sut y bydd y camau gweithredu yn y cynllun yn effeithio ar ddynion a menywod neu'n hyrwyddo cydraddoldeb. Er bod ymgysylltu yn rhan bwysig o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r broses o ddatblygu polisïau, gallai dadansoddiad mwy beirniadol o'r effaith ar y rhywiau yn yr Asesiad fod wedi tynnu sylw at rai o'r cyfleoedd coll a nodir uchod.

Amlinellwn isod heriau penodol sy'n gysylltiedig â phob un o dair elfen y fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol yn ogystal â materion mwy cyffredinol o ran camau gweithredu, dangosyddion, adnoddau a gallu ac ymgysylltu.

### 4.2.1. Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru, fel yn achos cyrff cyhoeddus penodedig eraill a gwmpesir gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, gydymffurfio â dyletswyddau cyffredinol a phenodol Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Mae nifer o ddyletswyddau penodol ac yn eu plith mae'r gofyniad i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Maent oll yn rhyngweithio â'i gilydd a dylid eu hystyried gyda'i gilydd,

Nid yw'n glir a yw Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru yn cyflawni'r dyletswyddau penodol sy'n rhan o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

**<u>Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol</u>**

**Y gofyniad i bennu amcanion penodol ar nodweddion gwarchodedig yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

Mae'r rheoliadau mewn perthynas ag Amcanion Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys gofyniad i Lywodraeth Cymru [56]:

> *Cyhoeddi amcanion i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Os na fydd gan awdurdod amcan ar gyfer pob nodwedd warchodedig – yn ogystal ag unrhyw amcan i fynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog – rhaid iddo gyhoeddi ei resymau dros ei benderfyniad i beidio â gwneud hynny.*

Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio â chyhoeddi amcan mewn perthynas â phob un o'r nodweddion gwarchodedig. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol yn nodi:

---

[56] OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU 2011 Rhif 1064 (Cy.155) CYDRADDOLDEB, CYMRU Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

*Mae'r Amcanion Cydraddoldeb yn y Cynllun hwn yn berthnasol i bob un o adrannau'r llywodraeth, gan sicrhau nad yw cydraddoldeb a chynhwysiant yn cael eu gwthio i gorneli ar wahân ond eu bod yn gyfrifoldeb i bawb sy'n llunio polisïau. Mae'r Amcanion yn ymgorffori ymrwymiad pob Gweinidog i fynd i'r afael â'r pethau hynny sy'n rhwystro cydraddoldeb a chynhwysiant.*[57]

Mae rôl a swyddogaethau Llywodraeth Cymru yn gymhleth, yn amrywiol ac yn aml yn cael eu cyflawni ar hyd braich. Mae ei hamcanion yn ceisio cwmpasu cynifer o swyddogaethau'r Llywodraeth â phosibl ac maent yn cynnwys ystyriaeth o bob nodwedd warchodedig wrth wneud hynny.

Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnwys amcan penodol mewn perthynas â phob nodwedd nac esboniad clir pam nad yw'n gwneud hynny fel sy'n ofynnol yn y rheoliadau uchod. Efallai fod y dull gweithredu hwn yn helpu i sicrhau gwell ystyriaeth o'r ffordd y mae gwahanol nodweddion yn cydgyfeirio, ond mae risg y gallai hyn arwain at argymhellion aneglur sy'n cynnig llai o gyfle i fesur cynnydd o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldeb strwythurol.

**Gofynion i gyhoeddi Amcanion Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y gwahaniaeth cyflog a mynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi amcan cyffredinol mewn perthynas â chyflog a chyflog rhwng y rhywiau yn Amcan 3. Fodd bynnag, nid yw hwn yn amcan penodol mewn perthynas â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau, ac nid oes ychwaith unrhyw esboniad.

*Mae'n rhaid i gorff a restrir yng Nghymru:*

- *roi sylw dyledus i'r angen i lunio amcanion i fynd i'r afael ag achosion unrhyw wahaniaethau mewn cyflog yr ymddengys yn rhesymol debygol eu bod yn ymwneud ag unrhyw nodweddion gwarchodedig*
- *cyhoeddi amcan cydraddoldeb i fynd i'r afael ag unrhyw fwlch cyflog rhwng y rhywiau a nodwyd neu fel arall gyhoeddi rhesymau dros beidio â gwneud hynny*

*Hyd yn oed lle mae awdurdod yn cyhoeddi amcan cydraddoldeb i fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn cyflog mewn perthynas ag unrhyw nodwedd warchodedig, mae'n rhaid iddo roi sylw dyledus o hyd i'r angen i lunio amcanion cydraddoldeb eraill mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig honno. Os nad yw'n cyhoeddi unrhyw gyfryw amcan arall, bydd angen iddo esbonio pam nad yw wedi gwneud hynny.*

[57] Llywodraeth Cymru *Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb 2016–2020*

Er bod bwriad cyffredinol yr amcan yn cynnwys mynd i'r afael â chyflog rhwng y rhywiau, nid yw'r amcan yn benodol o ran yr hyn a gaiff ei wneud mewn perthynas ag ef. Mae Llywodraeth Cymru yn cael cyfleoedd i weithredu strategaethau i helpu i gau'r bwlch cyflog yng Nghymru, hyd yn oed os yw llawer o'r rheolaeth dros gamau a'u gweithredu y tu allan i'w rheolaeth. Mae'n cael cyfleoedd i annog eraill i weithredu mewn sectorau hollbwysig ac i fonitro effaith camau gweithredu a'r newid cyffredinol o ran y bwlch cyflog rhwng menywod a dynion.

Fel y'i hamlinellir yn yr adolygiad rhyngwladol o ymarfer addawol, y bwriad oedd mai Ddyletswydd Cydraddoldeb Benodol Cymru ar fylchau cyflog rhwng y rhywiau fyddai'r ddyletswydd gryfaf a mwyaf effeithiol o'r dyletswyddau penodol ar fylchau cyflog rhwng y rhywiau yn y DU.[58] Fodd bynnag, ym marn Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru cafodd y ddyletswydd ei drafftio'n wael, nid yw canlyniadau cyhoeddedig yn amlwg iawn ac mae gwaith monitro wedi bod yn wan.[59]

Mae cyfleoedd i ddysgu gan Reoliadau Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau y DU, sy'n cynnwys gofynion adrodd a chyhoeddi penodol iawn. Bu cryn dipyn o gydymffurfiaeth â'r terfyn amser adrodd cychwynnol, sef Ebrill 2018. Mae opsiynau hefyd i estyn y rhain i gynnwys elfennau o ddyletswydd bresennol Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddadansoddiad o gyflogaeth nodi'r hyn sy'n ysgogi bylchau cyflog a chynllun gweithredu.

## Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn ofyniad cyfreithiol i gyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cyfle cyfartal. Dyma'r dull allweddol y mae cyfraith achos wedi penderfynu ei fod yn rhoi tystiolaeth bod cyrff cyhoeddus wedi rhoi sylw dyledus. Mae llawer o'r rhai y gwnaethom siarad â nhw yn pryderu nad yw'r rhain yn cael eu cynnal yn briodol.

Mae asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn ddull allweddol o sicrhau cydymffurfiaeth, ac yn adnodd hollbwysig i ymgorffori safbwynt rhywedd mewn prosesau llunio polisïau. Mewn theori, dylai asesiadau gael eu cymhwyso ar bob cam o oes cylch polisi. Dylent ysgogi a thywys llunwyr polisïau i geisio tystiolaeth a'i chasglu a dylent fod yn elfen bwysig o gyngor polisi ochr yn ochr ag addasrwydd, cost a rheoli gwaith.

Yn anffodus, mae'r asesiadau hyn o'r effaith ar gydraddoldeb wedi tueddu i fynd yn ymarferion ticio blychau, o fewn Llywodraeth Cymru ac mewn cyrff cyhoeddus eraill; nid yw ymarfer sy'n seiliedig ar gydymffurfiaeth, ac nad yw'n cynnwys dadansoddiad manwl, yn cydymffurfio â gofynion y dyletswyddau penodol ynglŷn â gwybodaeth am gydraddoldeb ac ymgysylltu ac nid ydynt yn cael eu cynnal ar yr adeg briodol i ddylanwadu ar bolisïau a deddfwriaeth a'u llywio mewn ffordd ystyrlon.

58 Parken, A. (2018) 'Putting equality at the heart of decision-making in Wales', Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru: Caerdydd
59 Ibid

Canfu adroddiad gan CLlLC a GIG Cymru y gall asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb gael eu hystyried yn bethau cadarnhaol a negyddol.

> *"Ar y naill law, roedd y rhai a gafodd eu cyfweld yn credu bod perygl na fyddai cyrff cyhoeddus yn ystyried cydraddoldeb oni bai am y ddyletswydd a'i bod yn galluogi arweinwyr cydraddoldeb i wneud yn siŵr bod asesiadau'n cael eu cynnal. Ar y llaw arall, roedd teimlad y gallai gofyniad statudol gael effaith niweidiol ar asesiadau oherwydd bod sefydliadau'n eu cynnal am eu bod wedi'u gorfodi i wneud hynny, yn hytrach na'u hystyried fel rhywbeth sydd o werth i'r sefydliad. Gall hyn arwain at ystyried y broses fel un 'ticio blychau' yn unig.* [60]

Fel rhan o Gam Un, cynhaliwyd adolygiad cyflym o ddeddfwriaeth a pholisi strategol i ddadansoddi i ba raddau y mae rhywedd yn cael ei ystyried a'r cryfderau a'r gwendidau o safbwynt rhywedd. Ar y cyfan, nid yw asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb wedi cael eu cyhoeddi, o bosibl o ganlyniad i benderfyniad mai cyfyngedig fydd effaith y polisi. Fodd bynnag, nododd llawer o'r polisïau hyn y blaenoriaethau strategol mewn meysydd megis datblygu economaidd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol, ac mae ganddynt y potensial i chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol.

O ran yr asesiadau hynny o'r effaith ar gydraddoldeb sydd ar gael, mae pryderon nad yw hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a merched wedi cael ei ystyried, bod diffyg meddwl am gydgyfeiradedd ac ymateb dryslyd i ddeall trais yn erbyn menywod fel rhywbeth sy'n achosi anghydraddoldeb rhywiol ac sy'n deillio ohono.

**Astudiaeth Achos: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb *Ein Cymoedd Ein Dyfodol***

Mae hwn yn un o'r ychydig bolisïau neu gynlluniau gweithredu diweddar a gyhoeddodd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Mae'r asesiad yn amlinellu ymgysylltu sylweddol â gwahanol grwpiau fel rhan o'r broses o ddatblygu polisïau. Mae hefyd yn addawol gweld bod yr asesiad eisoes wedi cael ei adolygu a bod dyddiad clir wedi'i bennu i'w adolygu eto wrth i'r cynllun cyflawni gael ei roi ar waith.

Fodd bynnag, y tu hwnt i drafod ymgysylltu, cyfyngedig yw'r dadansoddiad beirniadol o'r effaith ar y rhywiau yn yr asesiad hwn. Mae diffyg data wedi'u dadgyfuno yn yr asesiad ac mae'r drafodaeth ar rywedd yn canolbwyntio'n bennaf ar y gwaith ymgysylltu yn hytrach nag effaith debygol gwahanol gamau gweithredu.

[60] Adolygiad o'r modd y defnyddir Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb yn y Sector Cyhoeddus http://www.cydraddoldebhawliaudynol.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1120/adroddiad-adolygiad-or-modd-y-defnyddir-asesiadau-effaith-ar-gydraddoldeb-yn-y-sector-cyhoeddus1.pdf

Fel y'i hamlinellir yn y drafodaeth ar *Ein Cymoedd Ein Dyfodol* o dan 4.2 uchod, mae gwahanol ddarnau o ddata y dylid eu hystyried, yn ein barn ni, er mwyn sicrhau ystyriaeth ddigonol o rywedd yn yr asesiad hwn.

**Astudiaeth Achos: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb *y Bil Cyllido Gofal Plant***

Er ei bod wedi mynd yn llai cyffredin i asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb gael eu cyhoeddi ochr yn ochr â dogfennau polisi, strategaethau a chynlluniau gweithredu, caiff asesiad ei gyhoeddi ar y cyd â'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth. Yn fwyaf diweddar cyhoeddwyd un ar gyfer y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru), a fydd yn rhoi'r pwerau angenrheidiol i Weinidogion Cymru weithredu system gwirio cymhwysedd ar gyfer y gofal plant newydd a gynigir.

Er mai darn technegol o ddeddfwriaeth ydyw ar y cyfan, bydd yn hollbwysig i weithredu'r cynnig newydd yn effeithiol, sy'n cynnwys nod polisi allweddol o gynyddu cyfran y rhieni, yn enwedig mamau, sy'n gweithio. Er gwaethaf y nod polisi cyffredin hwn, a'r data sy'n dangos mai menywod sy'n ymgymryd â'r brif rôl gofalu yn y rhan fwyaf o aelwydydd ar hyn o bryd ac sydd felly'n lleihau eu horiau gwaith neu'n rhoi'r gorau i weithio'n gyfan gwbl, mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi na fyddai effaith gadarnhaol na negyddol ar ddynion nac ar fenywod. Y rheswm a roddwyd yw y bydd y cynllun ar gael i bawb. Mae ymgais bosibl i fod yn niwtral o ran y rhywiau wedi arwain at fod yn ddall o ran rhywedd mewn gwirionedd.

Drwy fabwysiadu ymagwedd fwy cydgyfeiriadol tuag at ddadansoddi hefyd byddai wedi ei gwneud yn bosibl i asesu a gaiff menywod o oedran penodol, neu grwpiau ethnig penodol fudd os bydd mwy o bobl yn hawlio gofal plant.

Elfen arall y gellid bod wedi'i hystyried fyddai'r effaith gadarnhaol bosibl ar ferched hŷn, sydd ar hyn o bryd yn ysgwyddo baich ychwanegol drwy ddarparu gofal plant anffurfiol, drwy gynyddu'r defnydd o ofal plant ffurfiol yn lle hynny.

Mae asesiadau o effaith cyllideb Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb hefyd wedi bod yn anghyson. Cyn 2015, pan newidiwyd Asesiad Integredig Strategol o'r Effaith, cyhoeddwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ochr yn ochr â phob Cyllideb Ddrafft. Er nad oedd yr asesiadau eu hunain ar gael yn ystod y cam hwn o'r adolygiad, mae gwaith craffu Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol ar y gyllideb rhwng 2012 a 2016 yn dangos anghysondeb o'r fath. Yn 2012 a 2014, roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, yn 2013, beirniadwyd y penderfyniad i beidio â chynnal asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb gan y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Mae'n werth nodi, yn 2015 a 2016, ar ôl cyflwyno'r Asesiad Integredig Strategol o'r Effaith, i drafodaeth lawer mwy cyfyngedig gael ei chynnwys yn yr adroddiadau gan y Pwyllgor Cyllid. Ers 2016, mae gwaith craffu ar yr asesiad o'r effaith wedi canolbwyntio ar gysoni â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hytrach nag ar ystyried cydraddoldebau.

**Asesiad Integredig Strategol o Effaith Cyllideb Llywodraeth Cymru**

Ers 2015, cymhwyswyd Strategaeth Integredig Strategol o Effaith at Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Ei nod yw dwyn ynghyd wahanol asesiadau o'r effaith y mae'n rhaid eu cynnal, gan gynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, ac amlinellu sut y cafodd gwariant ei lywio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'n rhaid croesawu'r nod o well integreiddio ond, yn ymarferol, mae'r Asesiad Integredig Strategol o'r Effaith wedi arwain at drafodaeth fwy cyfyngedig ar yr effaith ar gydraddoldeb, heb fawr ddim dadansoddiad beirniadol o safbwynt rhywedd. Mae'r diffyg manylder hwn wedi cael ei feirniadu sawl tro gan y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cydraddoldebau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn fwyaf diweddar, argymhellodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y dylai Llywodraeth Cymru ddychwelyd at asesiad manwl o'r effaith yn y dyfodol yn unol ag argymhellion ei bwyllgor rhagflaenol, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac arfer da rhyngwladol.[61]

**Yr Asesiad Integredig Strategol o Effaith Cyllideb Ddrafft 2017-2018**
Mae'r asesiad hwn yn dangos dadansoddiad beirniadol cyfyngedig o benderfyniadau gwariant.[62]

Er enghraifft, mae trafodaeth ar wariant ar brentisiaethau yn methu â sôn am yr angen – a'r nod polisi – i wella'r cydbwysedd rhyw mewn rhai meysydd o brentisiaethau. Nid yw'n nodi y gall y penderfyniad i ariannu Lefel 3 ac uwch yn bennaf gael effaith negyddol ar y rhai sy'n tueddu i astudio ar lefelau is, sy'n cynnwys menywod mewn fframweithiau iechyd a gofal cymdeithasol a gwallt a harddwch. At hynny, mae'n nodi effaith gadarnhaol bosibl ar BME gan fod rhai o'r grwpiau hyn yn fwy tebygol o fod mewn tlodi ond mae'n methu â nodi diffyg cynrychiolaeth ddigonol pobl BME, sy'n hysbys iawn, ar lwybrau prentisiaethau.

Mae hefyd yn methu â sôn am y cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb drwy'r gofal plant newydd a gynigir, drwy fynd i'r afael â gofal plant fel rhwystr, a brofir gan fenywod gan amlaf, a hynny er bod effaith y rhaglen o ran rhywedd yn un o nodau'r polisi ei hun.

**Yr Asesiad Integredig Strategol o Effaith Cyllideb Ddrafft 2018-2019**
Mae'r asesiad hwn, er ei fod yn dangos gwelliant mewn rhai meysydd megis nodi effaith gadarnhaol gwariant gofal plant ar fenywod, yn dal i ddangos dadansoddiad cyfyngedig o'r effaith.[63]

Er enghraifft, mae'n nodi bod rhai grwpiau gwarchodedig yn fwy tebygol o fod yng nghategori incwm is na'r cyfartaledd ac felly eu bod cael budd o ddefnyddio trethi i ariannu gwasanaethau cyhoeddus, ond nid yw'n nodi pa grwpiau. Nid oes unrhyw sôn o hyd am yr anghydraddoldeb o fewn prentisiaethau ac nid yw ychwaith yn nodi potensial y Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogaeth Foesegol i hyrwyddo cydraddoldeb, o ystyried mai menywod yn bennaf sy'n gweithio mewn

[61] Pwyllgor Cydraddoldebau, Llywodraeth Leol a Chymunedau *Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-2019* 2017
[62] Llywodraeth Cymru *Cyllideb Ddrafft 2017-2018 Symud Cymru Ymlaen* 2016
[63] Llywodraeth Cymru *Cyllideb Ddrafft 2018-2019 Cynigion Amlinellol* 2017

gwasanaethau sydd wedi'u gosod ar gontractau allanol lle mae arferion cyflogaeth gwael yn gyffredin, megis glanhau, arlwyo a gofal.

Mae'r problemau parhaus gyda'r Asesiad Integredig Strategol o'r Effaith yn awgrymu bod hon yn broblem sylweddol y mae angen mynd i'r afael â hi. Mewn cymhariaeth, mae Llywodraeth yr Alban yn paratoi Datganiad Cyllideb llawer mwy cynhwysfawr ar Gydraddoldeb ochr yn ochr â phob cyllideb ddrafft. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob cyllideb adrannol. Er na chynhaliwyd dadansoddiad manwl o'r Datganiad Cyllideb ar Gydraddoldeb yn ystod yr adolygiad hwn, mae cipolwg ar ddatganiad 2018-2019 yn awgrymu dadansoddiad llawer mwy manwl o effeithiau penderfyniadau gwariant ar gydraddoldeb, ystyriaeth o'r ffordd y gall gwariant hyrwyddo cydraddoldeb a manylion camau gweithredu i liniaru penderfyniadau a allai, fel arall, gael effaith gyfyngedig, e.e. gosod disgwyliadau a gofynion ar gyllid i Scottish Enterpise a chynghorau er mwyn ystyried cydraddoldeb a gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol.[64]

**Adnodd asesu effaith integredig**

Mae gwaith yn mynd rhagddo yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu adnodd asesu effaith integredig. Gan gyfeirio at ganfyddiadau adroddiad Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru *Reducing Complexity and Adding Value: A Strategic Approach to Impact Assessment in the Welsh Government* (Chwefror 2016), mae'r adnodd newydd yn ceisio dwyn ynghyd 21 o'r asesiadau o'r effaith sy'n bodoli eisoes yn un adnodd. Y gobaith yw y bydd yr adnodd hwn yn fwy hygyrch, ac y bydd yn annog cynnal asesiadau o'r effaith ar ddechrau'r broses o lunio polisi, yn hytrach nag ar y diwedd, sef yr hyn sy'n tueddu i ddigwydd ar hyn o bryd. Cydnabyddir y dylai asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb annog gwaith casglu tystiolaeth a dadansoddi beirniadol drwy gydol y broses, ond nid yw hyn yn digwydd bob amser mewn gwirionedd. Y gobaith yw y bydd yr adnodd yn helpu i ysgogi'r newid diwylliannol sydd ei angen i sicrhau bod asesiadau o'r effaith yn ystyrlon. O ystyried amseriad Cam Un yr adolygiad, nid oedd modd ystyried yr adnodd newydd ond yn ystod Cam Dau bydd angen ystyried p'un a yw'r adnodd newydd yn rhoi ystyriaeth ddigonol i rywedd a bydd angen i asesiad o effaith yr adnodd newydd ar feddylfryd gael ei werthuso.

Yn ystod Cam Dau, bydd angen inni ystyried ymhellach gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r broses o dreialu'r adnodd asesu integredig.

Mae asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn ddwy elfen o Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru.

[64] Llywodraeth yr Alban *Equality Statement Scottish Draft Budget 2018-2019*

### 4.2.2. Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Bu oedi wrth gyflwyno'r Ddeddf, gyda phroses weithredu araf ond mae ymrwymiad clir gan Arweinydd y Tŷ i gyflymu'r broses a sicrhau bod amserlen ar waith. Yn 2016, cynhaliodd Pwyllgor Cydraddoldebau, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymchwiliad craffu ar ôl y broses ddeddfu i'r ffordd roedd y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael ei gweithredu. Canfu'r ymchwiliad bryderon ynghylch "cyflymder a chysondeb rhoi'r Ddeddf ar waith, yn arbennig o ran cyhoeddi canllawiau statudol, adnoddau a'r galw am wasanaethau, a chysoni gofynion y Ddeddf gyda deddfwriaeth arall.[65] Ysgrifennodd Cadeirydd y pwyllgor, John Griffiths, yn ddiweddar at y Gweinidog Cydraddoldebau ynglŷn â phryderon y pwyllgor o hyd ynghylch y broses araf o roi'r ddeddf ar waith.[66]

Pwysleisiodd ein rhanddeiliaid bwysigrwydd gweithredu'r ddeddfwriaeth yn effeithiol. Wrth drafod mater trais yn erbyn menywod, soniodd rhanddeiliaid am "ddiwylliant o anghrediniaeth" lle nad yw'r awdurdodau yn credu rhywun sy'n rhoi gwybod am aflonyddu neu ymosodiad rhywiol fel mater o drefn; agwedd nad yw'n cael ei gweld pan roddir gwybod am droseddau eraill, megis dwyn. Nod y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yw ceisio cyflwyno'r newid diwylliannol sydd ei angen i sicrhau nad felly y mae, ond dim os caiff ei gweithredu mewn ffordd effeithiol ac effeithlon y gall wneud hynny.

Mae'r Ddeddf yn ddeddfwriaeth bwysig yng Nghymru er mwyn mynd i'r afael yn benodol â'r her sy'n gysylltiedig â sicrhau cydraddoldeb rhywiol. Mae rhoi'r Ddeddf ar waith yn allweddol i hyrwyddo nodau'r adolygiad a gwneud Cymru yn lle cyfartal a diogel i fenywod a merched. Dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ei hymdrechion ar gyflymu'r broses o roi'r Ddeddf ar waith a chyhoeddi dangosyddion cenedlaethol i fonitro cynnydd.

### 4.2.3. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r Ddeddf yn cael effaith gadarnhaol. Mae'n cynnig fframwaith clir a diriaethol a'r pum ffordd o weithio, y teimlir eu bod yn newid y ffordd yr ymdrinnir â pholisïau. Er bod gwaith yn mynd rhagddo o hyd, mae'r broses o ymgorffori egwyddorion y Ddeddf ar gam datblygedig yn Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus.

Fodd bynnag, mae pryderon gan randdeiliaid nad yw'r Ddeddf yn hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol cymaint ag y dylai, gyda mwy o ffocws ar yr elfennau economaidd ac amgylcheddol o'r Ddeddf. Mae hyn yn ategu canfyddiadau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol:

---

[65] Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
*A yw Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gweithio?*
Craffu ar ôl y broses ddeddfu Rhagfyr 2016 http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10863/cr-ld10863%20-%20w.pdf
[66] http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s72655/ELGC5-07-18%20Papur%2010%20-%20Gohebiaeth%20gan%20Arweinydd%20y%20T%20ar%20Prif%20Chwip.pdf

*Yn ogystal â chynnydd sy'n symud yn bwyllog, mae yna rai sy'n rhwystredig o araf, ac weithiau mae gweithredu araf gynnydd yn digwydd, megis dewis diffinio llesiant yn gyson fel rhywbeth sy'n ffocysu'n unig ar werth economaidd, megis swyddogion yn mabwysiadu asesiadau effaith ar gyfer y Ddeddf nad ydynt yn annog gwelliant – heb wneud mwy na thicio blychau, a rhagdybio ein bod 'eisoes yn gwneud hyn' – pan, wrth edrych ar ein dangosyddion cenedlaethol a'n llesiant fel gwlad, mae'n amlwg nad ydym.* [67]

Er bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys y nod creiddiol o 'Gymru sy'n fwy cyfartal', ni chaiff hyn ei adlewyrchu yng nghanllawiau'r Ddeddf nac o fewn amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Ymddengys bod symud i ffwrdd o'r bwriadau a gyfleir yn fwy clir i roi terfyn ar anghydraddoldeb yn Nyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru neu'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i fwriadau ehangach a all fod yn aneglur, ac nad ydynt yn cynnig ffordd o fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau strwythurol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yng Nghymru.

Cyhoeddwyd Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol, sef Canllawiau Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i helpu cyrff cyhoeddus i gydymffurfio â'r Ddeddf ond nid oes fawr ddim cyfeiriad at y nod o Gymru sy'n fwy cyfartal. Mae'r canllawiau statudol yn defnyddio llawer o enghreifftiau i esbonio'r cysylltiadau â datblygu cynaliadwy yng nghyd-destun yr amgylchedd ond mae diffyg enghreifftiau clir a chanllawiau ar y cysylltiadau â chydraddoldeb, grymuso menywod neu drais yn erbyn menywod.

Er enghraifft, mae'r canllawiau yn nodi heriau cyffredinol y bydd Cymru yn eu hwynebu i gyflawni'r nodau llesiant, sef tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Ni nodwyd her drawsbynciol a difrifol anghydraddoldeb rhywiol yng nghanllawiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Felly, nid oes blaenoriaeth ar bennu amcanion llesiant sy'n ymateb i unrhyw anghydraddoldebau, gan gynnwys anghydraddoldeb rhywiol.

***Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol***

Mae *Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol* yn nodi blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer tymor 2016-2021. Fel y strategaeth gyffredinol, sy'n tywys holl waith y llywodraeth, mae'n hanfodol bod gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael eu cymhwyso a bod y nodau yn cael eu hintegreiddio.

Mae *Ffyniant i Bawb* wedi cael ei chysoni'n agos â'r nodau a'r amcanion llesiant, ond mae gwendidau yn y dull gweithredu a fabwysiadwyd a allai lesteirio uchelgeisiau i gyflwyno llywodraeth ffeministaidd.

[67] Llesiant yng Nghymru: y siwrnai hyd yn hyn, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Mai 2018 https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2018/05/2018-05-10-FGCW-1-year-Report-_Welsh.pdf

Yn gyntaf, nid oes unrhyw amcanion llesiant cenedlaethol sy'n anelu'n benodol at sicrhau cydraddoldeb rhywiol a grymuso menywod. Cafodd yr amcanion eu datblygu gan dybio y bydd yr effaith yn bellgyrhaeddol ac felly nid ydynt yn cynnwys blaenoriaeth i weithio tuag at gydraddoldeb rhywiol. Mae'r datganiad Llesiant yn cynnwys dadansoddiad o'r ffordd y bydd amcanion llesiant Llywodraeth Cymru yn gwneud prif gyfraniad at y nodau llesiant cenedlaethol.[68] Mae hyn yn dangos bod bwriad amlwg i wneud Cymru yn wlad fwy cyfartal ond mae'r camau gweithredu yn eang ac wedi cael eu datblygu gan dybio y bydd effaith llifo i lawr. Nid yw hyn yn ymdrin â'r anghydraddoldebau cynhenid sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn, sy'n gofyn am ddull gweithredu wedi'i deilwra er mwyn estyn allan i bobl a dileu rhwystrau strwythurol sy'n creu Cymru sy'n anghyfartal.

Er mwyn asesu effaith *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol* mae dogfen naratif sy'n trafod pob un o'r pedair thema allweddol a'r themâu trawsbynciol er mwyn asesu'r effaith ar gydraddoldebau, hawliau dynol, hawliau plant, y Gymraeg, newid yn yr hinsawdd, prawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad, iechyd, bioamrywiaeth a datblygu economaidd. Nid yw'n amlwg a yw'r asesiad hwn o'r effaith wedi ystyried y dyletswyddau penodol mewn asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Yn yr asesiad o'r effaith mae diffyg dadansoddiad o ystod profiad menywod neu'r anghydraddoldebau strwythurol cydgyfeiriadol hefyd. Mae'r gwerthusiad hwn o'r effaith yn canolbwyntio ar dlodi, gyda rhywfaint o ddealltwriaeth o effaith tlodi ar bobl yng Nghymru ond gallai fynd ymhellach i nodi'r effaith ar gydraddoldeb rhywiol. Er enghraifft, dim ond wrth drafod cyflogaeth a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, rôl mamau i hybu iechyd eu teuluoedd a phwysigrwydd y blynyddoedd cynnar a chymorth i ferched beichiog a mamau ifanc y mae'r effaith ar fenywod a merched wedi'i nodi. Mae hon yn farn gul ar yr anghydraddoldeb strwythurol y mae menywod a merched yn ei wynebu.

Mae hefyd yn methu â chyfleu a hyrwyddo nodau ac uchelgeisiau'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, integreiddio'r gofynion yn y Ddeddf Cydraddoldeb neu nodi camau gweithredu penodol sy'n mynd i'r afael â'r Nod Llesiant o "Gymru sy'n fwy cyfartal".

### 4.2.4. Camau Gweithredu a Dangosyddion

Mae gofyniad cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus a restrir i ystyried hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol. Fodd bynnag, mae patrwm o ddiffyg uchelgais yn hyn o beth yn dechrau dod i'r amlwg. Mae cynlluniau gweithredu a dangosyddion ar gyfer pob un o'r tair dyletswydd statudol (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) yn aml yn aneglur ac yn achosi anawsterau o ran olrhain cynnydd. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd deall effaith y ddeddfwriaeth, yn enwedig o ran canlyniadau i bobl yng Nghymru. Mae hyn yn amlwg mewn amcanion cenedlaethol a lleol.

Er enghraifft, mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru yn rhestru nifer o gamau gweithredu allweddol i'w cymryd a'u monitro gan Lywodraeth Cymru

[68] Cyhoeddwyd *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol – Datganiad llesiant* https://gov.wales/docs/strategies/170919-well-being-statement-cy.pdf

ond nid yw'r rhain yn cynnwys amserlen na dangosyddion clir. Felly, mae'n anodd asesu effaith y cynllun cydraddoldeb ac i ba raddau y mae'r amcanion yn cael eu cyflawni. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu dangosyddion cenedlaethol ar hyn o bryd:

> *"Rydym wrthi'n datblygu cyfres gynhwysfawr o ddangosyddion cydraddoldeb, a hynny ar sail dangosyddion cenedlaethol pan fydd hynny'n briodol. Rydym yn cydnabod bod y data'n gyfyngedig yn sgil maint bychan samplau yng Nghymru, ac felly nid yw wastad yn bosibl rhannu data yn ôl ethnigrwydd ac anabledd, er enghraifft. Rydym wedi ymrwymo i adolygu ein dangosyddion cydraddoldeb wrth i'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol esblygu a newid.* [69]

Mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn amlinellu chwe amcan gyda rhestr o gamau gweithredu allweddol i'w cymryd ond nid oes unrhyw gynllun gweithredu nac amserlen ar hyn o bryd ac mae'r camau gweithredu yn aneglur. Er enghraifft, o dan amcan pedwar "gweithio ar draws y Llywodraeth a chyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a'u prif ffrydio er mwyn sicrhau bod ymyrryd yn gynnar ac atal yn digwydd yn gyson a'u bod yn arfer craidd ar hyd a lled Cymru".[70]

Canfu adroddiad diweddar gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd nad oedd amcanion llesiant lleol yn ddigon uchelgeisiol. Canfu'r adroddiad nad oedd yr amcanion wedi'u cysylltu â'r camau gweithredu gwirioneddol i'w cymryd. Er enghraifft, roedd amcanion ynglŷn â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn eang ac yn aneglur o ran atal profiadau o'r fath gyda diffyg manylion am y camau gweithredu sydd angen eu cymryd, gan gynnwys integreiddio'r broses o gomisiynu gwasanaethau cam-drin domestig.[71]

Mae diffyg targedau a chamau gweithredu diriaethol hefyd yn thema sy'n dod i'r amlwg ym mholisïau mwyaf diweddar Llywodraeth Cymru. Er bod llawer o'r rhain yn gynlluniau gweithredu strategol cyffredinol, a gaiff eu hategu gan ragor o gynlluniau a rhaglenni cyflawni, mae pryder o hyd nad oes mesurau mwy diriaethol o lwyddiant wedi cael eu cynnwys. Mae hyn yn cyfyngu ar y gwaith o olrhain cynnydd a chraffu'n effeithiol.

**Troi rhethreg yn weithredoedd: Y Cynllun Gweithredu Economaidd a'r Cynllun Cyflawni Cyflogadwyedd**

Cyhoeddwyd *Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu economaidd* [72] yn 2017. Mae'n amlinellu blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru i adeiladu economi ar sylfeini cadarn ac mae'n newid cyfeiriad oddi wrth strategaethau economaidd blaenorol, gan ganolbwyntio ar lai o sectorau â blaenoriaeth, buddsoddi yn yr economi sylfaenol a cheisio sicrhau buddsoddi ac iddo ddiben cymdeithasol.

[69] https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/180319-annual-report-2016-17-cy.pdf
[70] https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/161104-national-strategy-cy.pdf
[71] ibid
[72] https://gov.wales/topics/businessandeconomy/economic-action-plan/?lang=cy Cyrchwyd 22.05.18

Cyhoeddwyd *Ffyniant i Bawb: Cynllun Cyflogadwyedd*[73] yn 2018. Mae'n amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru i addysgu, hyfforddi a pharatoi pobl ar gyfer gwaith a dileu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael gwaith.

Mae'r rhain yn ddau o'r polisïau mwyaf diweddar a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys elfennau craidd cyflawni *Ffyniant i Bawb: Y strategaeth genedlaethol*.[74] Mae'r ddau yn cynnwys trafodaeth ar gydraddoldeb rhywiol.

Mae'r Cynllun Gweithredu Economaidd yn trafod yr angen i fynd i'r afael ag achosion anghydraddoldeb rhywiol, yn ymrwymo o'r newydd i wella gofal plant fel modd i wella cyfleoedd cyflogaeth i rieni sy'n gweithio, yn enwedig menywod, ac yn trafod yr angen i fynd i'r afael â stereoteipiau rhywiol a chau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae'r materion hyn wedi'u llunio fel elfen angenrheidiol o ddatblygu economaidd er mwyn sicrhau twf cynhwysol.

Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd yn nodi y caiff gwaith ei wneud i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a sicrhau bod gwaith rhan amser yn cael cydnabyddiaeth gyfartal a bod menywod yn cael cynrychioliaeth ddigonol ar lefelau uwch. Mae'n nodi y caiff gwahaniaethau rhwng sectorau a galwedigaethau eu dadansoddi, y caiff sefydliadau addysgol eu hannog i wneud rhagor i ddenu menywod i astudio cyrsiau mewn sectorau â blaenoriaeth ac y caiff ystyriaeth ei rhoi i dargedau os bydd cynnydd yn rhy araf. Mae hefyd yn cydnabod bod canlyniadau'r farchnad lafur yn wahanol i fenywod, ac yn nodi'r bwlch cyflog o hyd rhwng y rhywiau fel her allweddol. Fodd bynnag, nid oes fawr ddim trafodaeth am nodweddion gwarchodedig eraill na'r ffordd y gallai'r rhain gydgyfeirio â rhyw, gan achosi rhagor o anfantais.

Mae'r drafodaeth hon am rywedd yn gadarnhaol o ystyried yr effaith y bydd y cynlluniau hyn yn ei chael ar fywydau menywod. Mae rhywedd yn cael ei drafod ar wahân ond ym mhob un o'r cynlluniau. Mae gan y naill bolisi a'r llall y potensial i hyrwyddo cydraddoldeb ac ymddengys bod hyn wedi'i gydnabod. Er enghraifft, mae buddsoddiad yn yr economi sylfaenol yn cynnig cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb; mae menywod yn fwy tebygol o weithio mewn sectorau megis gofal a manwerthu, a chael eu dal mewn gwaith cyflog isel o ganlyniad i'r llwybrau dilyniant gwael yn y sectorau hyn. Yn yr un modd, mae'r Cynllun Cyflogadwyedd yn ymrwymo i ddull cyflawni unigoledig, ochr yn ochr â diffiniad eang o gyflogadwyedd, sy'n cynnwys ystyried priodoleddau personol megis hyder ac uchelgais a materion megis gofal plant ac argaeledd gwaith hyblyg, ochr yn ochr â sgiliau a phrofiad.

Fel gyda pholisïau eraill a'u hasesiadau o'r effaith, cyfyngedig yw'r ystyriaeth o'r ffordd y gall rhywedd gydgyfeirio â nodweddion eraill. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Cyflogadwyedd yn cynnwys trafodaeth am yr heriau a wynebir gan bobl BME a phobl anabl, gydag ymrwymiad i gymryd camau megis creu gweithleoedd mwy hyblyg.

[73] https://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/employability-plan-for-wales/?lang=cy Cyrchwyd 22.05.18
[74] https://gov.wales/about/programme-for-government/?lang=cy Cyrchwyd 22.05.18

Er bod y rhethreg yn y cynlluniau hyn yn gadarnhaol, nid ydynt yn cynnwys camau gweithredu penodol i amlinellu'r ffordd y caiff yr uchelgeisiau hyn eu cyflawni na'r ffordd y caiff llwyddiant ei fesur. Mae gan y Cynllun Cyflogadwyedd dargedau, ond nid yw'r rhain yn cynnwys data wedi'u dadgyfuno ar sail rhyw i ddangos cynnydd na thargedau sy'n benodol i rywedd. Er bod y Cynllun Cyflogadwyedd yn nodi y caiff data wedi'u dadgyfuno eu defnyddio i fesur llwyddiant nid yw'n amlinellu beth fydd y dangosyddion penodol hyn. Caiff y Cynllun Gweithredu Economaidd ei werthuso drwy ddefnyddio'r dangosyddion cenedlaethol, sy'n cynnwys y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a gofyniad i gyflwyno data wedi'u dadgyfuno lle bynnag y bo hynny'n rhesymol.[75] Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yn anodd cyfateb gwelliannau yn y Dangosyddion Cenedlaethol i gamau gweithredu penodol mewn un cynllun ac mae problemau o ran y data sydd wedi cael eu cyhoeddi hyd yma.

Hefyd, ymddengys nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y naill gynllun na'r llall ar-lein.

Un rhan o'r sail resymegol dros yr adolygiad hwn o gydraddoldeb rhywiol yw sicrhau y caiff bwriadau Llywodraeth Cymru eu troi'n weithredoedd. Mae'n anodd canfod sut y bydd hyn yn digwydd pan fo cynlluniau gweithredu nad ydynt yn cynnwys llawer o fanylion ac a fydd, o ganlyniad, yn rhwystr i atebolrwydd.

Er mwyn mesur cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant cenedlaethol, cyhoeddwyd cyfres o 46 o Ddangosyddion Llesiant Cenedlaethol mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Cymerwyd camau i sicrhau bod y dangosyddion hyn yn mesur cynnydd yn ddigonol ar gyfer pob nod, gan gynnwys Cymru sy'n fwy cyfartal, ac maent yn cynnwys y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae'r canllawiau technegol hefyd yn nodi pa ddata y gellir eu dadgyfuno yn ôl grŵp cydraddoldeb. Er nad yw hyn yn gyfreithiol gyfrwymol, mae'n creu disgwyliad y bydd y data hynny y gellir eu dadgyfuno yn cael eu dadgyfuno. Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad ar gynnydd bob blwyddyn. Cyhoeddwyd yr adroddiad Llesiant cyntaf o'r fath yn 2018. Fodd bynnag, ymddengys nad yw'r adroddiad hwn yn cynnwys data ar gyfer pob un o'r 46 o ddangosyddion ac o ran y dangosyddion y mae'r canllawiau statudol yn datgan y gellir cyflwyno data wedi'u dadgyfuno ar eu cyfer, dim ond ar gyfer rhai ohonynt y mae data o'r fath wedi'u cyflwyno.

Er enghraifft, mae'r canllawiau technegol yn datgan y gall data ar gyfer Dangosydd 16: canran y bobl sydd mewn gwaith, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy'n ennill mwy na 2/3 o gyflog canolrifol y DU gael eu dadgyfuno yn ôl grŵp cydraddoldeb.[76]

Yn yr Adroddiad Llesiant Blynyddol *Llesiant Cymru*, ni chaiff hyn ei gyflwyno gyda data wedi'u dadgyfuno yn ôl rhyw.[77] Mae i hyn oblygiadau o ran polisïau diweddar, a gaiff eu mesur drwy ddefnyddio'r Dangosyddion Cenedlaethol - mae'r cynllun gweithredu economaidd yn cynnwys ffocws ar dwf cynhwysol a gwaith teg. Bydd y

[75] Llywodraeth Cymru *Sut mae mesur cynnydd cenedl? Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru: Dogfen Dechnegol* 2016
[76] Llywodraeth Cymru *Sut mae mesur cynnydd cenedl? Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru: Dogfen Dechnegol* 2016
[77] Llywodraeth Cymru, *Llesiant Cymru 2016-2017*

dangosydd hwn yn fesur pwysig o effaith gweithgarwch i wella darpariaeth gwaith teg. Os na chaiff ei ddadgyfuno yn ôl rhyw, bydd yn anodd cadarnhau'r effaith.

Er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol mae'n hanfodol gwella'r data a ddarperir, megis y data a gynhyrchir yn erbyn dangosyddion llesiant. Nodwyd bod cyhoeddi data hygyrch a diddorol yn ffactor llwyddiant yn y dadansoddiad o ymarfer addawol rhyngwladol gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Mae'n rhaid gwella data fel y data a gyhoeddir yn yr adroddiad llesiant er mwyn sicrhau gwaith craffu effeithiol ond hefyd fel rhan o weithgarwch i ennyn diddordeb cynulleidfaoedd ehangach yn yr agenda cydraddoldebau. Cyfeiriodd rhanddeiliaid yn gyson at ddata fel her allweddol, gan nodi problemau gyda data cyfyngedig sy'n benodol i Gymru a data wedi'u dadgyfuno. Un opsiwn i'w ystyried er mwyn mynd i'r afael â hyn yw gweithio tuag at ddata agored fel mater o drefn. Gallai fod cyfle hefyd i ystyried a yw'r cydbwysedd yn gywir rhwng cyhoeddi ffigurau a datganiadau a gwaith dadansoddi data sy'n cynnig dealltwriaeth fwy cynnil o'r data.

Heb gamau gweithredu na dangosyddion CAMPUS i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol mewn polisïau yng Nghymru, bydd yn amhosibl olrhain cynnydd yn effeithiol, a chyfyngedig fydd yr atebolrwydd. Mae'n hanfodol bod cynlluniau ac amcanion yn cael eu paratoi ar lefel genedlaethol a lleol sy'n cynnwys camau gweithredu clir i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol a galluogi gwaith craffu a monitro tryloyw ac effeithiol. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos arweinyddiaeth yn y maes hwn.

Dylai Cam Dau gynnwys gweithgarwch i adolygu cynlluniau ac amcanion a baratoir o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gan bob corff cyhoeddus.

### 4.2.5. Adnoddau a Gallu

Mae adnoddau a gallu yn hanfodol i gefnogi prosesau llunio polisïau a gwneud penderfyniadau sy'n effeithiol ac yn ymatebol o ran rhywedd. Mae'r adolygiad o ymarfer addawol rhyngwladol yn dangos, o ran y gwledydd hynny sy'n perfformio orau yn erbyn mynegeion rhyngwladol ar gyfer cydraddoldeb, fod eu llywodraethau yn aml wedi rhoi nifer o strwythurau, adnoddau a phecynnau cymorth cefnogol ar waith.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi llawer o adnoddau ar waith, wedi'u hategu gan y rhai a gynhyrchwyd gan gyrff allanol megis y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae cyfres gymharol gynhwysfawr o gyfleoedd hyfforddiant i swyddogion yn Llywodraeth Cymru hefyd er mwyn iddynt ddeall sut y dylid defnyddio asesiadau o'r effaith ac ymgynghoriadau fel rhan o'r broses o ddatblygu polisïau ynghyd â hyfforddiant gorfodol ar duedd anymwybodol i bob aelod o staff. Fodd bynnag, ymddengys nad yw pob cwrs yn orfodol ac o ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â'r dulliau presennol o gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb awgrymwyd nad yw'r hyfforddiant hwn mor effeithiol ag y dylai fod.

Mae Cam Un o'r adolygiad wedi dod i'r casgliad bod adnoddau ar gyfer cydraddoldebau o fewn Llywodraeth Cymru yn ddarniog. Y tu allan i'r Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant mae'n anodd amcangyfrif arbenigedd a gallu staff yn Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar gydraddoldeb rhywiol. Mae hyn ynddo'i hun yn achosi problemau. Yn aml, nid ystyrir bod rhywedd neu gydraddoldeb yn rhan greiddiol o rôl rhywun neu ar y gorau ystyrir eu bod ond yn elfen fach o rôl lawer ehangach. Mae rhai camau wedi cael eu cymryd i ddefnyddio adnoddau rheoli perfformiad er mwyn ymgorffori cydraddoldeb, gydag amcan ar gydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'i bennu ar gyfer pob uwch was sifil.

Ceir anghysondeb hefyd rhwng gwahanol adrannau o ran sut yr ymdrinnir â chydraddoldebau a pha arbenigedd ac adnoddau sydd gan adrannau i gefnogi'r broses o ddatblygu polisïau. Er enghraifft, ymddengys mai Adran yr Economi a Sgiliau yw'r unig adran sydd ag uned gydraddoldebau sy'n gweithio gyda staff drwy'r adran gyfan i gefnogi'r gwaith o ddatblygu asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ac integreiddio cydraddoldeb â'r broses o ddatblygu polisïau. Mae'r uned hon yn rhy fach i fonitro'r broses o asesu'r effaith ar gydraddoldeb ac mewn rhai achosion gall fod o dan anfantais os gofynnir iddi gyflawni pethau nad oes ganddi'r adnoddau na'r gallu i'w cyflawni.

Ymddengys bod diffyg cysondeb o ran sut mae gwahanol adrannau yn ymdrin â sicrwydd polisïau, gan ychwanegu her arall i ymgorffori ystyriaeth o rywedd yn y broses o lunio polisi. Cyflwynwyd sesiynau her a gwelir eu bod yn helpu i fynd i'r afael â hyn, yn ogystal â newid ymddygiad ac annog ystyriaeth gynharach o faterion, gan gynnwys cydraddoldeb.

Un elfen bwysig o'r seilwaith cydraddoldebau yn Llywodraeth Cymru yw'r Arweinwyr a'r Hyrwyddwyr Cydraddoldeb. Mae'r Arweinwyr Cydraddoldeb yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae cylch gorchwyl y grŵp hwn yn awgrymu bod ffocws mewnol ac allanol i'r grŵp hwn; creu a chynnal cysylltiadau â rhwydweithiau staff a Hyrwyddwyr Cydraddoldeb a helpu i brif ffrydio cydraddoldeb a chynhwysiant ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

Mewn theori, dylai'r unigolion hyn fod yn adnodd amhrisiadwy i arweinwyr adrannol er mwyn cefnogi'r broses o ymgorffori cydraddoldeb â'r broses llunio polisïau a gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, yn seiliedig ar ein trafodaethau, ymddengys fod rhywfaint o amryfusedd ymhlith adrannau Llywodraeth Cymru ynglŷn ag union rôl y grŵp hwn, gyda rhai ond yn ymwybodol o elfen fewnol y rôl. Ni fu modd ystyried hyn yn fanylach yn ystod Cam Un ond dylai cael gwell dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r rhwydwaith o Arweinwyr a Hyrwyddwyr Cydraddoldeb yn cael ei ddefnyddio fod yn un o elfennau Cam Dau.

Nid ydym yn siŵr o hyd a oes angen tîm ar wahân neu a oes angen i gydraddoldeb rhywiol gael ei brif ffrydio'n fwy effeithiol ym mhob rôl. Er enghraifft, gallwn ddysgu o'r ffordd yr aethpwyd ati i brif ffrydio trechu tlodi pan symudwyd oddi wrth Weinidog

a oedd yn canolbwyntio ar drechu tlodi i ddisgwyliad bod yn rhaid i bob maes polisi feddwl am roi terfyn ar dlodi.

Teimlir yn gryf ar hyn o bryd bod yr arfer da a welir yma a thraw yn aml i'w briodoli i unigolion brwd iawn sy'n hyrwyddo'r agenda, sydd, o bosibl, yn cryfhau'r ddadl dros benodi timau a/neu unigolion penodol ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru yn hytrach na dibynnu ar brif ffrydio, o leiaf nes bod rhagor o waith wedi'i wneud i sicrhau mwy o ddealltwriaeth a chefnogaeth.

Mae ein gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid yn awgrymu bod heriau tebyg mewn cyrff cyhoeddus eraill. Wrth i gyllidebau ostwng, mae rolau cydraddoldebau wedi gostwng, yn aml gydag unigolyn bellach yn gyfrifol am gydraddoldebau fel rhan o rôl lawer mwy. Mynegwyd pryderon hefyd fod yr arbenigedd hwn weithiau ar lefel rhy isel mewn hierarchaethau mewnol er mwyn gallu herio uwch swyddogion ac aelodau o gabinet cyngor yn effeithiol. Mewn rhai achosion, teimlir bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael adnoddau llawer gwell, a hynny ar draul cydraddoldebau, gan nad oes unrhyw ymgais i integreiddio'r ddwy agenda. Efallai y bydd Cam Dau am ystyried adolygiad o allu cydraddoldebau mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn fwy cyffredinol, ond dylai hyn gael ei ystyried yng nghyd-destun integreiddio'r dyletswyddau sy'n bodoli eisoes yn well.

### 4.2.6. Ymgysylltu

Mae ymgysylltu yn elfen bwysig o'r broses o lunio polisi, yn enwedig wrth geisio ymgorffori ystyriaeth o gydraddoldeb rhywiol. Mae hefyd yn ofyniad o dan nifer o'r dyletswyddau yn y fframwaith deddfwriaeth a rheoliadol hwn, gan gynnwys Dyletswyddau Cydraddoldebau Penodol Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gellir ymgysylltu mewn nifer o ffyrdd; drwy ymgynghori ffurfiol, digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, grwpiau a fforymau ymchwil ac arbenigol. Fodd bynnag, mae diffyg cysondeb o ran y ffordd yr ymgysylltir a'r ffordd y defnyddir mewnbwn mewn adrannau gwahanol o Lywodraeth Cymru.

Un enghraifft o ymarfer addawol yw'r gweithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd i lywio *Cynllun Cyflawni Ein Cymoedd Ein Dyfodol*. Cafodd y broses o baratoi'r cynllun hwn gan y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De ei llywio gan ymgysylltu helaeth â phobl sy'n byw yng nghymoedd y de. Trafodir y gweithgarwch ymgysylltu hwn yn fanwl yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n ategu'r cynllun, sy'n nodi bod sesiynau thematig wedi cael eu cynnal gyda phobl ifanc, athrawon, rhieni, tenantiaid cymdeithasau tai, cyflogwyr a grwpiau anabledd.[78] Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd wedi'u cefnogi gan grwpiau ffocws wedi'u targedu gyda grwpiau demograffig nad oedd ganddynt gynrychiolaeth ddigonol mewn gwaith ymgysylltu

[78] Llywodraeth Cymru *Asesiad i'r Effaith ar Gydraddoldeb: Ein Cymoedd Ein Dyfodol Adolygwyd* 2017

arall.[79] Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi bod ymgysylltu wedi bod rhwng y rhywiau a'i fod wedi ystyried materion pwrpasol i fenywod, megis gofal cymdeithasol, gofal plant a chyfleoedd cyflogaeth.[80] Er mai cyfyngedig yw'r wybodaeth ynglŷn â faint o fenywod yr ymgysylltwyd â nhw, mae'r ymarfer ymgysylltu helaeth hwn â'r rhai y bydd y cynllun cyflawni yn effeithio arnynt yn enghraifft o ymgysylltu rhagweithiol cadarnach.

Mae nifer o grwpiau a fforymau ffurfiol lle mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag "arbenigwyr". Ymhlith yr enghreifftiau mae'r Fforwm Cydraddoldeb Anabledd, y Fforwm Cymunedau Ffydd a Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb. Fodd bynnag, ymddengys nad oes unrhyw fforwm cydraddoldeb penodol ar gyfer menywod na rhywedd. Mae aelodaeth o'r grwpiau hyn yn aneglur, a chyfyngedig yw'r wybodaeth ar-lein sy'n amlinellu sut yr ymgysylltir â'r grwpiau hyn. Mae pryder nad yw'r dulliau ymgysylltu ffurfiol hyn yn llywio polisïau'n effeithiol gyda dadansoddiad ar sail rhywedd.

**Ymgysylltu ag Arbenigwyr: Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb**

Sefydlwyd y grŵp hwn gan Lywodraeth Cymru i roi cyngor ac arbenigedd ar gydraddoldeb a chyllidebau iddi. Fe'i sefydlwyd i roi cyngor, cymorth a her er mwyn gwella ystyriaethau'r broses gyllidebol o ran cydraddoldeb.

Mae'r cyfarfodydd hyd yma, fel y dengys tudalen y grŵp ar wefan Llywodraeth Cymru[81] wedi canolbwyntio ar roi gwybodaeth i'r aelodau ynglŷn â sut mae'r broses gyllidebol yn gweithio a sut yr eir ati i gyflawni amcanion, polisïau a rhaglenni. Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi, Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, a'r Gwerthusiad o'r Cyfnod Sylfaen.

O safbwynt menywod, mae'r aelodaeth yn cynnwys Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, sydd wedi briffio'r grŵp ar Gyllidebu ar sail Rhywedd. Yn y cyfarfod ym mis Chwefror 2016 nodwyd pwynt gweithredu:

*Y Grŵp a swyddogion i ystyried y posibilrwydd o brosiect peilot posibl.*[82]

Ni chofnodwyd unrhyw gamau gweithredu pellach ar y pwynt hwn.

**Cyfyngiadau'r Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb**
Nid ymddengys bod y grŵp wedi cyfarfod yn rheolaidd ac mae ei ddyfodol yn cael ei ystyried gan Weinidogion a swyddogion. Y cofnodion diweddaraf ar y wefan yw cofnodion y cyfarfod ym mis Chwefror 2016 ond deellir ei fod wedi cyfarfod ers hynny. Nid oes ganddo raglen waith nac amcanion ffurfiol ac nid yw wedi cynnal adolygiad systematig o gyllidebau na pholisïau economaidd i Lywodraeth Cymru. Ymddengys ei fod wedi gweithredu heb aelodaeth lawn nac adnoddau penodol. Mae

[79] Ibid
[80] Ibid
[81] https://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/budget-advisory-group-for-equality/?lang=cy
[82] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/bage-minutes-meeting-february-2016-cy.pdf

aelodaeth a phresenoldeb wedi amrywio, sydd wedi cyfrannu at ddiffyg arbenigedd yn y grŵp. Er bod materion amlwg o ran rhywedd wedi cael eu codi, ni ellir gweld bod unrhyw gamau gweithredu penodol ar faterion rhywedd a materion menywod wedi deillio o waith y grŵp.

Ymddangosai mai dim ond ar lefel strategol pennu'r gyllideb y mae'r grŵp yn gweithredu. Nid ymddengys ei fod yn ymwneud â phenderfyniadau gwariant adrannau na'r ffordd y maent yn pennu eu blaenoriaethau.

Mae ymgysylltu â'r grŵp wedi cael ei drafod mewn nifer o adroddiadau ar graffu ar y gyllideb gan Bwyllgor Cyllid a Phwyllgor Cydraddoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Er i greu / bodolaeth y grŵp gael ei groesawu, bu galwadau mynych am ragor o wybodaeth am rôl y grŵp ac am welliannau i'r ffordd y mae'n ymgysylltu â'r broses gyllidebol.[83]

Mewn adborth gan randdeiliaid codwyd nifer o bryderon ynglŷn â'r prosesau ymgysylltu ac ymgynghori presennol. Roedd themâu cyffredin yn cyfeirio at yr angen i ymgysylltu mewn ffordd fwy ystyrlon ac yn gynharach yn y broses o ddatblygu polisïau. Yn aml, cynhelir ymgynghoriadau ar syniadau polisi sydd wedi cael eu datblygu'n llawn ac mae'n anodd gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r polisi a allai sicrhau effaith decach neu fanteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb ar yr adeg honno.

Mynegwyd pryderon hefyd gan randdeiliaid ynglŷn â "menywod anweladwy". Menywod a all brofi sawl rhwystr i chwarae rhan lawn mewn cymdeithas ac yn y farchnad lafur yng Nghymru ac y gall eu profiad a'u heriau gael eu hanwybyddu gan y rhai sy'n llunio polisïau. Mae hyn yn cynnwys menywod o gefndir BAME neu LGBT, menywod anabl a menywod sy'n ffoaduriaid neu'n fudwyr a menywod sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Teimlir bod meysydd cydraddoldeb fel nodweddion gwarchodedig yn methu â mynd i'r afael â chydgyfeiriadedd, ac y gallai ymgysylltu mwy effeithiol â menywod o gefndir amrywiol helpu i oresgyn hyn.

Mae'r adolygiad o ymarfer addawol rhyngwladol hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu ag arbenigwyr ac "arbenigwyr drwy brofiad" ar yr adeg gywir yn y broses o lunio polisi ac ar lefel ddigon uchel er mwyn sicrhau bod eu mewnbwn yn cael effaith. Mae'r adolygiad yn gwneud nifer o argymhellion ar gyfer sesiwn adolygu dysgu a allai ddangos sut y gellir defnyddio arbenigedd o'r fath mewn ffordd fwy effeithiol.

### 4.3. Casgliad

Er bod y fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol yn gosod conglfeini, mae angen i'r fframwaith hwn gael ei integreiddio a'i weithredu'n effeithiol er mwyn ysgogi'r newid

[83] Gweler er enghraifft *Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru y Pwyllgor Cyllid 2013-2014* a llythyr y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldebau a Llywodraeth Leol at y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar gyllideb ddrafft 2016-2017

diwylliannol sydd ei angen i ymgorffori ystyriaeth o gydraddoldeb rhywiol mewn prosesau llunio polisïau a gwneud penderfyniadau yng Nghymru mewn gwirionedd.

Mae Cam Un wedi llwyddo i nodi lle mae llawer o'r heriau hyn o ran integreiddio a gweithredu a'r effaith y mae'r rhain yn ei chael ar y broses o lunio polisïau. Mae'n rhaid i Gam Dau gynnwys ystyriaeth ddyfnach o nifer o'r meysydd hyn er mwyn gwneud argymhellion ar gyfer newid parhaol o ran sut mae Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn gwneud penderfyniadau ac yn cynnal newid drwy weithredu effeithiol.

## 5. Craffu Allanol ac Atebolrwydd

Mae gwaith craffu da yn ysgogi polisïau da. Mae amrywiaeth o ddulliau a chyrff sy'n gyfrifol am graffu ar y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni dyletswyddau statudol, megis y rhai a roddwyd ar waith drwy'r fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol a drafodir yn yr adroddiad hwn.

Mae hefyd nifer o gyrff sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth a dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif am fethiannau yn hyn o beth.

Mae Cam Un yn awgrymu bod craffu allanol i'w groesawu a bod craffu effeithiol yn ysgogi newid ymddygiadol. Fodd bynnag, mae pryderon nad yw'r mesurau craffu ac atebolrwydd presennol yn gweithio'n effeithiol o bosibl, yn enwedig o ran Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru. Er mai cyfyngedig fu'r ystyriaeth o'r mater hwn yn ystod Cam Un, dylai Cam Dau geisio deall yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd yn y fframwaith atebolrwydd hwn, yr hyn y gellid ei wella a sut y gellir sicrhau gwell integreiddio a chydweithredu. Dylai hyn gynnwys trafodaethau gyda chyrff ac unigolion allweddol megis Swyddfa Archwilio Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, aelodau Pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac ACau.

**Negeseuon allweddol**

1. Mae gwaith craffu allanol yn gwneud gwahaniaeth ac mae'n rhywbeth i'w groesawu'n gyffredinol.
2. Yn amlwg, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru rôl ganolog i'w chwarae yn hyn o beth. Byddai'n fuddiol pe bai mwy o amser yn cael ei neilltuo i ystyried cydraddoldebau. Gan gydnabod yr heriau parhaus sy'n gysylltiedig â maint y Cynulliad, rydym yn cefnogi'r argymhellion a wnaed gan y Panel Arbenigol ar Ddiwygio'r Cynulliad ac yn argymell y dylid defnyddio'r aelodau ychwanegol i wella'r ffordd y creffir ar rywedd a chydraddoldebau'n fwy cyffredinol.
3. Teimlir bod atebolrwydd am gydymffurfio â dyletswyddau cyfraddoldebau a'u gweithredu yn wan, yn enwedig o gymharu â dyletswyddau eraill megis Safonau'r Gymraeg,
4. Mae anghysondebau yn y fframwaith arolygu, gyda chydraddoldebau yn cael eu hystyried i raddau gwahanol. Er enghraifft, teimlir bod cydraddoldebau yn elfen fwy o arolygiadau o'r heddlu ond ychydig o sylw a roddir i gydraddoldebau mewn arolygiadau o ysgolion ar hyn o bryd.
5. Mae cyfle amlwg i atgyfnerthu'r dulliau craffu ac atebolrwydd am gydraddoldeb yng Nghymru a'u hintegreiddio'n well. Dylai Cam Dau gynnwys adolygiad o'r dulliau presennol a gwneud argymhellion ar gyfer gwella.

### 5.1. Rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Cynulliad Cenedlaethol yw'r prif gorff craffu i Lywodraeth Cymru. Mae gwaith craffu drwy bwyllgorau, cwestiynau a dadleuon mewn cyfarfodydd llawn yn cael ei groesawu'n gyffredinol a gall gael effaith ddiriaethol ar gyfeiriad a manylion polisïau.

Caiff gwaith craffu gan y Cynulliad ei lesteirio gan heriau o ran gallu ar hyn o bryd. Câi gwaith craffu ar gydraddoldebau ei gryfhau drwy Bwyllgor penodol ar gyfer Menywod a Chydraddoldebau yn y Cynulliad, felly mae lle i ymchwiliadau rhagweithiol ochr yn ochr â mwy o ymgysylltu â deddfwriaeth, polisïau a gwaith craffu ar berfformiad Gweinidogion. Rydym yn cydnabod y byddai hyn yn anodd oherwydd y cyfyngiadau presennol ar allu ac felly rydym yn argymell y dylai'r cynigion a wnaed gan y Panel Arbenigol ar Ddiwygio'r Cynulliad gael eu gweithredu i gynyddu gallu drwy ACau ychwanegol ac y dylid defnyddio hyn i gryfhau gwaith craffu ar gydraddoldebau drwy bwyllgor penodol.

Mae'r graddau y creffir ar gydraddoldebau drwy'r Cynulliad hefyd ynghlwm wrth arweinyddiaeth a gallu Gweinidogol. Ers i gydraddoldebau gael eu cynnwys ym mhortffolio'r Arweinydd Tŷ presennol, mae yna ymdeimlad ymhlith swyddogion a rhanddeiliaid bod y ffocws ar gydraddoldebau yn y Cynulliad wedi cynyddu. Priodolir hyn yn bennaf i dri ffactor:

1. Mae cyfuno cydraddoldebau â rôl Arweinydd y Tŷ yn sicrhau bod cylch gwaith Llywodraeth Cymru a safbwynt cydraddoldebau yn cael eu hystyried gyda'i gilydd gan roi safbwynt unigryw ym mhob rhan o'r Llywodraeth.
2. Mae'r Arweinydd Tŷ presennol yn eiriolwr effeithiol a brwd dros gydraddoldeb.
3. Mae cydraddoldebau yn cael mwy o flaenoriaeth o fewn portffolio nag yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac maent yn parhau i gael eu cynrychioli yn un o swyddi'r Cabinet.

Bydd arweinyddiaeth a gallu Gweinidogol yn hollbwysig o ran sicrhau bod Cymru yn un o'r gwledydd sy'n arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywiol. Mae rhai yn awgrymu mai'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau hyn yw drwy gynnwys Ysgrifennydd Cabinet dros Fenywod a Chydraddoldebau. Rhoddodd llawer o'r rhai yr ymgysylltwyd â nhw yn ystod Cam Un dystiolaeth a fyddai'n ategu hyn. Rydym yn cydnabod y gallai hyn arwain at ganlyniadau anfwriadol lle nad oes gan Weinidog o'r fath drosolwg trawslywodraethol, cyllideb nag ysgogiadau er mwyn sicrhau bod pob adran yn ymgorffori rhywedd yn eu prosesau llunio polisïau a gwneud penderfyniadau yn effeithiol, lle y gallai momentwm mewn adrannau eraill arafu wrth i gydraddoldeb rhywiol gael ei ystyried yn gyfrifoldeb Ysgrifennydd y Cabinet, neu lle y bydd disgwyl o bosibl i Ysgrifennydd y Cabinet oruchwylio meysydd polisi eraill y canfyddir eu bod yn "faterion menywod" megis gofal plant yn hytrach na meysydd megis datblygu economaidd, digidol neu seilwaith. Er bod y rhain yn risgiau, mae'n amlwg bod arweinyddiaeth gref ynghyd â rôl drawslywodraethol yn ysgogi newid ac yn sicrhau bod cydraddoldeb yn aros yn uwch ar yr agenda. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth ddifrifol

i sut y gellir cynnal hyn mewn ffordd sy'n llai dibynnol ar unigolyn. Ni fydd strwythurau ynddynt hwy eu hunain yn arwain at y newid sylfaenol sydd ei angen, ond maent yn elfen bwysig o weithredu ehangach y mae'n rhaid iddo gynnwys ymrwymiad gan y Prif Weinidog a gweddill y llywodraeth i hyrwyddo cydraddoldeb a phrif ffrydio rhywedd drwy'r rhaglen bolisi a deddfwriaethol gyfan.

### 5.2. Atebolrwydd ac Arolygu

Yn ogystal â rhoi gwahanol ddyletswyddau ar waith, mae'r fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol a amlinellir yma hefyd yn rhoi nifer o ddulliau atebolrwydd ar waith. Mae hyn ar ffurf y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ochr yn ochr â chyrff megis Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol hefyd yn rhoi Cynghorydd/Cynghorwyr Cenedlaethol ar waith. Er nad oes ganddynt rôl ffurfiol o ran atebolrwydd, mae'r cynghorydd/cynghorwyr yn ffynhonnell bwysig o gyngor arbenigol a gwaith craffu.

Un thema gyffredin a godwyd yn ein gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid oedd mai cyfyngedig oedd yr atebolrwydd am ddiffyg cydymffurfiaeth, yn enwedig o ran Dyletswyddau Cydraddoldebau Penodol Cymru. Teimlwyd nad oedd fawr ddim risg o gosb pe na bai'r dyletswyddau yn cael eu cyflawni, pe bai amcanion cydraddoldeb yn wan neu pe câi asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb eu cynnal yn aneffeithiol.

Gwnaeth llawer o randdeiliaid gymharu'r diffyg atebolrwydd ymddangosiadol am gydraddoldebau ag enghreifftiau mwy effeithiol, gan gynnwys Safonau'r Gymraeg. Er bod problemau gyda'r enghreifftiau eraill hyn cafwyd consensws cyffredinol y gellid dysgu gwersi er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn rhoi mwy o flaenoriaeth ar gyflawni dyletswyddau cydraddoldebau.

Clywsom sôn hefyd am anghysondebau yn y drefn arolygu. Er bod arolygiaethau rhai cyrff cyhoeddus yn cynnwys cydraddoldebau fel ystyriaeth bwysig, teimlwyd nad oedd eraill yn gwneud hynny, gan gynnwys y fframwaith arolygu ysgolion presennol.[84]

Cyfyngedig fu'r cyfle yn ystod Cam Un i ystyried y fframwaith atebolrwydd yn fanwl. Gall Cam Dau ystyried cynnwys adolygiad o gryfderau, cwmpas a phwerau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a sut y gall amrywiol ddulliau atebolrwydd gael eu hintegreiddio a'u cysoni'n well.

### 5.3. Casgliad

Mae gwaith craffu allanol yn gwneud gwahaniaeth ac mae'n rhywbeth i'w groesawu'n gyffredinol. Er bod gan y dulliau craffu presennol gryfderau, cyfyd cyfle amlwg i'w gwella. Byddai'n fuddiol pe bai mwy o amser yn cael ei neilltuo yn y

[84] Gweler Atodiad 1 Adroddiad y Rhanddeiliaid: Heriau

Cynulliad Cenedlaethol i ystyried cydraddoldebau, ac adolygiad o’r ffordd y gall y fframwaith atebolrwydd presennol ar gyfer Dyletswyddau Cydraddoldebau Penodol Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a’r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gael ei gryfhau a’i integreiddio’n well, gyda chosbau ystyrlon am ddiffyg cydymffurfio.

## 6. Casgliadau ac Argymhellion

Er mwyn sicrhau bod Cymru yn un o'r gwledydd sy'n arwain y byd ym maes cydraddoldeb rhywiol bydd angen newid radical yn yr hyn a wnawn a sut rydym yn gwneud penderfyniadau. Mae'n rhaid inni fynd i'r afael ag anghydraddoldebau strwythurol ac ymdrechu i sicrhau canlyniad cyfartal.

Nid newid bach fydd ei angen. Mae'n rhaid i gamau gael eu cymryd er mwyn sicrhau y gall pob menyw a dyn gyrraedd eu llawn botensial. Mae'n rhaid i'n hymateb i'r heriau hyn fod yn un cydgyfeiriadol ac mae'n rhaid sicrhau bod polisïau a gwasanaethau yn cyflawni dros amrywiaeth o fenywod yng Nghymru.

Mae gan Gymru gyfle i adeiladu ar sylfeini fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol sy'n arwain y byd, sy'n cynnwys Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae gan y fframwaith hwn botensial mawr. Gall sicrhau integreiddio a gweithredu effeithiol ysgogi'r newid diwylliannol sydd ei angen o fewn y llywodraeth ac mewn cymdeithas.

Mae cwmpas a therfynau amser Cam Un wedi ein galluogi i ganolbwyntio ar y broses o lunio polisïau; deall yr hyn rydym yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen ei wella a mapio'r fframwaith deddfwriaeth a pholisi presennol. Amlinellwn isod ein casgliadau a'n hargymhellion, sy'n cwmpasu meysydd i'w hystyried ymhellach yn ystod Cam Dau a chamau gweithredu mwy uniongyrchol a all hyrwyddo'r agenda hon. Gall Cam Dau adeiladu ar hyn a nodi atebion i wella'r ffordd y caiff y fframwaith presennol ei integreiddio a'i weithredu yn ogystal â chamau gweithredu ymarferol i sicrhau Cymru sy'n fwy cyfartal.

**Mae angen inni lunio gweledigaeth ddewr a rennir ar gyfer cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru wedi'i hategu gan arweinyddiaeth gref gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau newid parhaol**

I ryw raddau, mae Llywodraethau olynol Cymru wedi dangos gweledigaeth ar gyfer Cymru lle mae rhywedd wrth wraidd prosesau llunio polisïau, gan roi fframwaith deddfwriaeth a rheoliadol ar waith sy'n cynnwys Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r fframwaith hwn yn cynnig potensial mawr ond cyfyngedig yw ei effaith.

Mae'r fframwaith hwn yn methu â chyfleu gweledigaeth a rennir ar gyfer cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru. O ganlyniad, gall gweithredu fod yn ddarniog ac anghydlynol a gall amryfusedd ynglŷn â'r hyn a olygir gan gydraddoldeb rhywiol arwain at duedd i anelu at fod yn niwtral o ran y rhywiau, sydd, yn aml, yn ddall o ran rhywedd mewn gwirionedd.

Mae gan Lywodraeth Cymru rôl arwain bwysig i'w chwarae o ran datblygu a chyfleu gweledigaeth a rennir ar gyfer cydraddoldeb rhywiol, ac arwain drwy esiampl fel lluniwr polisïau, cyflogwr ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau. Ym mhob maes, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn ddewr ac ystyried cyfleoedd i sicrhau'r newid sylfaenol a fydd yn hyrwyddo cydraddoldeb a chydnabod gwerth cydraddoldeb.

**Argymhellion:**

1. Mae'n rhaid i Gam Dau ddatblygu gweledigaeth ac iaith a rennir ar gyfer cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru.

2. Mae'n rhaid i Gam Dau bennu sut beth fyddai Llywodraeth ffeministaidd yng Nghymru, gan gynnwys gweledigaeth ac egwyddorion ar gyfer prosesau llunio polisïau a gwneud penderfyniadau, a rôl llywodraeth i newid diwylliant drwy ymgysylltu â'r cyhoedd, addysg a'i holl weithgareddau.

3. Mae arweinyddiaeth Weinidogol yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb rhywiol yn parhau'n flaenoriaeth. Dylid ystyried p'un a fyddai cynnwys Ysgrifennydd Cabinet dros Gydraddoldebau a Grymuso Menywod mewn cabinetau yn y dyfodol, ochr yn ochr â datganiadau o gefnogaeth a grŵp rhyngweinidogol yn sicrhau hyn.

4. Yn unol â'r hyn sy'n digwydd mewn gwledydd Sgandinafaidd, dylai Llywodraeth Cymru seilio gweledigaeth ar gyfer cydraddoldeb rhywiol ar ffocws ar ganlyniad cyfartal, nid dim ond cyfle cyfartal.

5. Dylai Gweinidogion Cymru gytuno ar ddatganiad a rennir gan bob Ysgrifennydd Cabinet a Gweinidog ar hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol a chan ystyried Nod Datblygu Cynaliadwy 5 y Cenhedloedd Unedig. Dylai pob portffolio Gweinidogol gyhoeddi datganiad byr/cynllun sy'n amlinellu sut mae'n hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol.

6. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cyflwyno hyfforddiant ar aflonyddu rhywiol a gweithdrefn gwyno wedi'i hadnewyddu ar gyfer holl staff gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru.

7. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno absenoldeb rhiant a rennir ar gyfer cyflogeion Llywodraeth Cymru ar y gyfradd cyflog mamolaeth uwch i dadau sy'n cymryd absenoldeb ac annog yr un arfer da mewn gwasanaethau cyhoeddus, gan ddylanwadu ar arfer da a defnyddio ysgogiadau caffael.

8. Dylai Cam Dau ystyried yn fanwl y camau ymarferol y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, gan gynnwys dadansoddiad o bolisi cyflog yr uwch wasanaeth sifil.

9. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a swyddogion ymchwilio i werth gofal di-dâl a'i gynnwys ym mesurau economaidd Cymru ochr yn ochr â mesurau traddodiadol megis GYG.

10. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i addasrwydd ysgogiadau nawdd cymdeithasol gweinyddol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth yr Alban i wneud taliadau'n amlach a'u symud "o'r waled i'r pwrs".

**Mae diffyg integreiddio a'r ffaith bod deddfwriaeth allweddol yn cael ei gweithredu'n aneffeithiol yn gwanhau ein hystyriaeth o gydraddoldeb rhywiol ac yn arwain at ddiffyg camau gweithredu a chanlyniadau diriaethol a dewr i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol**

Nid yw elfennau o'r fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol yn integreiddio'n ddigon da, a allai gyfrannu at ymateb gwannach i hyrwyddo cydraddoldeb. Mae yna risg, wrth i ddyletswyddau newydd gael eu cyflwyno, megis y rhai yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y caiff dyletswyddau sy'n bodoli eisoes eu disodli pan ddylai ymdrechion gael eu gwneud i sicrhau bod dyletswyddau sy'n ategu ei gilydd yn cael eu hintegreiddio er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf.

Er y ceir arfer da yma a thraw, lle mae dyletswyddau ac egwyddorion y fframwaith hwn yn cael eu cymhwyso'n effeithiol, mae gweithredu, yn gyffredinol, yn anghyson. Mae yna risg ein bod wedi mabwysiadu ymateb sy'n seiliedig ar gydymffurfiaeth ac ymarfer ticio blychau, yn hytrach nag un sy'n canolbwyntio ar newid diwylliannol a phrif ffrydio rhywedd ac anghydraddoldebau mewn prosesau llunio polisïau a gwneud penderfyniadau mewn gwirionedd.

Mae asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn broblem benodol, gan eu bod yn aml yn cael eu cwblhau ar ddiwedd y broses o lunio polisi yn hytrach nag ar y dechrau ac nad ydynt yn cynnwys dadansoddiad beirniadol ar sail rhywedd. Bydd angen i'r broses o ddatblygu adnodd asesu effaith integredig yn Llywodraeth Cymru gael ei monitro'n fanwl.

Erys y gyllideb yn her benodol o hyd, a'i diffyg cyswllt â'r broses o lunio polisïau, gan greu rhwystrau i weithio trawslywodraethol.

Yn olaf, erys gallu ym maes cydraddoldebau yn Llywodraeth Cymru yn ddarniog o hyd. Mae'n bosibl nad yw'r strwythurau na'r arbenigedd sy'n bodoli eisoes yn cael eu defnyddio'n effeithiol a gall anghysondeb yn y ffordd y mae adrannau'n gweithredu achosi heriau o ran sicrwydd polisi a phrif ffrydio cydraddoldeb.

**Argymhellion:**

11. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a, lle y bo angen, gryfhau'r ddeddfwriaeth a'r dyletswyddau presennol, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac ymgorffori'r Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod a Chonfensiwn Istanbul yn neddfwriaeth Cymru fel diwygiad i'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais

Rhywiol. Gallai hyn gynnwys ystyried yr angen am ganllawiau statudol ychwanegol neu ddulliau eraill o egluro Nod Llesiant ‘Cymru sy’n fwy cyfartal’.

12. Dylai Cam Dau weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i nodi’r ffordd fwyaf effeithiol o gryfhau’r broses o integreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru a’r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

13. Dylai swyddogion Llywodraeth Cymru ddefnyddio Sesiynau Her presennol yr Ysgrifennydd Parhaol drwy gynnwys cwestiynau ar gydraddoldeb rhywiol a grymuso menywod a chynnal sesiwn her flynyddol ar gydraddoldeb rhywiol er mwyn archwilio gwaith ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

14. Dylai Cam Dau adolygu’r adnodd Asesu Effaith Integredig newydd a sicrhau mai hon yw’r ffordd fwyaf effeithiol o ysgogi newidiadau yn y ffordd y mae polisïau yn cael eu llunio, gan sicrhau ei bod yn ystyried hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol yn llawn.

15. Dylai Cam Dau adolygu amcanion Llesiant Cenedlaethol ac amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol er mwyn mewnosod camau gweithredu a chanlyniadau clir a diriaethol i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol, a chyflymu’r broses o roi’r Ddeddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith, gan gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol er mwyn monitro cynnydd.

16. Yn ystod Cam Dau (dylai’r Ysgrifennydd Parhaol arwain) adolygiad o’r arbenigedd a’r gallu ym maes cydraddoldeb er mwyn cefnogi’r gwaith o lunio polisïau o fewn Llywodraeth Cymru (a chyflwyno adroddiad i’r Gweinidogion) a chreu fframwaith trawslywodraethol sy’n defnyddio gwybodaeth, sgiliau a phrofiad sydd ar gael eisoes. Gall hyn gynnwys panel craffu neu weithredu’r model ymarfer dysgu a amlinellir yn yr adolygiad o ymarfer addawol rhyngwladol.

17. Dylai Cam Dau ystyried y data sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru a phenderfynu ar gamau i wella argaeledd data wedi’u dadgyfuno.

**Mae angen inni weld ymgysylltu a chraffu allanol cryfach ar berfformiad Llywodraeth Cymru o ran hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol**

Mae ymgysylltu a chraffu allanol yn llywio polisïau ac yn ysgogi newidiadau. Ar hyn o bryd, mae gweithgarwch ymgysylltu yn anghyson ac nid yw’r dulliau ymgysylltu ffurfiol presennol yn cael eu defnyddio i’r eithaf.

Mae gweithgarwch craffu gan y Cynulliad Cenedlaethol yn rhywbeth i’w groesawu ac mae yna ymdeimlad bod hyn wedi cynyddu ers ailbenodi’r Cabinet yn fwyaf diweddar. Gellid cynyddu gweithgarwch craffu gan y Cynulliad, ond rydym yn cydnabod bod maint yr aelodaeth ar hyn o bryd eisoes yn rhoi pwysau ar strwythur y Pwyllgorau.

Mae nifer o gyrff atebolrwydd allanol hefyd sydd yn bodoli i sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol a drafodir yn yr adroddiad hwn yn cael ei roi ar waith yn effeithiol. Er bod enghreifftiau lle mae hyn yn gweithio'n effeithiol, teimlir nad oes fawr ddim cosb am ddiffyg cydymffurfiaeth â Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru yn enwedig. Mae lle i'r rhwydwaith hwn o Gomisiynwyr a chyrff eraill gael eu hintegreiddio'n fwy effeithiol.

**Argymhellion:**

18. Dylai Cam Dau adolygu'r dulliau cydymffurfio, monitro ac atebolrwydd presennol yn y fframwaith, gan ystyried effeithiolrwydd a chyfleoedd i integreiddio'n well.

19. Dylai Cam Dau adolygu cryfder, cwmpas a phwerau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

20. Dylai'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol graffu ar gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a chyhoeddi ei adroddiad, a ddylai gael ei ystyried gan Bwyllgor Cydraddoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

21. Yn ystod Cam Dau, dylai tîm yr adolygiad weithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i gytuno ar y cyd ar ddull adrodd er mwyn monitro gwaith Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru.

22. Dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu i weithredu argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio'r Cynulliad.

23. Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru sefydlu Pwyllgor Menywod a Chydraddoldebau i'w gwneud yn bosibl i ymgymryd â gweithgarwch craffu cadarn digonol.

24. Mae'n rhaid i Gam Dau ddechrau sgwrs ystyrlon â rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol er mwyn pennu camau gweithredu diriaethol a hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol. Bydd angen dyrannu adnoddau er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd grŵp amrywiol o fenywod.

25. Dylai Cam Dau adolygu'r trefniadau arian grant (a nodi bylchau) sy'n cefnogi sefydliadau menywod a hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru, gan ystyried effaith Brexit ar gyllid ar gyfer eu gweithgareddau.

26. Fel rhan o Gam Dau, dylai Llywodraeth Cymru gynnal neu gomisiynu dadansoddiad o wasanaethau sy'n ymateb i anghenion menywod a merched a nodi lle mae'r bylchau, gan weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol. Dylai hyn gynnwys gwasanaethau iechyd arbenigol, gwasanaethau o dan y Ddeddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol,

darpariaeth sgiliau arbenigol a chymorth i fenywod BAME a menywod anabl ond ni ddylai fod yn gyfyngedig iddynt.

**Mae Cam Un wedi nodi nifer o heriau allweddol ac wedi gwneud argymhellion ar gyfer gwaith pellach yn ystod Cam Dau. Mae angen ymrwymiad er mwyn sicrhau bod Cam Dau yn llwyddiannus ac yn cyfrannu at fap ffordd ar gyfer cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru**

Mae cylch gorchwyl yr adolygiad hwn yn amlinellu proses dau gam. Mae Cam Un wedi nodi nifer o heriau allweddol y bydd angen mynd i'r afael â nhw er mwyn i Gymru fod yn un o'r gwledydd sy'n arwain y byd ym maes cydraddoldeb rhywiol. Bydd angen ystyried llawer o'r rhain yn ystod Cam Dau fel y'i nodwyd yn yr argymhellion uchod. Er nad yw manylion Cam Dau ar ffurf derfynol eto, mae nifer o gamau gweithredu y bydd eu hangen er mwyn sicrhau ei lwyddiant.

**Argymhellion:**

27. Dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru gefnogi Cam Dau o'r adolygiad yn rhagweithiol, gan roi mynediad at wybodaeth, swyddogion a phrosesau yn eu portffolios i'w gwneud yn bosibl i graffu ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei gyflawni a'i effeithiolrwydd.

28. Sefydlu Grŵp Llywio Arbenigol i gefnogi Cam Dau o'r adolygiad, gan weithio'n agos gyda Chwarae Teg a swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae'n rhaid i'r Grŵp Llywio ddefnyddio arbenigedd yng Nghymru, er enghraifft sicrhau bod cynrychiolwyr menywod BME, menywod anabl, goroeswyr trais a menywod LGBTQI+ yn gallu cymryd rhan, a all gynnwys neilltuo adnoddau ar gyfer hynny.

29. Mae'n rhaid i Gam Dau gynnwys ymgysylltu helaeth â sefydliadau menywod a chydraddoldebau sy'n cynrychioli amrywiaeth menywod yng Nghymru. Efallai y bydd angen dyrannu cyllid er mwyn galluogi sefydliadau ar lawr gwlad i gefnogi'r gwaith ymgysylltu hwn.

**Er bod Cam Un wedi canolbwyntio ar y broses o lunio polisïau, mae nifer o gamau gweithredu cyflym y gellid eu cymryd i sicrhau newid, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhywiol hysbys a manteisio ar gyfleoedd yn y rhaglen ddeddfwriaethol gyfredol**

Mae diffyg cynrychioliaeth ddigonol menywod mewn bywyd cyhoeddus, yn enwedig ein sefydliadau gwleidyddol yn broblem sydd wedi cael ei hystyried yn fanwl ac sydd wedi bod yn ffocws i lawer sy'n gweithio ym maes cydraddoldeb rhywiol a chydraddoldeb yn fwy cyffredinol, a hynny'n gwbl gyfiawn. Mae'r amrywiaeth o safbwyntiau a phrofiadau a ddaw o grŵp gwleidyddol mwy cynrychioliadol wedi cael ei ddangos ac mae angen cymryd camau ar fyrder i sicrhau ein bod yn cael cydbwysedd rhyw mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Drwy wneud hynny,

byddwn yn cefnogi nodau'r adolygiad, drwy ei gwneud yn fwy tebygol y caiff effeithiau ar y rhywiau eu hystyried wrth lunio polisïau a chraffu arnynt.

**Argymhellion:**

30. Mae menywod yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Gellid cymryd camau ar unwaith i adolygu'r broses penodiadau cyhoeddus er mwyn sicrhau nad yw'n rhoi menywod o dan anfantais ac y gall sicrhau penodiadau o natur amrywiol.

31. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod diwygio llywodraeth leol yn cynnwys mesurau i gynyddu cynrychioliaeth menywod o gefndir amrywiol fel aelodau etholedig.

**Atodiad 1: Adroddiad ymgynghori â rhanddeiliaid: Crynodeb o'r heriau i sicrhau cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru.**

**Cyflwyniad**

Un elfen bwysig o Gam Un o'r adolygiad cyflym oedd ein gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid. Y bwriad oedd dechrau sgwrs genedlaethol ar sicrhau bod Cymru yn un o'r gwledydd sy'n arwain y byd ym maes cydraddoldeb rhywiol. Yn ystod y cam hwn o'r adolygiad cynhaliwyd dau ddigwyddiad i randdeiliaid lle y gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector i gynnig eu harbenigedd a'u sylwadau ar yr hyn sydd ei angen i sicrhau cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru a'r heriau sy'n ein hatal rhag cyflawni hynny.

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad i randdeiliaid, un yn y gogledd ac un yn y de. Gofynnwyd i gynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ddod i'r digwyddiadau er mwyn cynnig eu harbenigedd a'u sylwadau ar y camau sydd eu hangen i sicrhau cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru, a nodi'r heriau sy'n ein hatal rhag cyflawni hyn.

Drwy'r wybodaeth a'r arbenigedd hwn rydym wedi gallu nodi naw her allweddol y bydd angen eu blaenoriaethu ar gyfer gweithredu o bosibl os ydym am wireddu gweledigaeth y Prif Weinidog o Gymru sy'n arwain y ffordd ym maes cydraddoldeb rhywiol. Yn y papur hwn, rydym wedi crynhoi'r heriau hyn, gan wneud argymhellion ar gyfer camau gweithredu yn y byrdymor lle y bo modd a nodi materion y bydd angen eu hystyried ymhellach yn ystod Cam Dau.

Yn ogystal â'r heriau allweddol hyn, rhoddodd rhanddeiliaid eu mewnwelediad ar amrywiaeth eang o feysydd polisi, ynghyd â chamau gweithredu awgrymedig ar gyfer newid. Fe'u crynhoir mewn papur ar wahân i'w hystyried ymhellach yn ystod Cam Dau.

| **Deg her allweddol i sicrhau cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru** |
|---|
| 1. **<u>Newid diwylliant</u>**<br>Mae rhagfarn ar sail rhyw, hiliaeth a stereoteipiau rhyw wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn ein cymdeithas a'n diwylliant ac maent yn parhau i ffurfio agweddau tuag at fenywod a'r agenda cydraddoldeb rhywiol.<br><br>2. **<u>Gofal</u>**<br>Erys gofal di-dâl yn rhwystr sylweddol o hyd sy'n atal menywod rhag cymryd rhan lawn yn yr economi ac mewn cymdeithas. |

3. **<u>Trais yn erbyn menywod ac aflonyddu</u>**
   Mae trais yn erbyn menywod ac aflonyddu yn parhau gyda "ddiwylliant o anghrediniaeth" sy'n arwain at gyfradd datgelu isel.

4. **<u>Methiant y fframwaith cydraddoldebau presennol</u>**
   Nid yw'r fframwaith cydraddoldebau strategol presennol – y Ddeddf Cydraddoldebau a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru); y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – yn gweithio'n effeithiol. Mae diffyg integreiddio, gweithredu gwael a diffyg cydymffurfiaeth.

5. **<u>Atebolrwydd</u>**
   Nid oes fawr ddim atebolrwydd am ddiffyg cydymffurfiaeth â'r fframwaith cydraddoldebau strategol presennol, yn enwedig Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

6. **<u>Dim gweledigaeth a rennir</u>**
   Mae diffyg gweledigaeth a rennir, iaith ac egwyddorion arweiniol ar gyfer cydraddoldeb rhywiol.

7. **<u>Cyllid ac adnoddau</u>**
   Mae diffyg cyllid a diffyg adnoddau ar gyfer cydraddoldebau o hyd.

8. **<u>Data</u>**
   Mae diffyg data wedi'u dadgyfuno sy'n benodol i Gymru er mwyn llywio polisïau.

9. **<u>Menywod anweladwy</u>**
   Mae rhai menywod yn dal i fod yn anweladwy, gyda phrofiadau, lleisiau a heriau menywod BAME, menywod anabl a menywod LGBT yn aml yn cael eu hanwybyddu gan lunwyr polisïau.

10. **<u>Brexit</u>**
    Mae Brexit yn fygythiad sylweddol o ran hawliau a mesurau diogelu a'r posibilrwydd y caiff cyllid ar gyfer sefydliadau a gwasanaethau menywod ei golli.

1. **Newid diwylliannol**

Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn cytuno bod angen inni weld newid mewn diwylliant ac agweddau yn y pen draw, er mwyn inni arwain y byd ym maes cydraddoldeb rhywiol. Roedd ymdeimlad ymhlith rhanddeiliaid ein bod yn dal i fyw mewn cymdeithas rywiaethol a hiliol lle y caiff agweddau a safbwyntiau eu ffurfio gan syniadau ystrydebol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn. Un pwnc trafod cyffredin oedd y ffordd y mae menywod yn cael eu portreadu yn y cyfryngau naill ai fel gwrthrychau rhyw neu ddioddefwyr. Nododd eraill y methiant i bortreadu menywod BAME mewn ffordd gadarnhaol neu gywir.

Codwyd y duedd i stereoteipio menywod fel prif ofalwyr mewn nifer o sgyrsiau, a awgrymodd ddiffyg delweddau neu straeon am y rôl gadarnhaol y mae dynion yn ymgymryd â hi wrth ofalu am blant.

Yn gysylltiedig â phroblem rhagfarn ar sail rhyw a stereoteipiau roedd "adlach" yn erbyn menywod a ffeministiaid. Trafododd rhanddeiliaid y mater bod rhai dynion yn gwrthwynebu'r agenda hon, o ganlyniad i ofnau bod mwy o hawliau i fenywod yn golygu llai o hawliau i ddynion a bod cymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb i fenywod yn annheg rywsut i ddynion.

Cytunwyd bod ysgogi newid diwylliannol yn anodd ac yn nod hirdymor ond hefyd fod addysg yn elfen ganolog ohono. Bu cefnogaeth i fwy o waith i addysgu'r addysgwyr am gydraddoldeb, cynyddu nifer y modelau rôl cadarnhaol, hyrwyddo hyrwyddwyr cydraddoldeb rhywiol sy'n ddynion a gweld addysg rhyw a pherthnasoedd o safon ym mhob ysgol.

2. **Gofal di-dâl**

Trafododd yr holl randdeiliaid ofal fel rhwystr i sicrhau cydraddoldeb rhywiol. Roedd awgrym pendant bod yn rhaid inni fod yn glir p'un ai gofal di-dâl neu ofal â thal sydd dan sylw; mae'r naill a'r llall yn achosi heriau ond mae'r atebion yn wahanol.

Cytunwyd nad yw gwerth gofal yn cael ei gydnabod ac mai menywod sy'n gorfod ysgwyddo'r baich yn rhy aml.

O ran gofal plant â thâl, cytunwyd nad oes digon o ofal plant fforddiadwy ac nad oes digon o ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael. Cyfeiriwyd at gost fel mater allweddol. Er bod llawer o'r rhanddeiliaid yn croesawu ffocws ar gynnig mwy o ofal plant gan Lywodraeth Cymru, mynegodd llawer y pryder bod cynnig gofal plant o 3 oed yn rhy hwyr i helpu llawer o fenywod i ddychwelyd i weithio. Soniodd eraill am y "loteri cod post" a grëwyd gan y ffordd y mae Dechrau'n Deg yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd.

Trafodwyd gofal plant fel gyrfa hefyd gyda llawer yn cytuno ei fod yn cael ei danbrisio fel sector, gan arwain at gyflog isel ac amodau gwael.

3. **Trais yn erbyn menywod ac aflonyddu**

Trafodwyd mater trais yn erbyn menywod ac aflonyddu gan lawer o'n rhanddeiliaid, gan gyfeirio at y mudiad diweddar #FiHefyd a'r gydnabyddiaeth gynyddol o'r graddau y mae'r mater hwn yn rhemp yn ein cymdeithas.

Soniodd rhai am "ddiwylliant o anghrediniaeth" lle nad yw awdurdodau yn aml yn credu rhywun sy'n rhoi gwybod am achos o aflonyddu neu ymosodiad rhywiol fel

mater o drefn; rhywbeth nad yw'n cael ei weld pan roddir gwybod am droseddau eraill, megis dwyn car.

Codwyd problem cam-drin ac aflonyddu ar-lein fel problem gynyddol.

Trafododd rhanddeiliaid ddigwyddiadau diweddar yng Nghymru hefyd. Cytunwyd y dylai cyrff cyhoeddus fel Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru bob amser geisio arwain y ffordd, yn enwedig ar y mater hwn, a sicrhau bod prosesau clir a chadarn a fydd yn cael eu dilyn os bydd cwynion.

Bu rhywfaint o gefnogaeth i drin gwreig-gasineb (*misogyny*) fel trosedd casineb fel y mae nifer o heddluoedd ledled y DU wedi'i wneud.

## 4. Methiant y fframwaith cydraddoldebau strategol presennol

Yng Nghymru, mae fframwaith cydraddoldebau strategol wedi'i ymgorffori mewn tri darn o ddeddfwriaeth, y mae pob un ohonynt yn gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus sy'n canolbwyntio'n benodol ar gydraddoldeb a chydraddoldeb rhywiol:

- Y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
- Y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Dylai'r fframwaith hwn helpu cyrff cyhoeddus i ymgorffori ystyriaeth o gydraddoldeb rhywiol yn eu prosesau datblygu polisïau. Fodd bynnag, er bod llawer o'n rhanddeiliaid yn cydnabod pa mor bwysig ydoedd bod fframwaith o'r fath ar waith, roedd consensws amlwg bod y fframwaith presennol yn methu.

Mynegodd rhanddeiliaid nifer o bryderon ynglŷn ag effaith y fframwaith hwn gyda phedair thema allweddol yn dod i'r amlwg.

### *4.1. Diffyg integreiddio*

Mae pob un o'r cyfreithiau hyn yn gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus sy'n cynnwys rhywfaint o ystyriaeth o gydraddoldeb. Mewn theori, dylai'r rhain ddod ynghyd ond nid yw llawer o'r rhanddeiliaid wedi gweld fawr ddim integreiddio mewn gwirionedd.

Ymdrinnir â phob darn o ddeddfwriaeth a'r dyletswyddau cysylltiedig mewn seilos i bob golwg. Soniodd rhai fod angen integreiddio Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r dyletswyddau Llesiant yn benodol yn well oherwydd ar hyn o bryd ymdrinnir â nhw ar wahân gyda mwy o ffocws ac adnoddau yn cael eu rhoi i'r dyletswyddau Llesiant.

Trafodwyd hefyd y ffaith bod cyrff cyhoeddus yn ymdrin â chydraddoldeb mewn seilos. Mae amcanion cydraddoldebau yn cael eu rhoi ar waith mewn Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ond nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn yr agenda bolisi ehangach; h.y. nid yw cydraddoldeb rhywiol wedi'i ymgorffori mewn prosesau llunio polisïau. Rhoddwyd enghreifftiau o ddiffyg ystyriaeth mewn penderfyniadau cynllunio, polisïau caffael ac ym maes datblygu economaidd. Ategwyd hyn wrth drafod prosesau llunio polisïau Llywodraeth Cymru.

Cafwyd consensws cyffredinol ymhlith rhanddeiliaid y dylid gwneud rhagor i integreiddio'r agendau hyn.

*4.2. Gweithredu gwael a diffyg cydymffurfiaeth*

Roedd diffyg gweithredu effeithiol mewn perthynas â'r fframwaith hwn hefyd yn thema gyffredin a gododd. Mewn perthynas â Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol ac asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, a drafodwn isod, y mae hyn yn fwyaf nodedig, ond cododd rhanddeiliaid bryderon mwy cyffredinol hefyd. Trafododd rhai ddiffyg ymgysylltu ystyrlon a diffyg cyswllt rhwng cyrff cyhoeddus a phobl ar lawr gwlad.

Roedd yna ymdeimlad bod uchelgais yn y ddeddfwriaeth a'r rhethreg ond, yn aml, cyfyngedig yw'r cymorth a'r adnoddau a roddir i'r rhai y mae'n rhaid iddynt eu gwireddu, sef swyddogion a swyddogion awdurdodau lleol, er mwyn meithrin eu gwybodaeth a rhoi polisïau ar waith.

Soniodd rhai rhanddeiliaid am broblemau penodol gydag ymgorffori un neu fwy o'r darnau hyn o ddeddfwriaeth. Er enghraifft, awgrymodd rhai, wrth weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), fod rhai nodau llesiant yn cael mwy o flaenoriaeth gyda llai o sylw yn cael ei roi i "Gymru sy'n fwy cyfartal". Mae diffyg safbwynt cydraddoldebau ar ddatblygu cynlluniau llesiant yn cyfrannu at fwlch mewn gwaith cynllunio strategol ar gydraddoldeb.

Codwyd mater caffael mewn nifer o drafodaethau gyda rhanddeiliaid, gyda llawer yn nodi nad yw cydraddoldeb rhywiol yn cael digon o ystyriaeth fel rhan o benderfyniadau gwariant cyhoeddus. Gallai hyn awgrymu problem arall gyda Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o ran gweithredu gan fod hon yn cynnwys dyletswydd ynglŷn â chaffael.

Soniodd eraill am y ffaith nad yw bwriadau'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael eu gwireddu. Nid yw trais yn erbyn menywod yn cael ei enwi'n achos nac yn ganlyniad cydraddoldeb rhywiol na'i ystyried wrth weithredu dyletswyddau cydraddoldebau eraill. Mae yna ymdeimlad bod y Ddeddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi cael ei rhoi mewn seilo a bod y broses o'i rhoi ar waith yn rhy araf.

Nododd nifer o randdeiliaid lwyddiant Safonau'r Gymraeg a rôl Comisiynydd y Gymraeg o ran sicrhau cydymffurfiaeth. Er bod rhywfaint o feirniadaeth o'r broses hon hefyd, teimlwyd y gellid dysgu gwersi o'r llwyddiant i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei blaenoriaethu gan gyrff cyhoeddus drwy wella'r ffordd y rhoddir dyletswyddau cydraddoldebau ar waith.

*4.2.1. Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol Gwan*

Soniodd rhanddeiliaid am ddiffyg cysondeb yng nghynnwys ac ansawdd cynlluniau cydraddoldeb strategol mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Cafwyd rhywfaint o gonsensws y byddai mwy o gysondeb rhwng amcanion gwahanol gyrff yn ddefnyddiol.

Unwaith eto, mynegodd rhanddeiliaid bryder ynglŷn â diffyg ffocws canfyddedig ar weithredu a chytunwyd mai ychydig o enghreifftiau o weithredu ar sail cydgyfeiriadedd a welir. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn annog ystyriaeth o nodweddion gwarchodedig yn ôl maes cydraddoldeb ond byddai'n fuddiol pe bai Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn mynd ati i bennu amcanion mewn ffordd fwy cydgyfeiriadol.

Mae yna ymdeimlad hefyd fod cynlluniau llesiant yn lleihau gwerth cynlluniau cydraddoldeb strategol ac yn eu disodli.

Cytunodd nifer o randdeiliaid y dylai fod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus lunio o leiaf un amcan sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb rhywiol.

Cafwyd cefnogaeth hefyd i archwiliad o amcanion cydraddoldebau a phrosesau monitro ymhlith cyrff cyhoeddus Cymru.

*4.2.2. Dull anghyson o ymdrin ag asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb*

Roedd sgyrsiau gan y rhan fwyaf o grwpiau rhanddeiliaid wedi canolbwyntio ar asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, gyda chytundeb nad ydynt yn cael eu cynnal yn effeithiol ar hyn o bryd. Mynegodd rhanddeiliaid y pryder eu bod yn aml yn cael eu cynnal fel ymarfer ticio blychau ar ddiwedd y broses o lunio polisi, yn hytrach na chael eu defnyddio drwy gydol y broses er mwyn sicrhau bod polisi neu benderfyniad gwariant yn cael ei ystyried o safbwynt rhywedd.

Cytunwyd eu bod yn canolbwyntio gormod ar atal gwahaniaethu ac mai anaml iawn y maent yn cael eu defnyddio i lunio polisi i hyrwyddo cydraddoldeb i bob golwg.

Awgrymodd rhanddeiliaid nad ydynt bob amser yn cael eu cynnal a phan fyddant yn cael eu cynnal maent yn aml yn cael eu cynnal yn wael. Nodwyd diffyg ymgysylltu ystyrlon ag aelodau o'r cyhoedd sy'n rhan o grwpiau gwarchodedig fel mater allweddol.

Nododd rhanddeiliaid fod angen meithrin gallu staff yn Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gynnal asesiadau ystyrlon o'r effaith.

Cafwyd consensws fod yn rhaid i asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb gael lle blaenllaw yn y broses o lunio polisi a bod yn rhaid i'r broses o'u cynnal fod yn fwy cyson er mwyn iddynt fod yn effeithiol.

5. **Atebolrwydd**

Yn gysylltiedig â'r drafodaeth uchod ynglŷn â gweithredu gwael a diffyg cydymffurfiaeth mae mater atebolrwydd. Cododd y rhan fwyaf o randdeiliaid ddiffyg mesurau atebolrwydd a chosbau ymddangosiadol fel ffactor sy'n cyfrannu at y ffaith bod dyletswyddau cydraddoldebau yn cael gweithredu'n wael.

Ar hyn o bryd, mae yna ymdeimlad nad oes unrhyw oblygiadau i ddiffyg cydymffurfiaeth nac i baratoi cynlluniau cydraddoldeb ac asesiadau o'r effaith o safon wael. Holodd rhanddeiliaid ynglŷn â rôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Swyddfa Archwilio Cymru a ph'un a oedd lle iddynt hwy ac eraill roi mwy o her i gyrff cyhoeddus ynglŷn â gweithredu'r dyletswyddau hyn.

Bu cefnogaeth i broses archwilio o'r ffordd y cymhwysir dyletswyddau cydraddoldebau, yn enwedig proses asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ymhlith cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Bu cefnogaeth hefyd i sicrhau mwy o gysondeb yn y drefn arolygu yng Nghymru. Er bod rhai arolygiaethau yn rhoi ystyriaeth fanwl i gydraddoldebau, teimlir bod eraill, megis Estyn, yn rhoi farw ddim ffocws ar hyn yn eu fframweithiau arolygu presennol.

6. **Dim gweledigaeth a rennir ar gyfer cydraddoldeb rhywiol**

Soniodd rhanddeiliaid am yr anhawster i ennyn diddordeb pobl yn yr agenda cydraddoldeb rhywiol a bod hyn yn fwy anodd byth oherwydd diffyg iaith a gweledigaeth a rennir. Trafodwyd p'un a oes angen strategaeth cydraddoldeb rhywiol glir a chynllun gweithredu i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus. Ond trafodwyd hyn yn y cyd-bestun bod ymdeimlad eisoes bod gormod o strategaethau nad ydynt yn arwain at weithredu.

Trafododd rhanddeiliaid mewn rhai grwpiau naratif dewis ac unigoleiddio sy'n rhwystro trafodaeth ehangach a dyfnach ar yr anghydraddoldebau strwythurol sy'n parhau yn ein cymdeithas, ein heconomi a'n diwylliant. Trafodwyd iaith yn y cyd-destun hwn, gan ystyried p'un a yw pobl yn ymateb yn fwy cadarnhaol i gysyniadau fel “tegwch” yn hytrach na “chydraddoldeb”.

Cytunwyd bod arweinyddiaeth yn hollbwysig er mwyn hyrwyddo'r agenda hon a gweithio tuag at weledigaeth a rennir ar gyfer cydraddoldeb rhywiol. Roedd yna ymdeimlad y gallai arweinyddiaeth ar yr agenda hon fod yn gryfach ac y gallai Llywodraeth Cymru roi mwy o arweiniad i arweinwyr eraill ledled Cymru. Bu

cefnogaeth hefyd i hyfforddiant pwrpasol i arweinwyr er mwyn sicrhau eu bod yn ymgorffori cydraddoldeb rhywiol yn eu sefydliadau eu hunain.

7. **Mae diffyg cyllid a diffyg adnoddau o hyd ar gyfer cydraddoldebau**

   Codwyd diffyg cyllid ac adnoddau gan nifer o randdeiliaid mewn ffyrdd gwahanol. Wrth drafod y ffordd y gweithredir dyletswyddau cydraddoldebau, soniodd rhai am y diffyg adnoddau mewn cyrff cyhoeddus i gyflawni'r swyddogaeth hon yn effeithiol. Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae'r gallu ym maes cydraddoldebau wedi gostwng, yn rhannol oherwydd cyllidebau is, ac awgrymodd rhai y gall fod yn anodd i aelod iau o staff herio Cynghorwyr ac Uwch Swyddogion.

   Nododd rhanddeiliaid eraill fod cyrff cyhoeddus o dan bwysau cynyddol i wneud mwy am lai o arian ac nad yw cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer y dyletswyddau na'r disgwyliadau a osodwyd arnynt.

   Codwyd hefyd fater arbenigedd a ph'un a yw'r rhai sy'n ymwneud â gweithredu asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn meddu ar yr arbenigedd sydd ei angen i ystyried polisïau a phenderfyniadau gwariant yn feirniadol o safbwynt rhywedd.

8. **Data**

   Mae argaeledd data yn ganolog i brosesau llunio polisïau ar sail tystiolaeth a chraffu. Cododd llawer o'n rhanddeiliaid ddiffyg data fel problem. Soniodd rhai am ddiffyg data sy'n benodol i Gymru a soniodd eraill am ddiffyg data wedi'u dadgyfuno yng Nghymru. Er bod rhywfaint o ddata ar gael sydd wedi'u dadgyfuno yn ôl rhyw, anaml y gellir haenu data ymhellach yn ôl nodweddion gwarchodedig eraill megis ethnigrwydd neu oedran. Nododd rhanddeiliaid nifer o grwpiau a oedd yn "anweladwy" yn gyffredinol mewn data, gan gynnwys menywod sy'n ffoaduriaid neu'n fudwyr, menywod digartref, menywod anabl a menywod sy'n ofalwyr.

   Roedd cydnabyddiaeth o'r problemau a achosir gan feintiau samplau bach yng Nghymru ond cafwyd consensws cyffredinol naill ai y gallai rhagor o adnoddau gael eu neilltuo ar gyfer hybu arolygon neu y gallai effeithiolrwydd y gwariant cyfredol ar hybu arolygon gael ei asesu. Teimlwyd y dylid anelu at nod lle mae holl ddata cyhoeddedig Llywodraeth Cymru yn cael eu dadgyfuno yn ôl rhyw ac y dylai esboniad gael ei roi lle nad oedd modd gwneud hyn.

9. **Menywod Anweladwy**

   Caiff lleisiau, profiadau a heriau rhai menywod eu hanwybyddu'n aml gan y rhai sy'n llunio polisïau. Mae menywod BAME, LGBT ac anabl, menywod sy'n ffoaduriaid neu'n fudwyr a menywod sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn absennol ar y cyfan yn yr agenda bolisi. Cyfyngedig yw cefndir y rhai sydd wrthi'n ceisio unioni'r problemau ac mae diffyg data ac ymgysylltu â

menywod o gefndir amrywiol yn gwaethygu problemau os yw agenda bolisi yn canolbwyntio'n bennaf ar fenywod gwyn nad ydynt yn anabl. Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon nad yw meysydd cydraddoldeb fel nodweddion gwarchodedig yn mynd i'r afael â chydgyfeiriadedd a bod angen diffiniad mwy penodol o'r ffordd y dylid ymdrin â meysydd cydraddoldeb lluosog a chydgyfeiriadol.

Cytunodd rhanddeiliaid fod yn rhaid i'r agenda hon fod yn berthnasol ac yn gynrychioliadol o fenywod yn eu cyfanrwydd a bod tipyn o ffordd i fynd er mwyn sicrhau mai felly y mae.

10. **Brexit**

Cododd llawer o randdeiliaid fater Brexit gyda phryderon y bydd yn peryglu hawliau a mesurau diogelu a gwasanaethau i fenywod a ddarperir o ganlyniad i gyllid strwythurol. Nododd rhanddeiliaid fod lleisiau menywod ar goll yn ystod y refferendwm ac yn y trafodaethau ers hynny. Mynegwyd pryderon ynglŷn â cholli buddsoddiad Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r cysylltiadau rhyngwladol y mae aelodaeth o'r UE wedi'u galluogi, sy'n hwyluso rhannu arfer gorau, ymchwil a data.

**Casgliad**

Mae mewnbwn gan randdeiliaid yn ystod Cam Un wedi bod yn amhrisiadwy ac wedi cadarnhau bod modd creu gweledigaeth a rennir ar gyfer cydraddoldeb rhywiol y gall y llywodraeth, cyrff cyhoeddus ac eraill weithio tuag ati.

Ceir consensws cyffredinol bod gennym sylfeini cadarn i adeiladu arnynt, gyda fframwaith deddfwriaethol a ddylai ei gwneud yn bosibl i gydraddoldeb rhywiol gael ei ymgorffori'n wirioneddol mewn prosesau llunio polisïau a gwneud penderfyniadau yng Nghymru.

Fodd bynnag, dylid cydnabod maint yr heriau a nodir yn y papur hwn. Erys cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd i ysgogi newid diwylliannol mewn sefydliadau gwleidyddol ac mewn cymdeithas yn fwy cyffredinol.

## Atodiad 2: Adroddiad ymgynghori â rhanddeiliaid: Crynodeb o feysydd gweithredu

### Cyflwyniad

Fel rhan o'r adolygiad o gydraddoldeb rhywiol, gofynnwyd i sefydliadau ledled Cymru am eu syniadau am un cam gweithredu y gallwn ei gymryd i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol. Yn ogystal â nifer o ymatebion ysgrifenedig, casglwyd safbwyntiau yn y ddau ddigwyddiad i randdeiliaid, un yn y gogledd ac un yn y de.

Mae'r papur hwn yn dwyn ynghyd grynodeb o'r materion allweddol a drafodwyd yn y digwyddiadau hyn a'r camau gweithredu a awgrymwyd gan ein rhanddeiliaid.

Bydd y camau gweithredu hyn yn sail ddefnyddiol ar gyfer rhagor o drafod ac ymchwilio yn ystod Cam Dau wrth i atebion ymarferol i sicrhau cydraddoldeb rhywiol gael eu hystyried.

### Egwyddorion Cyffredin

Nododd rhanddeiliaid nifer o egwyddorion cyffredin a ddylai lywio camau gweithredu i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol.

#### Dull gweithredu cydgyfeiriadol

- Mae'n rhaid i anghenion pob menyw gael eu hystyried yn yr holl waith datblygu polisi, gweithredu a monitro er mwyn sicrhau nad oes yr un fenyw yn cael ei gadael ar ôl.
- Bydd mwy o botensial i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol os bydd polisïau a mentrau yn hyrwyddo sefyllfa menywod duon a lleiafrifoedd ethnig, menywod anabl, menywod sy'n ffoaduriaid neu sy'n ceisio lloches, menywod lesbaidd, deurywiol a thrawsrywiol, menywod ifanc a hŷn a menywod â statws economaidd-gymdeithasol is.
- Mae'n rhaid i hyn sicrhau cyfranogiad menywod o gefndir amrywiol ar y lefel uchaf er mwyn sicrhau bod gweithredu yn gynhwysol, wedi'i gyd-gynllunio ac wedi'i gyd-ddarparu.

#### Cyrraedd y rhai sydd wedi cael eu gadael ar ôl fwyaf

- Mae'n rhaid i gamau gweithredu i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol roi'r rhai sydd wedi cael eu gadael ar ôl fwyaf ar flaen ein meddwl. Oni fydd menywod sy'n agored i niwed, megis y rhai sy'n profi iechyd meddwl gwael, sy'n adfer ar ôl camddefnyddio sylweddau, sydd wedi wynebu cam-drin domestig a chamfanteisio rhywiol, gan gynnwys gwaith rhyw, menywod sy'n fudwyr o'r UE, menywod o gymunedau BAME, rhieni unigol sy'n byw mewn tlodi a menywod ag anableddau, yn cael cymorth i gael addysg a chyflogaeth ni fydd cydraddoldeb rhywiol wedi'i sicrhau.

**Camau Gweithredu Cyflym**
Er i randdeiliaid gytuno y byddai angen gweithredu am gyfnod estynedig yn yr hirdymor i fynd i'r afael â materion strwythurol sy'n cyfrannu at anghydraddoldeb rhywiol, nodwyd nifer o gamau gweithredu cyflym y gellid eu cymryd nawr er mwyn sicrhau cynnal momentwm.

1. Dylai fod cydbwysedd rhwng y rhywiau ym mhenodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru.
2. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu a chyflwyno hyfforddiant ar gydraddoldeb rhywiol a thrais yn erbyn menywod i bob athro.
3. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o rôl dynion mewn gofal plant a hyrwyddo absenoldeb rhiant a rennir.
4. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu cyfraniad gofal di-dâl i'n heconomi.
5. Dylai Llywodraeth Cymru gyflawni ei hymrwymiad i roi cyllid cynaliadwy a hirdymor ar gyfer gwasanaethau cymorth i oroeswyr pob math o drais yn erbyn menywod.
6. Dylid treialu ac addasu cyllidebu ymatebol o ran rhywedd ym mhroses pennu cyllideb Llywodraeth Cymru.
7. Dylid llunio datganiad gweinidogol gan yr holl Gabinet ar bwysigrwydd yr agenda hon a'r ffordd y byddant yn ymwneud â'r cam nesaf o'r adolygiad hwn eu hunain.
8. Dylai Llywodraeth Cymru annog pob sefydliad yng Nghymru i gyhoeddi ei ddata ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a pharatoi mynegai sector cyhoeddus Cymru gyfan.
9. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymgyrch gyfathrebu hirdymor i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol.
10. Dylai Llywodraeth Cymru i gryfhau'r dyletswyddau cydraddoldebau presennol.

**Amcanion Cyffredin ar gyfer newid yn yr hirdymor**
Daeth nifer o amcanion cyffredin i'r amlwg gan randdeiliaid. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

1. Deddfwriaeth a pholisïau cadarn ar gydraddoldeb rhywiol wedi'u rhoi ar waith yn effeithiol
2. Addysg ar gydraddoldeb rhywiol i ysgogi newid diwylliannol
3. Rhoi terfyn ar bob math o drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig, trais rhywiol, priodi dan orfod, camfanteisio rhywiol, anffurfio organau cenhedlu benywod, ac aflonyddu rhywiol.
4. Rhoi gwerth ar ofalwyr
5. Gofal plant hygyrch i bawb
6. Gwaith hyblyg, teg ac ystwyth
7. Cydnabod natur rywiol tlodi
8. Cydraddoldeb rhwng y rhywiau wrth wneud penderfyniadau
9. Menywod yn cael eu portreadu mewn ffordd deg a chywir
10. Tai diogel i bawb

Ystyrir pob un o'r amcanion hyn yn fanylach isod, gyda chamau gweithredol ategol a awgrymwyd gan randdeiliaid.

1. **Deddfwriaeth a pholisïau cadarn ar gydraddoldeb rhywiol wedi'u rhoi ar waith: Cryfhau Deddfwriaeth a Pholisïau Cydraddoldeb Rhywiol sy'n bodoli eisoes a gwella gwaith craffu ar berfformiad Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol**

Cafwyd consensws cyffredinol y gallai'r ddeddfwriaeth a'r polisïau sy'n bodoli eisoes i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol gael eu rhoi ar waith yn well.

Ymhlith y camau gweithredu a awgrymwyd roedd:

- Mwy o waith craffu ar gydymffurfiaeth awdurdodau a restrir â'r Ddeddf Cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus er mwyn ystyried:
    - Ansawdd cynlluniau cydraddoldeb strategol
    - Cadernid Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb
    - Sut mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn integreiddio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Dylai Llywodraeth Cymru ddwyn eraill i gyfrif am ddatblygu a chyflawni Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Dylai Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol a chynlluniau Llesiant awdurdodau lleol gael eu hintegreiddio'n well
- Dylid sefydlu pwyllgor menywod a chydraddoldeb yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru
- Dylid sefydlu paneli arbenigol ar gydraddoldeb rhywiol yn Llywodraeth Cymru

2. **Addysg ar gydraddoldeb rhywiol i ysgogi newid diwylliannol: Addysg ar gydraddoldeb rhywiol i herio stereoteipiau rhyw, rolau a disgwyliadau traddodiadol gydag addysg rhywedd a pherthnasoedd mewn ysgolion a modelau rôl sy'n fenywod yn siarad mewn lleoliadau addysg a gweithleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol**

Tynnwyd sylw at addysg fel adnodd hollbwysig i ysgogi'r newid diwylliannol sydd ei angen i sicrhau Cymru sy'n fwy cyfartal drwy herio stereoteipiau. Cytunwyd bod y diwygiadau addysg sy'n mynd rhagddynt yn cynnig cyfle i ymgorffori cydraddoldeb a chefnogi datblygiad dinasyddion cytbwys a hyddysg.

Ers y digwyddiadau i randdeiliaid, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bwriad i wneud Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb yn elfen statudol o'r cwricwlwm Cymreig, sef cam gweithredu a awgrymwyd gan nifer o randdeiliaid.

Ymhlith y camau gweithredu eraill a awgrymwyd mae'r canlynol:

- Mabwysiadu dull ysgol gyfan o ymdrin â chydraddoldeb
- Addysg Rhywioldeb a Pherthnasoedd ar y Cwricwlwm Cymreig
- Dylai Estyn adolygu cynlluniau cydraddoldeb strategol ysgolion
- Dylai Estyn adolygu addysg hawliau dynol mewn ysgolion

- Mae Estyn yn monitro rôl ysgolion i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol a gwobrwyo arfer da
- Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â gwahanu galwedigaethol drwy addysg a chyngor gyrfaoedd
- Dylai Llywodraeth Cymru roi canlllawiau ar addysg bechgyn a dynion ar wreig-gasineb
- Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno rhaglenni fel AGENDA mewn ysgolion
- Dylid creu adnodd Dysgu Cymru ar gydraddoldeb dysgu
- Dylai Llywodraeth Cymru ariannu cynhyrchion misglwyf am ddim ym mhob ysgol
- Dylai Llywodraeth Cymru roi canllawiau statudol i ysgolion ar eu rôl i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol, gan gynnwys dull ysgol gyfan er mwyn newid diwylliant, gwisg ysgol niwtral o ran y rhywiau heb unrhyw orfodaeth ynglŷn â gwallt na hyd sgertiau a hyrwyddo chwaraeon i bawb.
- Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno hyfforddiant athrawon ar gydraddoldeb rhywiol a thrais yn erbyn menywod.
- Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno hyfforddiant i bob llywodraethwr ac athro mewn cydraddoldeb rhywiol
- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu cyfleoedd i athrawesau gamu ymlaen yn eu gyrfaoedd i uwch swyddi.

3. **Rhoi terfyn ar bob math o drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig, trais rhywiol, priodi dan orfod, camfanteisio rhywiol, anffurfio organau cenhedlu benywod, ac aflonyddu rhywiol: Rhoi'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith, buddsoddi mewn rhaglenni atal a sicrhau cyllid hirdymor cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau cymorth arbenigol**

Codwyd materion trais, aflonyddu a cham-drin rhywiol gan y mwyafrif o randdeiliaid fel er her allweddol i sicrhau cydraddoldeb rhywiol. Croesawyd y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gan y rhan fwyaf, ond roedd pryderon ynglŷn â pha mor gyflym roedd yn cael ei rhoi ar waith.

Mae'r camau gweithredu a awgrymwyd i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched yn cynnwys:

- Ymgorffori confensiwn Istanbul a'r Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod mewn deddfwriaeth i Gymru.
- Dylai polisïau, deddfwriaeth a phrosesau Llywodraeth Cymru fod yn unol â Nod Datblygu Cynaliadwy 5 y CU a Chonfensiwn Istanbul.
- Dylai fod mwy o ffocws gan Lywodraeth Cymru ar bob math o drais yn erbyn menywod, fel priodi dan orfod, ac anffurfio organau cehedlu benywod a masnachu pobl.
- Dylai Llywodraeth Cymru gasglu data ar brofiadau trais menywod sy'n fudwyr.
- Dylai Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol gasglu straeon goroeswyr a dylai goroeswyr gyd-lunio polisïau.
- Dylai Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol ariannu rhaglenni i gyflawnwyr, fel y model parch.

- Dylai Llywodraeth Cymru ariannu ymgyrchoedd hyrwyddwyr menywod BAME ac arwain y broses o ddatblygu polisïau

Dylid cefnogi ymyriadau effeithiol gan wylwyr:

- Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno ymgyrch tair blynedd gyda phrosesau cyfathrebu ac ymyriadau cymunedol cadarn.
- Dylai Llywodraeth Cymru integreiddio'r polisi a'r ddeddfwriaeth yn y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn hwyluso rhaglenni a dulliau atal.
- Dylai Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol ariannu gwasanaethau cymorth i blant.
- Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymgyrch rhuban gwyn fel sy'n digwydd yng Nghanada sy'n cynnwys dynion

Er mwyn cefnogi gwasanaethau arbenigol:

- Dylai Llywodraeth Cymru wella ffynonellau cyllid, gan integreiddio ac amryiwaethu ffrydiau cyllid e.e., dylai cyllid iechyd a diogelu fod o natur fwy hirdymor er mwyn i sefydliadau fod yn fwy strategol.
- Dylid defnyddio defnyddwyr blaenorol gwasanaethau i lunio a chyflwyno gwasanaethau a bod yn aelodau o fyrddau ymddiiredolwyr.
- Dylid adolygu'r angen am wasanaethau i ddynion.
- Dylid cyllido gwasanaethau wedi'u llywio gan drawma i blant a phobl ifanc.
- Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu mwy o ymchwil i dystiolaeth o'r broses o gyflwyno gwasanaethau sydd wedi'u llywio gan drawma a dulliau atal.
- Mae cymdeithasau tai yn darparu tai sefydlog a diogel i fenywod sy'n profi trais domestig e.e. snowdrops yn Sheffield.
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyfleoedd i gadw menywod yn eu cartrefu a gorfodi dynion i symud allan, os yw'n ddiogel.
- Dylid clustnodi cyllid ar gyfer grwpiau risg uchel ar lefel Awdurdodau Lleol

Er mwyn mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol:

- Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i ddeall ac ymateb i brofiadau menywod a merched.
- Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol roi polisïau urddas yn y gwaith, proses gwyno a gwasanaeth cyfeirio ar waith
- Dylai Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol roi hyfforddiant i weithwyr a rheolwyr ar aflonyddu rhywiol.
- Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod gwreig-gasineb fel trosedd casineb a chefnogi'r heddlu yn y gwaith o'i gorfodi.
- Dylai Llywodraeth Cymru greu dinasoedd dim goddefgarwch heb unrhyw aflonyddu rhywiol na delweddau rhywiaethol.
- Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu prosesau sgiliau a gwybodaeth wedi'u cyd-gynhyrchu ac ymyriadau i atal aflonyddu rhywiol.

4. **Rhoi gwerth ar ofalwyr: Rhoi mwy o werth ar ofalwyr yng Nghymru a chodi eu tâl drwy ddilyniant gyrfa i ofalwyr sy'n cael eu talu, gan greu gweithleoedd sy'n ystyriol o ofalwyr a rhoi gwerth ar ofal di-dâl**

Codwyd mater gofal gan y mwyafrif o randdeiliaid, o ran argaeledd gofal ffurfiol â thâl baich gofal di-dâl ar fenywod. Mynegwyd yn gryf bod yn rhaid i sgyrsiau am ofal fod yn glir p'un ai gofal ffurfiol neu ofal di-dâl sy'n cael ei drafod am fod yr heriau'n wahanol.

Er mwyn ymateb i'r her hon awgrymwyd y camau gweithredol canlynol:

- Dylai Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol ddatblygu gweithleoedd sy'n ystyriol o ofalwyr
- Dylid cefnogi gofalwyr yn y gweithle drwy adolygiad gan Lywodraeth Cymru o rôl gofalu ledled Cymru
- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu cyfleoedd i gyfleusterau crèche mewn cartrefi gofal i'r gofalwyr yn y gweithlu
- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu adroddiad modelu economaidd ar dâl i'r gweithlu gofal er mwyn ystyried cyflogau uwch – cynyddu refeniw i gynyddu enillion treth i Gymru (a wnaed i weithwyr sbwriel)
- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda darparwyr i lunio cymwysterau wedi'u hachredu i'r rhai sy'n gofalu
- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu rôl gofalu yng Nghymru a'r effaith ar yr economi
- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a chasglu tystiolaeth o waith gofal di-dâl yng Nghymru
- Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r rhwystrau i gael y lwfans gofal
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr incwm sylfaenol i bawb
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyfleoedd i fentrau gofal rhwng y cenedlaethau

5. **Gofal plant hygyrch i bawb: Gofal plant fforddiadwy a hygyrch i bawb, gan sicrhau bod tadau yn rhan o'r broses fagu, y gall plant anabl gael gofal plant, a bod canolfannau gofal plant i deuluoedd sy'n ceisio lloches**

Ystyriwyd bod mynediad at ofal plant yn rhwystr canolog i fenywod o ran cael cyflogaeth sicr â chyflog da. Nododd rhanddeiliaid y gall fod angen cymorth ychwanegol ar rai grwpiau, megis menywod anabl a menywod BME, i gael gafael ar ofal plant priodol.

Nododd rhanddeiliaid hefyd bwysigrwydd cefnogi dynion er mwyn iddynt chwarae rôl fwy gweithredol wrth ofalu am eu plant.

Ymhlith y camau gweithredu i ymateb i'r her hon roedd y canlynol:

- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu’r gofal plant a gynigir yng ngoleuni’r gwerthusiad o’r cynllun peilot
- Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu gofal plant am ddim i fenywod di-waith er mwyn eu hannog i ddatblygu eu sgiliau a’u haddysg
- Dylai Llywodraeth Cymru annog mwy o gyflogwyr i agor cyfleusterau crèche.
- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu argaeledd gwarchodwyr plant a hyrwyddo gyrfaoedd i warchodwyr plant er mwyn iddynt symud i fyd addysg
- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu rôl dynion ym maes gofal plant drwy ymchwiliad a chasglu data ar dadau sy’n defnyddio gofal plant ac absenoldeb rhiant a rennir
- Dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo absenoldeb rhiant a rennir
- Dylai Llywodraeth Cymru gynnig cymhellion ariannol i warchodwyr gofal plant ddarparu ar gyfer plant anabl, e.e. cynllun sy’n talu’r gost ychwanegol i blentyn anabl fynd i feithrinfa neu at warchodwr plant
- Dylai Llywodraeth Cymru roi Hyfforddiant Cydraddoldeb Anabledd i ddarparwyr gofal plant
- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun sy’n paru nanis â phlant anabl ar gyfer plant anabl ag anghenion sylweddol a chymhleth, y mae angen gofal un i un arnynt
- Dylai Llywodraeth Cymru ariannu canolfannau gofal plant i deuluoedd sy’n ceisio lloches er mwyn annog integreiddio.

### 6. Gwaith hyblyg, teg ac ystwyth: Cau’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau drwy fynediad at amodau gwaith hyblyg a theg gyda chyflog byw

Ystyriwyd bod gwella mynediad at ofal plant yn un mesur a fyddai’n mynd i’r afael ag anghydraddoldeb menywod yn y gweithle. Cytunodd rhanddeiliaid fod angen gwneud rhagor er mwyn sicrhau mynediad at waith hyblyg, teg ac ystwyth gan y byddai hyn yn cyfrannu at gau’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Ystyriodd trafodaethau yr anghydraddoldeb y mae menywod yn ei brofi yn y gweithle a’r ffaith eu bod yn wynebu mwy o risg o dlodi mewn gwaith o ganlyniad i hynny.

Roedd camau gweithredu a awgrymwyd yn cynnwys y canlynol:

- Dylai Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus gyhoeddi data ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a llunio mynegai sector cyhoeddus i Gymru gyfan.
- Dylai Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus lunio amcanion cynhwysfawr ar gau’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a chymryd camau gweithredu.
- Dylai Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol gyflwyno’r cyflog byw i bawb.
- Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod arfer da o ran gweithio’n hyblyg ledled Cymru.
- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu pob gwasanaeth a gaffaelir er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau gwaith teg, gan gynnwys y cyflog byw a chontractau dim oriau.
- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau i ymdrin â materion sy’n benodol i rywedd yn y gweithle, fel misglwyfi, menopos a mamolaeth.
- Dylid cyflwyno hyfforddiant ar aflonyddu rhywiol yng ngweithleoedd Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol.

- Dylai Llywodraeth Cymru newid y polisi teithio rhatach i fenywod ar incwm isel sydd am gael gwaith.
- Dylai timau o fewn Llywodraeth Cymru fod yn gytbwys o ran y rhywiau.
- Dylai Llywodraeth Cymru ariannu rhaglenni hyder ac arweinyddiaeth i fenywod.
- Dylid cynyddu recriwtio rhan amser a rhannu swyddi yn Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol.
- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i ddatblygu nod barcud ar gyfer statws cyflogwr cyfartal o ran rhywedd.
- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i gydnabod cymwysterau ffoaduriaid.

**7. Cydnabod natur rywiol tlodi: mae menywod yn wynebu mwy o risg o dlodi. Mae'n rhaid cydnabod hyn a chymryd camau i roi terfyn ar dlodi yng Nghymru**

Nododd rhanddeiliaid fod menywod yn wynebu mwy o risg o dlodi a bod yr hyn sy'n achosi tlodi yn wahanol ymhlith dynion a menywod a bod eu profiad ohono'n wahanol. Cafwyd consensws cyffredinol bod angen cydnabod natur rywiol tlodi er mwyn llywio ymatebion effeithiol.

Ymhlith y camau gweithredu mae'r canlynol:

- Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru gynnal astudiaeth o anghydraddoldebau sy'n ymwneud â thlodi yng Nghymru
- Dylai Llywodraeth Cymru gasglu gwell data a chomisiynu ymchwil i brofiadau menywod o dlodi
- Dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu ar gyfer dyleswydd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru

**8. Cydraddoldeb rhwng y rhywiau wrth wneud penderfyniadau: 50:50 o fenywod a dynion yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a gwella holl gynrychioliaeth menywod mewn prosesau gwneud penderfyniadau, gyda ffocws penodol ar ymgysylltu â menywod BME a menywod anabl**

Nodwyd bod diffyg cynrychioliaeth ddigonol menywod mewn prosesau gwneud penderfyniadau yn broblem allweddol, sy'n sail i lawer o broblemau eraill sy'n deillio o'r ffaith bod materion rhywedd a materion menywod yn llai tebygol o gael eu trafod mewn amgylcheddau lle mai dynion sydd yn y mwyafrif.

Er mwyn unioni'r diffyg cydbwysedd hwn, awgrymodd rhanddeiliaid y camau gweithredu canlynol:

- Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu'r diwygiadau etholiadol yn argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol.

- Dylai pleidiau gwleidyddol Cymru fabwysiadu cwotâu cyfreithiol er mwyn cynyddu cyfranogiad a chynrychioliaeth menywod o gefndir amrywiol yn y Cynulliad.
- Dylai pleidiau gwleidyddol Cymru hyrwyddo cyfleoedd i rannu swydd a recriwtio ar y sail hon
- Dylai'r Cynulliad sefydlu cyfleusterau crèche a bwydo ar y fron yn y Senedd.
- Dylai pleidiau gwleidyddol Cymru ariannu rhaglenni i ddileu rhwystrau a wynebir gan fenywod BME a menywod anabl yn benodol.
- Dylai pleidiau gwleidyddol Cymru ddeddfu er mwyn sicrhau'r un nifer o ddynion a menywod ym mhob bwrdd cyhoeddus yng Nghymru.
- Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio Diwygiadau Llywodraeth Leol i wneud newidiadau i wella cynrychioliaeth menywod mewn cynghorau lleol.
- Gall Swyddfa Archwilio Cymru archwilio cynrychioliaeth mewn penodiadau cyhoeddus ac uwch weision sifil o safbwynt cydgyfeiriadol.
- Gall Gweinidogion Llywodraeth Cymru a gweision sifil wrthod siarad mewn paneli lle nad oes cydbwysedd rhyw na grŵp amrywiol o fenywod ar y panel.
- Dylai Llywodraeth Cymru gasglu a chyhoeddi astudiaethau achos a modelau rôl o fenywod sy'n gwneud penderfyniadau.
- Dylai gwleidyddion a llunwyr polisïau hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol, gan sicrhau bod cynrychioliaeth amrywiol o fenywod mewn fforymau ac ymhlith y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

## 9. Menywod yn cael eu portreadu mewn ffordd deg a chywir: menywod, a materion menywod, i gael eu portreadu mewn ffordd deg a chydradd yn y cyfryngau ac mewn ymgyrchoedd cyfathrebu a ddefnyddir i ysgogi newid diwylliannol

Roedd rôl y cyfryngau yn thema gyffredin yn nhrafodaethau rhanddeiliaid. Teimlwyd bod menywod yn aml yn cael eu portreadu'n annheg yn y cyfryngau, naill ai'n wan ac yn agored i niwed neu fel gwrthrychau. Roedd effaith y ffordd mae menywod yn cael eu portreadu yn y cyfryngau ar bobl ifanc yn bryder penodol, yn enwedig o ran y ddelwedd o'r corff.

Mynegwyd pryder hefyd ynglŷn â'r ffordd roedd stereoteipiau rhyw yn cael eu hatgyfnerthu gan y cyfryngau a hysbysebion.

Trafodwyd rôl gadarnhaol bosibl y cyfryngau hefyd, gydag awydd i ymgyrchoedd helpu i ysgogi newid diwylliannol a herio stereoteipiau.

Ymhlith y camau gweithredu a awgrymwyd mae'r canlynol:

- Dylai Llywodraeth Cymru arwain ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o duedd yn y cyfryngau, yn enwedig wrth bortreadu menywod BAME.
- Dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar gynllun ymgyrchu parhaus â phartneriaid yn y cyfryngau a'r celfyddydau.
- Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymgyrchoedd â'r cyfryngau mewn ysgolion.

- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid yn y cyfryngau i roi mwy o lais i fenywod yn y celfyddydau a'r cyfryngau.
- Ymgyrch 'let toys be toys'
- Ymgyrch herio rhywiaeth
- Ymgyrchoedd teledu â S4C
- Ymgyrchoedd chwaraeon
- Cyfresi opera sebon teledu ar straeon ynglŷn â chydraddoldeb rhywiol

## 10. Tai sicr a diogel i bawb: Sicrhau terfyn ar denantiaethau ansicr a rhoi llety diogel i oroeswyr trais yn erbyn menywod

Mae tai diogel a sicr o ansawdd da yn hanfodol i bawb, ond mae menywod yn fwy tebygol o fyw mewn tai ansicr a phrofi trais yn eu cartrefi eu hunain. Felly, teimlwyd bod angen camau gweithredu penodol gan gymdeithasau tai a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Dylai Llywodraeth Cymru roi terfyn ar 'dadfeddiannu di-fai' a fydd yn rhoi terfyn ar denantiaethau ansicr sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod.
- Dylai cymdeithasau tai ddarparu llety i oroeswyr sy'n ffoi rhag trais gyda llety i symud o loches i lety sefydlog.